Mae rheoliad 8 yn diwygio Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005 er mwyn cymhwyso'r diwygiadau a wnaed i Ran 5A o Ddeddf 1972 sy'n ymwneud â hysbysiadau gwrandawiadau at wrandawiadau pwyllgorau trwyddedu awdurdodau lleol. Mae rheoliad 9 yn gwneud yr un peth mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Hapchwarae 2005 (Trafodion Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau Trwyddedu) (Trwyddedau Mangreoedd a Datganiadau Dros Dro) (Cymru a Lloegr) 2007

Mae **Rhan 4** yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.

Mae rheoliad 10 yn pennu cyfnod o chwe blynedd pryd y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod dogfennau penodol yn dal ar gael i'r cyhoedd. Dogfennau yw'r rhain sy'n ymwneud â chyfarfodydd a gynhaliwyd, a phenderfyniadau gweithrediaeth a wnaed, rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021 ac a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth dros dro o dan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.

Mae rheoliad 11 yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â hysbysiadau neu ddogfennau eraill a gyhoeddwyd neu a anfonwyd cyn 1 Mai 2021 mewn perthynas â chyfarfodydd neu wrandawiadau a gynhaliwyd ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gymdymffurfio â'r

Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran
Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth
Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Deddf Llywodraeth
Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
(Diwygiadau Canlyniadol a
Darpariaethau Amrywiol) 2021**

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 50 a 173 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021⁽¹⁾ ac adrannau 22(6), (7), (8), (9), (10), (11) a (12)⁽²⁾ a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000⁽³⁾.

Yn unol ag adran 174(4) a (5)(f) a (t) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

-
- (1) 2021 dsc 1. *Gweler* hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) o ran darpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.
- (2) Rhoddodd paragraff 28 o Atodlen 3 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20) y geiriau "Welsh Ministers" yn lle "Secretary of State" yn adran 22.
- (3) 2000 p. 22.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union ar ôl i Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddod i rym yn llawn(1).

RHAN 2

Diwygio deddfwriaeth sylfaenol

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

2.—(1) Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(2) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 24(3) (ystyried adroddiadau er budd y cyhoedd)—

(a) yn is-adran (5)(b)—

(i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle “section 100B(2)”(4) rhodder “section 100BA(2)”(5);

(ii) yn is-baragraff (i), yn lle “open to inspection under section 100B1” (6) rhodder “published under section 100BA(1)”;

(iii) yn is-baragraff (ii) yn lle “section 100B(7)” rhodder “section 100BA(9)”;

(1) Daeth paragraff 17(4) o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”) i rym ar 21 Ionawr 2021. Daeth gweddill Atodlen 4 i Ddeddf 2021 i rym ar 1 Mai 2021 drwy orchymyn cychwyn a wnaed yn unol ag adran 175(7) o'r Ddeddf honno.

(2) 2004 p. 23.

(3) Ceir diwygiadau i adran 24 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Addaswyd adran 24 dros dro, mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021, gan baragraff 3(a) o'r Atodlen i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/442 (Cy. 100)). Mewnosodwyd yr Atodlen honno yn O.S. 2020/442 (Cy. 100) gan O.S. 2020/653 (Cy. 150).

(4) Mewnosodwyd Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) (“Deddf 1972”) gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985 (p. 43), adran 1. Addaswyd adran 100B o Ddeddf 1972 dros dro, mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021, gan O.S. 2020/442 (Cy. 100), paragraff 21(3).

(5) Mewnosodwyd adran 100BA yn Rhan 5A o Ddeddf 1972 gan Ddeddf 2021, Atodlen 4, paragraff 7.

(6) Diwygiwyd adran 100B(1) gan Ddeddf 2021, Atodlen 4, paragraff 6(2).

- (b) yn is-adran (7), yn lle “section 100C(1)(d)”⁽¹⁾ rhodder “section 100C(1B)(d)”⁽²⁾.

(3) Yn adran 26⁽³⁾ (cyhoedduswydd ar gyfer cyfarfodydd o dan adran 25)—

- (a) yn is-adran (3)—

(i) ym mharagraff (a) mewnosoder ar y diwedd “(but where the meeting is to be held by a body mentioned in subsection (3A) through remote means only, there is no need for the notice to state the place of the meeting)”;

- (ii) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

“(aa) in the case of a meeting held through remote means by a body mentioned in subsection (3A), also gives details of how to access the meeting;”;

- (b) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

“(3A) The bodies referred to in subsection (3)(a) and (aa) are—

- (a) a local authority in Wales;
- (b) a committee of a local authority in Wales (including a joint committee of two or more local authorities in Wales);
- (c) a National Park authority for a National Park in Wales;
- (d) a fire and rescue authority in Wales constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21)⁽⁴⁾ or a scheme to which section 4 of that Act applies.

(3B) In subsection (3)(a) and (aa) the references to a meeting of a body held through remote means are to a meeting held by means of equipment or other facility which enables persons who are not in the same place to speak to and be heard by each other (whether or not the equipment or facility enables those persons to see and be seen by each other).”

- (c) yn is-adran (6)—

(1) Addaswyd adran 100C dros dro, mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021, gan O.S. 2020/442 (Cy. 100), rheoliad 21(4). Diwygiwyd adran 100C(1) gan Ddeddf 2021, Atodlen 4, paragraff 8(2).

(2) Mewnosodwyd adran 100C(1B)(d) yn Neddf 1972 gan Ddeddf 2021, Atodlen 4, paragraff 8(3).

(3) Addaswyd adran 26 dros dro, mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021, gan baragraff 3(b) o'r Atodlen i O.S. 2020/442 (Cy. 100).

(4) 2004 c. 21.

- (i) ar ôl “availability for inspection” mewnosoder “and publication”;
- (ii) ar ôl “are” mewnosoder “published electronically or”.

Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009

3. Yn Neddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009(1), yn adran 49 (awdurdod lleol yn ystyried adroddiad)—

- (a) yn is-adran (8)(b)—
 - (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (i) yn lle “section 100B(2)” rhodder “section 100BA(2)”;
 - (ii) yn is-baragraff (i) yn lle “open to inspection under section 100B(1)” rhodder “published under section 100BA(1)”;
 - (iii) yn is-baragraff (ii) yn lle “section 100B(7)” rhodder “section 100BA(9)”;
- (b) yn is-adran (9), yn lle “section 100C(1)(d)” rhodder “section 100C(1B)(d)”.

Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

4. Yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013(2), hepgorer adran 56 (gofyniad i roi hysbysiau cyhoeddus yn electronig)(3).

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

5.—(1) Mae adran 49 (hysbysiau etc. ynglŷn â chyfarfodydd awdurdodau lleol) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Daw’r testun presennol yn is-adran (1).

(3) Ar ôl yr is-adran honno mewnosoder—

“(2) Mae unrhyw hysbysiad neu ddogfen arall sy’n ymwneud â chyfarfod awdurdod lleol y mae’n ofynnol o dan unrhyw ddeddfiad iddynt gael eu cyhoeddi’n electronig, at ddibenion paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Difenwi 1996 (p. 31), i’w trin fel dogfen y mae’n ofynnol yn ôl y gyfraith iddi fod yn agored i’w harchwilio gan y cyhoedd.

(1) 2009 p. 20. Nid yw adran 49 wedi ei chychwyn.
 (2) 2013 dccc 4.
 (3) Mewnosododd adran 56 is-adran (1ZA) newydd yn ymwneud â hysbysiau a roddir gan gynghorau cymuned yn adran 232 o Ddeddf 1972, a hepgorir gan Ddeddf 2021, Atodlen 4, paragraff 17(3)(c).

(3) Yn is-adran (2) mae i “cyfarfod awdurdod lleol” yr un ystyr ag yn adran 50(5).”

RHAN 3

Diwygio is-ddeddfwriaeth

Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995

6.—(1) Mae paragraff 6(1) o Atodlen 3 i Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (2)(a)—

- (a) hepgorer “of the time and place”;
- (b) yn lle “at the principal offices of the Authority” rhodder “electronically”;
- (c) yn lle “be signed by” rhodder “state the names of”.

(3) Yn is-baragraff (2)(b)(3)—

- (a) yn lle “signed” rhodder “authenticated”;
- (b) yn lle “left at or sent by post to the usual place of residence of” rhodder “sent electronically to”;
- (c) yn lle “a copy” rhodder “an electronic copy”(4).

-
- (1) Addaswyd paragraff 6 dros dro, mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau parciau cenedlaethol a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021, gan O.S. 2020/442 (Cy. 100), rheoliad 18.
 - (2) O.S. 1995/2803. Ceir diwygiadau i Atodlen 3 nad yw'r un ohonynt yn berthnasol.
 - (3) Diwygiwyd paragraff 6(2)(b) gan baragraff 52 o Atodlen 4 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755 (Cy. 90)).
 - (4) Mae'r swyddogaeth o dderbyn copi o'r wŷs i gyfarfod o awdurdod parc cenedlaethol o dan baragraff 6(2)(b) wedi ei rhoi i Weinidogion Cymru. Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 63(1) a (5) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25), a pharagraffau 1(2) a (3), a 2(1) a (2) o Atodlen 7 iddi, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. O dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwnnw, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwnnw at un o swyddogaethau un o Weinidogion y Goron o dan ddeddfiad yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw un o swyddogaethau'r Gweinidog hwnnw sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw gynllun, rheoliadau, rheolau, gorchymyn, is-ddeddfau neu offeryn arall sy'n cael effaith o dan y deddfiad hwnnw neu mewn perthynas ag ef, ac mae'r pŵer i roi swyddogaethau i'r Gweinidog hwnnw gan unrhyw gynllun, rheoliadau, rheolau, gorchymyn, is-ddeddfau neu offeryn arall o'r fath yn cael effaith fel pŵer i roi swyddogaethau o'r fath i'r Cynulliad. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a oedd yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy erbyn hyn gan Weinidogion Cymru.

(4) Ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(2A) The notice of the meeting given under sub-paragraph (2)(a) must—

- (a) where the meeting or part of the meeting is open to the public and is held through remote means only, give details of the time of the meeting and how to access it;
- (b) where the meeting or part of the meeting is open to the public and is held partly through remote means or is not held through remote means, give details of the time and place of the meeting and how to access it;
- (c) where the meeting is not open to the public and is held partly through remote means or is not held through remote means, give details of the time and place of the meeting and the fact that it is not open to the public;
- (d) where the meeting is not open to the public and is held through remote means only, give details of the time of the meeting, and the fact that it is being held through remote means only and is not open to the public.

(2B) In sub-paragraph (2)(b) “authenticated” means signed or otherwise authenticated in such manner as the proper officer of the Authority considers appropriate.

(2C) Every member of the Authority must specify an electronic address for the purpose of receiving a summons referred to in sub-paragraph (2)(b).

(2D) In this paragraph, references to a meeting of the Authority held through remote means are to a meeting held by means of any equipment or other facility which enables persons who are not in the same place to speak and be heard by each other (whether or not the equipment or facility enables those persons to see or be seen by each other).”;

(5) Yn is-baragraff (3)—

- (i) yn lle “he” rhodder “that member”;
- (ii) yn lle “him” ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “that member”;
- (iii) yn lle “other than his usual place of residence” rhodder “rather than electronically”;
- (iv) yn lle “his” rhodder “that member’s”.

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001

7.—(1) Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 26(2) (darpariaethau cymwysadwy Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972)—

(a) ym mharagraff (1)(b) yn lle “adran 100B” rhodder “adran 100BA”;

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Mae dyletswydd pwyllgor safonau, yn rhinwedd paragraff (1), i gyhoeddi unrhyw ddogfen yn electronig yn ddyletswydd i gyhoeddi’r ddogfen ar wefan yr awdurdod perthnasol (os oes un gan yr awdurdod hwnnw).”;

(c) ym mharagraff (2) yn lle “is-adran (1) o adran 100B” rhodder “is-adran (1) o adran 100BA”;

(d) ym mharagraff (2A)(3)—

(i) yn is-baragraff (a)—

(aa) yn lle “adrannau 100B” rhodder “adrannau 100BA”;

(bb) ar ôl “gyhoeddi” mewnosoder “yn electronig”;

(ii) yn is-baragraff (d), yn lle “gyhoeddi’r deunyddiau” rhodder “gyhoeddi’n electronig y deunyddiau”;

(e) hepgorer paragraff (3);

(f) yn lle paragraff (4) rhodder—

“(4) Yn is-adrannau (1)(c) a (2A)(b) o adran 100D, yn lle “offices of the council” rhodder “offices of the relevant authority”;

(g) ym mharagraff (6), yn lle “is-adran (3) o adran 100H” rhodder “is-adrannau (3), (3A) a (6A) o adran 100H”(4);

(h) ym mharagraff (7), yn y testun a fewnosodir gan is-baragraff (a), ar y diwedd mewnosoder

-
- (1) O.S. 2001/2283 (Cy. 172).
- (2) Addaswyd rheoliad 26 dros dro gan baragraff 2(a) o'r Atodlen i O.S. 2020/442 (Cy. 100) mewn perthynas â chyfarfodydd pwyllgorau safonau a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021.
- (3) Mewnosodwyd paragraff (2A) gan Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/85 (Cy. 39)), rheoliad 2(16).
- (4) Mewnosodwyd is-adran (6A) o adran 100H gan Ddeddf 2021, Atodlen 4, paragraff 10(8). Addaswyd adran 100H dros dro gan reoliad 21(8) o O.S. 2020/442 (Cy. 100) mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021.

“a gweler adran 100J(3YA), (3ZA)(b) a (3ZAA) uchod”(1).

(3) Yn rheoliad 27(2) (darpariaethau cymwysadwy Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Pan fo—

(a) yn ofynnol, yn rhinwedd adran 100A o Ddeddf 1972, fel y'i haddaswyd gan reoliad 26, i awdurdod lleol gyhoeddi'n electronig hysbysiad sy'n ymwneud ag un o gyfarfodydd ei bwyllgor safonau, a

(b) bod gan un neu fwy o'r cynghorau cymuned a leolir yn ardal yr awdurdod lleol wefan,

caiff yr awdurdod lleol, os gwêl yn dda, ddarparu i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar un neu fwy o'r gwefannau hynny (yn ogystal ag ar ei wefan ef ei hun).”;

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Pan fo—

(a) yn ofynnol, yn rhinwedd adran 100B o Ddeddf 1972, fel y'i haddaswyd gan reoliad 26, i awdurdod lleol gyhoeddi'n electronig agendâu ac adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd ei bwyllgor safonau, a

(b) bod gan un neu fwy o'r cynghorau cymuned a leolir yn ardal yr awdurdod lleol wefan,

caiff yr awdurdod lleol, os gwêl yn dda, ddarparu i'r agendâu neu'r adroddiadau gael eu cyhoeddi ar un neu fwy o'r gwefannau hynny (yn ogystal ag ar ei wefan ef ei hun).”;

(c) yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Pan fo—

(a) yn ofynnol, yn rhinwedd adran 100C o Ddeddf 1972, fel y'i haddaswyd gan reoliad 26, i awdurdod lleol gyhoeddi'n electronig gofnodion ei bwyllgor safonau neu ddogfennau eraill sy'n

(1) Mewnosodwyd adran 100J(3YA) gan Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), adran 231(5). Mewnosodwyd adran 100J(3ZA) gan Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (p. 17), Atodlen 8, paragraff 15(4). Mewnosodwyd adran 100J(3ZAA) gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, Atodlen 22, paragraff 3(4).

(2) Addaswyd rheoliad 27 dros dro gan baragraff 2(b) o'r Atodlen i O.S. 2020/442 (Cy. 100) mewn perthynas â chyfarfodydd pwyllgorau safonau a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021.

- ymwneud â chyfarfodydd ei bwyllgor safonau, a
- (b) bod gan un neu fwy o'r cynghorau cymuned a leolir yn ardal yr awdurdod lleol wefan,
- caiff yr awdurdod lleol, os gwêl yn dda, ddarparu i'r cofnodion a'r dogfennau hynny gael eu cyhoeddi ar un neu fwy o'r gwefannau hynny (yn ogystal ag ar ei wefan ef ei hun).”

Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005

8.—(1) Mae Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) In these Regulations, a reference to a hearing of an authority in Wales held through remote means is to a hearing held by means of any equipment or other facility which enables persons who are not in the same place to speak and be heard by each other (whether or not the equipment or facility enables those persons to see or be seen by each other).”

(3) Yn rheoliad 4 (y cyfnod amser y mae gwrandawriad i'w gynnal o'i fewn)—

- (a) daw'r testun presennol yn baragraff (1);
- (b) yn y paragraff hwnnw, ar y dechrau, yn lle “The authority” rhodder “An authority in England”;
- (c) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder—

“(2) An authority in Wales must—

- (a) in the case of a hearing which is held through remote means only, arrange for the date and time at which the hearing is to be held in accordance with regulation 5;
- (b) in the case of a hearing which is held partly through remote means or not through remote means, arrange for the date on which and the place and time at which a hearing is to be held in accordance with regulation 5;

(2A) In either case mentioned in paragraph (2) an authority in Wales must give a notice of

(1) O.S. 2005/44. Mae adran 50(4) o Ddeddf 2021 yn darparu y caiff Rheoliadau o dan yr adran honno ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.

hearing in accordance with regulations 6(1A) and 7.”

(4) Yn rheoliad 6 (hysbysiad gwrandawriad)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle “the authority” rhodder “an authority in England”;

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) In the case of hearings under the provisions listed in column 1 of the table in Schedule 2, an authority in Wales must, in accordance with the following provisions of this regulation, give to the persons listed in column 2 of the table a notice which—

(a) where the hearing is held through remote means only, gives details of the time of the hearing and how to access it, or

(b) where the hearing is held partly through remote means or not through remote means, gives details of the time and place of the hearing and how to access it.”

(5) Yn rheoliad 12 (pŵer i ymestyn amser etc.)—

(a) ym mharagraff (2), ar ôl “an authority” mewnosoder “in England”;

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Where an authority in Wales has adjourned a hearing to a specified date, it must forthwith notify the parties—

(a) in the case of a hearing held through remote means only, of the date and time to which the hearing has been adjourned and how to access it; or

(b) in the case of a hearing held partly through remote means or not through remote means, of the date, time and place to which the hearing has been adjourned and how to access it.”

(c) ym mharagraff (3), ar ôl “an authority” mewnosoder “in England”;

(d) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(3A) Where an authority in Wales has arranged for a hearing to be held on a specified additional date, it must forthwith notify the parties—

(a) in the case of a hearing held through remote means only, of the additional date on which and time at which the hearing is to be held and how to access it; or

(b) in the case of a hearing held partly through remote means or not through remote means, of the additional date on

which and time and place at which the hearing is to be held and how to access it.”

(6) Yn rheoliad 20 (methiant partion i fynychu'r gwrandawriad)—

(a) ym mharagraff (4) yn lle “the authority” rhodder “an authority in England”;

(b) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) Where an authority in Wales adjourns the hearing to a specified date it must forthwith notify the parties—

(a) in the case of a hearing held through remote means only, of the date and time to which the hearing has been adjourned and how to access it; or

(b) in the case of a hearing held partly through remote means or not through remote means, of the date, time and place to which the hearing has been adjourned and how to access it.”

Rheoliadau Deddf Hapchwarae 2005 (Trafodion Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau Trwyddedu) (Trwyddedau Mangreoedd a Datganiadau Dros Dro) (Cymru a Lloegr) 2007

9.—(1) Mae Rheoliadau Deddf Hapchwarae 2005 (Trafodion Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau Trwyddedu) (Trwyddedau Mangreoedd a Datganiadau Dros Dro) (Cymru a Lloegr) 2007(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) In these Regulations, a reference to a hearing of a relevant committee in Wales held through remote means is to a hearing held by means of any equipment or other facility which enables persons who are not in the same place to speak and be heard by each other (whether or not the equipment or facility enables those persons to see or be seen by each other).”

(3) Yn rheoliad 5 (hysbysiad gwrandawriad)—

(a) ym mharagraff (2), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), ar ôl “committee” mewnosoder “in England”;

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

(1) O.S. 2007/173. Mae adran 50(4) o Ddeddf 2021 yn darparu y caiff Rheoliadau o dan yr adran honno ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad. Rhoddwyd y diffiniad o “relevant committee” yn lle “licensing committee” gan reoliad 16 o Reoliadau'r Iaith Gymraeg (Ffurflenni Hapchwarae a Thrwyddedu) 2010 (O.S. 2010/2440).

“(3) A relevant committee in Wales must ensure that the notice referred to in paragraph (1)—

- (a) where the hearing is held through remote means only, gives details of the date and time of the hearing and how to access it;
- (b) where the hearing is held partly through remote means or is not held through remote means, gives details of the date, time and place of the hearing and how to access it;
- (c) states that the relevant committee will make available the documents listed in the relevant entry in column 3 of the table in the Schedule to the following persons if those persons request them—
 - (i) any person who has made representations (unless the relevant committee considers that the representations are vexatious, frivolous or will certainly not influence the determination of the application), and
 - (ii) in the case of an application under section 188 for the transfer of a premises licence, the licensee,
- (d) is sent so that, in the ordinary course of events, it is received no later than 10 working days before the first day on which the hearing is to be held (as specified in the notice).”

(4) Yn rheoliad 7 (pŵer i ohirio)—

- (a) ym mharagraff (3), ar ôl “a relevant committee” mewnosoder “in England”;
- (b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(3A) Where a relevant committee in Wales has adjourned a hearing to a specified date, it must, as soon as reasonably practicable, notify the parties—

 - (a) in the case of a hearing held through remote means only, of the new date and time for the hearing and how to access it; or
 - (b) in the case of a hearing held partly through remote means or not held through remote means, of the new date, time and place for the hearing and how to access it.”
- (c) ym mharagraff (4) ar ôl “a relevant committee” mewnosoder “in England”;
- (d) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) Where a relevant committee in Wales has arranged for the hearing to be held on a specified additional date it must, as soon as reasonably practicable, notify the parties—

- (a) in the case of a hearing held through remote means only, of the additional date and time of the hearing and how to access it; or
- (b) in the case of a hearing held partly through remote means or not held through remote means, of the additional date, time and place of the hearing and how to access it.”

(5) Yn rheoliad 10 (methiant partïon i fynychu'r gwrandawriad)—

- (a) ym mharagraff (4) yn lle “the relevant committee” rhodder “a relevant committee in England”;
- (b) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) Where, under this regulation, a relevant committee in Wales adjourns the hearing to a specified date it must, as soon as reasonably practicable, notify the parties—

- (a) in the case of a hearing held through remote means only, of the date and time to which the hearing has been adjourned and how to access it; or
- (b) in the case of a hearing held partly through remote means or not held through remote means, of the date, time and place to which the hearing has been adjourned and how to access it.”

RHAN 4

Gofynion o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 i ddogfennau barhau i fod ar gael yn electronig a darpariaethau trosiannol

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020

10.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ddogfennau sy'n ymwneud â chyfarfod a gynhaliwyd, neu benderfyniad gweithrediaeth a wnaed, ar neu ar ôl 22 Ebrill 2020 a chyn diwedd 30 Ebrill 2021 yr oedd yn ofynnol iddynt barhau i fod ar gael yn electronig i aelodau o'r cyhoedd—

- (a) o dan adran 100C o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i haddaswyd gan reoliad 21(4) o

Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws)
(Cyfarfodydd) (Cymru) 2020(1), neu

- (b) o dan reoliad 13 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001(2) fel y'u diwygiwyd gan reoliad 23(8)(e)(3) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.

(2) Rhaid i ddogfennau y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddynt barhau i fod ar gael yn electronig i aelodau o'r cyhoedd hyd nes y daw'r cyfnod o chwe blynedd sy'n dechrau ar ddyddiad y cyfarfod neu benderfyniad y weithrediaeth i ben.

Darpariaeth drosiannol

11.—(1) Mae unrhyw hysbysiad neu ddogfen arall a gyhoeddwyd neu a anfonwyd cyn 1 Mai 2021 yn unol â'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2) mewn perthynas â chyfarfod neu wrandawriad a gynhaliwyd ar neu ar ôl 1 Mai 2021, i'w trin fel pe baent wedi eu cyhoeddi neu wedi eu hanfon yn unol â'r darpariaethau hynny fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn.

(2) Dyma'r darpariaethau—

- (a) adrannau 24(5) a 26(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel y'u haddaswyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020;
- (b) paragraff 6(2) a (3) o Atodlen 3 i Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 fel y'i haddaswyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020;

(1) O.S. 2020/442 (Cy. 100)), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/653 (Cy. 150). Addaswyd adran 100C o Ddeddf 1972 dros dro, mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021, gan reoliad 21(4) o O.S. 2020/442 (Cy. 100)) fel bod adran 100C i'w darllen fel pe bai'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, is-adran (7) a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw beth a gyhoeddwyd o dan adrannau 100B a 100C o Ddeddf 1972, fel y'i haddaswyd, barhau i fod ar gael yn electronig i aelodau o'r cyhoedd. Diwygiwyd adran 100C ymhellach gan Ddeddf 2021, Atodlen 4, paragraff 8. Ceir diwygiadau eraill i'r adran nad yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(2) O.S. 2001/2290 (Cy. 178).

(3) Addaswyd rheoliad 13 o O.S. 2001/2290 dros dro, mewn perthynas â chyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol a gynhaliwyd a phenderfyniadau gweithrediaeth a wnaed rhwng 22 Ebrill 2020 a diwedd 30 Ebrill 2021, gan reoliad 23(8)(e) o O.S. 2020/442 (Cy. 100) fel bod rheoliad 13 o O.S. 2001/2290 i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys, ymhlith darpariaethau eraill, baragraff (5A) a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw beth a gyhoeddwyd yn electronig o dan reoliad 8 o O.S. 2001/2290, fel y'i haddaswyd, gael ei gadw gan yr awdurdod lleol a pharhau i fod ar gael yn electronig i aelodau o'r cyhoedd.

- (c) rheoliadau 26(1), (2A) a (4) a 27(1) i (3) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 fel y'u haddaswyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020;
- (d) rheoliadau 4, 6, 12 ac 20 o Reoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005;
- (e) rheoliadau 5, 7 a 10 o Reoliadau Deddf Hapchwarae (Trafodion Pwyllgorau ac Isbwyllgorau Trwyddedu) (Trwyddedau Mangreoedd a Datganiadau Dros Dro) (Cymru a Lloegr) 2007.

Enw

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
Dyddiad

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
23 Chwefror 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021 ('y Rheoliadau') yn gwneud diwygiadau:

- sy'n ganlyniadol i ddiwygiadau a wnaed gan Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021) i ddarpariaethau yn Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972); neu
- sy'n rhoi effaith i ddarpariaethau yn adran 47 o Ddeddf 2021 sy'n ymwneud â mynychu cyfarfodydd o bell.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfnod o amser y mae'n ofynnol i rai dogfennau awdurdodau lleol fod ar gael yn electronig o dan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

Dim

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan adrannau 50 a 173 o Ddeddf 2021 ac adrannau 22 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â mynediad i gyfarfodydd a dogfennau awdurdodau lleol. Cymhwysir darpariaethau Rhan 5A mewn deddfiadau eraill i bwyllgorau a thrafodion penodol awdurdodau lleol ac i awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Mae adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud a chyhoeddi trefniadau at ddibenion sicrhau bod modd cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol drwy ddulliau o bell sy'n galluogi personau nad ydynt yn yr un lle i fynychu cyfarfodydd o bell, os bodlonir amodau penodol.

Mae Atodlen 4 i Ddeddf 2021 yn diwygio, ymhlith darpariaethau eraill, Ran 5A o Ddeddf 1972 i'w gwneud yn ofynnol i ddogfennau cyfarfodydd awdurdodau lleol penodol gael eu cyhoeddi'n electronig i ategu'r gofynion o dan adran 47 o Ddeddf 2021, a rhoi iddynt effaith, ac at ddibenion cysylltiedig.

Mae adran 50 o Ddeddf 2021 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer ac mewn perthynas â gofynion sy'n ymwneud â hysbysiadau a dogfennau eraill sy'n ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol a chynnal cyfarfodydd o'r fath.

Mae adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau sy'n ymwneud â mynediad cyhoeddus i gyfarfodydd, penderfyniadau a dogfennau gweithrediaethau awdurdodau lleol a'u pwyllgorau. Pan ddirprwyir swyddogaethau gweithredol i aelodau unigol o'r weithrediaeth, ni wneir y penderfyniadau hynny yng nghyfarfodydd y weithrediaeth. Mae adran 22 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â phenderfyniadau gweithrediaeth nad ydynt yn cael eu gwneud yng nghyfarfodydd y weithrediaeth.

Mae adran 105(5) o Ddeddf 2000 a pharagraffau 30 a 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 2000.

Mae adrannau 174(4) a (5)(f) a (t) o Ddeddf 2021 yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adran 50 neu adran 173 o Ddeddf 2021.

O dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, gellir cyfuno darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. O ganlyniad, mae'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Rhan 1

Mae rheoliad 1 yn nodi'r teitl a'r darpariaethau cychwyn.

Rhan 2

Mae rheoliad 2 yn diwygio darpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel bod rhaid i awdurdod lleol, wrth ystyried adroddiad er budd y cyhoedd a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, beidio ag eithrio adroddiad o'r fath rhag cael ei gyhoeddi neu ei archwilio'n electronig neu rhag hawliau mynediad ac felly mae'r hysbysiad sydd i'w roi o gyfarfodydd awdurdodau lleol i ystyried adroddiadau o'r fath yn gyson â'r gofynion newydd o dan Ddeddf 2021.

Mae rheoliad 3 yn diwygio adran 49 o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009, fel bod rhaid i awdurdod lleol, wrth ystyried adroddiad er budd y cyhoedd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar endidau sy'n gysylltiedig â'r awdurdod hwnnw, beidio ag eithrio adroddiad o'r fath rhag gael ei gyhoeddi neu ei archwilio'n electronig neu rhag hawliau mynediad.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013 i ddiddymu adran 56 o'r Ddeddf honno, a fewnosododd is-adran (1ZA) yn adran 232 o Ddeddf 1972; cafodd yr is-adran honno ei hun ei hepgor gan ddarpariaeth a wnaed yn Atodlen 4 i Ddeddf 2021.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Deddf 2021 i ddarparu bod dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol y mae'n ofynnol iddynt gael eu cyhoeddi'n electronig i gael eu trin fel dogfennau y mae'n ofynnol iddynt yn ôl y gyfraith fod yn agored i gael eu harchwilio'n gyhoeddus at ddibenion paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Difenwi 1996, a'u bod yn freintiedig felly (oni ddangosir eu bod yn cael eu cyhoeddi yn faleisus).

Rhan 3

Mae rheoliad 6 yn diwygio Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 i roi effaith lawn i ddarpariaethau Deddf 2021 sy'n ymwneud â mynychu cyfarfodydd o bell a rhoi gwysion a hysbysiadau yn electronig.

Mae rheoliad 7 yn diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001. Mae'r Rheoliadau hynny'n cymhwyso darpariaethau Rhan 5A o Ddeddf 1972 i gyfarfodydd pwyllgorau safonau awdurdodau lleol, gydag addasiadau. Mae'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau hynny yn ganlyniadol i'r newidiadau a wnaed i Ran 5A o Ddeddf 1972 gan Atodlen 4 i Ddeddf 2021.

Mae rheoliad 8 yn diwygio Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005 i gymhwyso i wrandawiadau pwyllgorau trwyddedu awdurdodau lleol y diwygiadau a wnaed i Ran 5A o Ddeddf 1972, yn enwedig mewn perthynas â hysbysiadau o wrandawiadau. Mae rheoliad 9 yn gwneud yr un fath mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Trafodion Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau Trwyddedu) (Trwyddedau Mangreoedd a Datganiadau Dros Dro) (Cymru a Lloegr) 2007.

Rhan 3

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020").

Nid oedd Rheoliadau 2020 yn pennu cyfnod cadw ar gyfer dogfennau penodol a gyhoeddwyd yn electronig sy'n ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2020 a 31 Ebrill 2021 o dan y rheoliadau hynny. Mae rheoliad 10 o'r rheoliadau hyn yn pennu y dylai dogfennau o'r fath barhau i fod ar gael yn electronig am chwe blynedd, sef y cyfnod cadw penodedig ar gyfer y dogfennau y mae'n ofynnol eu cyhoeddi'n electronig o dan Ddeddf 2021.

Mae rheoliad 11 yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â hysbysiadau neu ddogfennau a gyhoeddir neu a anfonir cyn 1 Mai 2021 mewn perthynas â chyfarfodydd a gynhelir ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny.

5. Ymgynghori

Ni chafwyd ymgynghoriad ffurfiol gan fod y Rheoliadau'n gwneud diwygiadau technegol canlyniadol.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau.

Yn syml, mae rheoliadau 2 i 9 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i statud ac mae rheoliad 11 yn gwneud darpariaeth drosiannol. Nid yw'r darpariaethau hynny'n gorfodi costau ar fusnesau, elusennau na chyrrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus, nac yn lleihau eu costau.

Mewn perthynas â rheoliad 10, ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1: Gwneud Dim
- Opsiwn 2: Cyflwyno'r rheoliadau

Costau a manteision

Opsiwn 1

Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi'u nodi o dan yr opsiwn hwn.

Mae eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod dogfennau penodol sy'n ymwneud â chyfarfodydd a gynhelir rhwng 22 Ebrill 2020 a 31 Ebrill 2021 ar gael yn electronig.

Mae rheoliad 10 yn pennu y dylai'r dogfennau hynny barhau i fod ar gael am gyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y cyfarfod. Ni ddisgwylir y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â gosod terfyn amser ar ba mor hir y mae'n rhaid i'r dogfennau barhau i fod ar gael.

Ystyrir bod rheoliad 10 yn taro cydbwysedd priodol rhwng:

- (a) sicrhau bod cofnodion electronig sy'n ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt am gyfnod rhesymol o amser; a
- (b) peidio â'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw'r cofnodion hynny am gyfnod amhenodol.

Asesu'r gystadleuaeth

Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru nac ar gystadleurwydd busnesau Cymru.

SL(5)758 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021 (15 munud)

Cefndir a diben

Parhawyd â bodolaeth Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") o dan adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). yrY Cyngor yw'r rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer:

- athrawon ysgol;
- gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion;
- athrawon addysg bellach (darlithwyr);
- gweithwyr cymorth dysgu yn y sector addysg bellach;
- ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith;
- gweithwyr ieuenctid cymwysedig; a
- gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig.

Fel rhan o'i rôl fel rheoleiddiwr, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofrestr o bawb sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor ym mhob un o'r categorïau a restrir uchod (a elwir yn "Pobl Gofrestredig").

Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal unrhyw ymchwiliadau sy'n briodol yn ei farn ef os honnir bod Person Cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol neu os honnir bod yr unigolyn wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol. Ar ôl cynnal ymchwiliad o'r fath, rhaid i'r Cyngor benderfynu ar y camau i'w cymryd, ac un canlyniad posibl yw y gwneir gorchymyn disgyblu yn dilyn gwrandawriad.

Ar hyn o bryd, nid yw'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cyngor yn caniatáu iddo atal Person Cofrestredig rhag gweitho hyd nes y ceir canlyniad ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu. Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at swyddogaethau'r Cyngor fel y gall y Cyngor, drwy Orchymyn Atal Dros Dro Interim, ddileu enw Person Cofrestredig oddi ar y gofrestr gyhoeddus cyn y ceir canlyniad ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu.

Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.



Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chais am adolygiad o orchymyn atal dros dro interim gan y person y mae'n ymwneud ag ef.

Mae paragraff (1)(a) yn caniatáu i gyn-berson cofrestredig wneud cais am adolygiad o orchymyn atal dros dro interim cyn pen 6 mis ar ôl:

- (i) y dyddiad y gwnaed y gorchymyn atal dros dro interim; neu'r
- (ii) dyddiad y cafodd y gorchymyn ei estyn gan yr Uchel Lys.

Mae paragraff (1)(b) yn caniatáu i'r cyn-berson cofrestredig wneud cais arall cyn pen 6 mis wedi hynny.

Pan fydd cais am adolygiad wedi'i wneud o dan baragraff (1)(a) neu (b) rhaid i'r Cyngor, o dan baragraffau (2)(a) a (b) yn y drefn honno, gynnull gwrandawriad i ystyried yr achos cyn i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben.

Effaith hyn yw mai ychydig iawn o amser fydd gan y Cyngor i gynnull cyfarfod o bosibl. Mae'r enghraifft a ganlyn yn dangos hyn:

Gwneir gorchymyn atal dros dro interim yn erbyn person ("P") ddydd Iau 1 Ebrill. Bydd y cyfnod o 6 mis ers y dyddiad y gwnaed y gorchymyn yn dod i ben ddydd Iau 30 Medi.

Ddydd Mercher 29 Medi, mae P yn cyflwyno cais (sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Erthygl 13) i'r Cyngor yn gofyn iddo adolygu'r gorchymyn.

*Gan fod cais P yn bodloni Erthygl 12(1)(a) (fe'i gwnaed cyn pen 6 mis), er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 12(2)(a) **rhaid** i'r Cyngor gynnull gwrandawriad i ystyried yr achos erbyn diwedd dydd Iau 30 Medi (pan ddaw'r cyfnod o 6 mis i ben).*

Drwy gymhwyso paragraffau (2)(a) a (b), gellid gorfodi'r Cyngor i gadw at amserlenni beichus mewn rhai amgylchiadau. Mae hyn yn anghyson â'r hyn a nodir ym mharagraff (2) (c) sy'n caniatáu cyfnod o 10 diwrnod gwaith i'r Cyngor gynnull gwrandawriad yn dilyn cais a wnaed o dan baragraff (1)(c).



Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4 Mawrth 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 45

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 47(2) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

ADDYSG, CYMRU

**Gorchymyn Cyngor y Gweithlu
Addysg (Gorchmynion Atal Dros
Dro Interim) (Swyddogaethau
Ychwanegol) (Cymru) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Parhawyd â bodolaeth Cyngor y Gweithlu Addysg (“y Cyngor”) gan adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”). Mae adran 4 o Ddeddf 2014 yn nodi prif swyddogaethau'r Cyngor. Mae adran 5 o Ddeddf 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngor neu'n gosod swyddogaethau ychwanegol arno.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngor sy'n ymwneud â gosod, adolygu, estyn a dirymu gorchmynion atal dros dro interim.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer gwneud gorchymyn atal dros dro interim. Mae erthygl 3(1) yn rhoi i'r Cyngor y swyddogaeth o wneud gorchymyn atal dros dro interim mewn cysylltiad â pherson cofrestredig. Mae erthygl 3(2) yn darparu bod rhaid i'r Cyngor gynnull gwrandawriad i ystyried a yw'r gofynion ar gyfer gwneud gorchymyn atal dros dro interim wedi eu bodloni. Mae erthygl 3(3) yn darparu bod y Cyngor yn penodi personau i banel annibynnol er mwyn penderfynu unrhyw wrandawriad y mae'n ei gynnull o dan baragraff (2). Mae erthygl 3(4) yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau y mae gorchymyn atal dros dro interim i'w wneud odanynt. Mae erthygl 3(5) yn darparu, pan fo gorchymyn atal dros dro interim wedi ei wneud, fod rhaid dileu enw'r person cofrestredig y mae'n ymwneud ag ef o'r gofrestr y mae'r Cyngor yn ei chynnal. Mae erthygl 3(6) yn darparu na chaniateir i orchymyn atal dros dro

interim gael effaith am gyfnod o fwy na 18 mis (oni chaiff ei estyn yn rhinwedd cais i'r Uchel Lys yn unol ag erthygl 17).

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r isafswm cyfnod rhybudd y mae rhaid i'r Cyngor ei roi i'r person cofrestredig o'i fwriad i wneud gorchymyn atal dros dro interim.

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn rhoi hawl i'r person cofrestredig i ymddangos, i gael ei hebrwng, i gael ei gynrychioli ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a llafar mewn gwrandawriad a gynullir i ystyried gwneud gorchymyn atal dros dro interim.

Mae erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cynnwys gorchymyn atal dros dro interim.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer dyddiad effeithiol gorchymyn atal dros dro interim.

Mae erthygl 8 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys yr hysbysiad bod gorchymyn atal dros dro interim wedi ei wneud ac i bwy y dylid cyflwyno'r hysbysiad. Mae erthygl 20 yn gwneud darpariaeth o ran pa bryd y bernir bod hysbysiad wedi ei gyflwyno i'r person cofrestredig.

Mae erthygl 9 o'r Gorchymyn hwn yn rhoi'r hawl i'r person cofrestredig i gael gwrandawriad cyhoeddus mewn cysylltiad â gwneud gorchymyn atal dros dro interim ac mewn cysylltiad â'r adolygiad o'r gorchymyn hwnnw yn unol ag erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn. Oni bai bod person cofrestredig neu gyn-berson cofrestredig yn arfer ei hawl i gael gwrandawriad cyhoeddus, cynhelir gwrandawriadau o'r fath yn breifat.

Mae erthygl 10 o'r Gorchymyn hwn yn rhoi i'r cyn-berson cofrestredig hawl i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn gwneud gorchymyn atal dros dro interim o fewn 28 o ddiwrnodau i gyflwyno'r hysbysiad o'r gorchymyn.

Mae erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer dirymu gorchymyn atal dros dro interim.

Mae erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chais am adolygiad o'r gorchymyn atal dros dro interim gan y person y mae'n ymwneud ag ef. Rhaid i gais gynnwys yr wybodaeth a nodir yn erthygl 13 o'r Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 14 o'r Gorchymyn hwn yn rhoi hawl i gyn-berson cofrestredig y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef i ymddangos, i gael ei hebrwng, i gael ei gynrychioli, ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a llafar mewn gwrandawriad a gynullir i adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim.

Mae erthygl 15 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno hysbysiad i'r cyn-berson cofrestredig o'i benderfyniad mewn cysylltiad â'i gais am adolygiad o'r gorchymyn atal dros dro interim.

Mae erthygl 16 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod rhaid i'r Cyngor gadw'r gorchymyn atal dros dro interim o dan adolygiad fesul pa ysbeidiau bynnag y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

Mae erthygl 17 o'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer estyn gorchymyn atal dros dro interim neu ei estyn ymhellach y tu hwnt i 18 mis gan yr Uchel Lys.

Mae erthygl 18 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth i reolau gweithredu gael eu gwneud gan y Cyngor mewn cysylltiad â'i benderfyniadau i osod, adolygu, estyn neu ddirymu gorchymyn atal dros dro interim.

Mae erthygl 19 o'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cyhoeddi dogfennau a darparu copïau ohonynt i bersonau cofrestredig a chyn-bersonau cofrestredig.

Mae erthygl 20 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad i berson o dan y Gorchymyn hwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 47(2) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

ADDYSG, CYMRU

**Gorchymyn Cyngor y Gweithlu
Addysg (Gorchmynion Atal Dros
Dro Interim) (Swyddogaethau
Ychwanegol) (Cymru) 2021**

Gwnaed

Yn dod i rym

1 Ebrill 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 5(1), 13(1), 46(1) a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(1), ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 47(2) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru(2) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2021.

-
- (1) 2014 dccc 5. Caniateir i'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 13 o Ddeddf 2014 gael ei arfer i wneud gorchymyn yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) ("Deddf 2019"). Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf 2019 am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.
- (2) Mae'r cyfeiriad yn adran 47(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

mae i “asiant” (“*agent*”) yr ystyr a roddir yn adran 37 o Ddeddf 2014;

mae “categori cofrestru” (“*category of registration*”) i’w ddehongli yn unol ag adran 9(3) o Ddeddf 2014;

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor y Gweithlu Addysg y parhawyd â’i fodolaeth gan adran 2(1) o Ddeddf 2014;

ystyr “cyn-berson cofrestredig” (“*former registered person*”) yw person y mae ei enw wedi ei ddileu o’r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor yn unol â’r Gorchymyn hwn;

ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Addysg (Cymru) 2014;

ystyr “y gofrestr” (“*the register*”) yw’r gofrestr a sefydlir ac a gynhelir gan y Cyngor o dan adran 9 o Ddeddf 2014;

ystyr “gorchymyn atal dros dro interim” (“*interim suspension order*”) yw mesur sy’n dileu dros dro berson cofrestredig o’r gofrestr tra bo ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu yn mynd rhagddynt;

mae i “gorchymyn disgyblu” (“*disciplinary order*”) yr ystyr a roddir yn adran 27(2) o Ddeddf 2014;

ystyr “person cofrestredig” (“*registered person*”) (yn ddarostyngedig i adran 27 o Ddeddf 2014) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr a sefydlwyd o dan adran 9 (gan gynnwys y rheini sydd wedi eu cofrestru ar sail dros dro) o Ddeddf 2014.

Gorchymynion atal dros dro interim

3.—(1) Caiff y Cyngor wneud gorchymyn atal dros dro interim mewn cysylltiad â pherson cofrestredig.

(2) Ni chaiff y Cyngor wneud gorchymyn atal dros dro interim o dan baragraff (1) oni bai ei fod wedi cynnull gwrandawriad i ystyried a yw’r gofynion ar gyfer gwneud gorchymyn atal dros dro interim wedi eu bodloni.

(3) Rhaid i’r Cyngor benodi unrhyw bersonau y mae’n ystyried eu bod yn briodol i banel er mwyn penderfynu gwrandawriad y mae’n ei gynnull o dan baragraff (2).

(4) Ni chaniateir gwneud gorchymyn atal dros dro interim o dan baragraff (1) ond—

- (a) cyn i benderfyniad o ran pa un ai i wneud gorchymyn disgyblu ai peidio gael ei wneud,
a

- (b) os yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud gorchymyn atal dros dro interim er budd y cyhoedd.

(5) Pan fo'r Cyngor yn gwneud gorchymyn atal dros dro interim o dan baragraff (1), rhaid iddo ddileu enw'r person cofrestredig o'r gofrestr y mae'n ei chynnal.

(6) Ni chaniateir i orchymyn atal dros dro interim gael effaith am gyfnod sy'n hwy na 18 mis (oni chaiff ei estyn gan yr Uchel Lys; gweler erthygl 17 (estyn gorchymynion atal dros dro interim gan yr Uchel Lys)).

(7) Ni chaniateir gwneud gorchymyn atal dros dro interim o dan baragraff (1) ond os yw yn unol—

- (a) â'r Gorchymyn hwn, a
- (b) â'r rheolau gweithredu a wneir gan y Cyngor o dan erthygl 18.

Hysbysiad o fwriad i wneud gorchymyn atal dros dro interim

4.—(1) Rhaid i'r Cyngor roi i'r person cofrestredig y mae'r gorchymyn atal dros dro interim arfaethedig yn ymwneud ag ef o leiaf 10 niwrnod gwaith o rybudd o'r bwriad i wneud y gorchymyn hwnnw.

(2) Rhaid i'r hysbysiad o dan baragraff (1) roi gwybod i'r person cofrestredig—

- (a) am natur yr honiadau yn ei erbyn, a
- (b) am ei hawliau o dan erthygl 5.

Hawlogaeth i ymddangos a chyflwyno sylwadau

5. Mewn cysylltiad â gwrandawriad a gynullir gan y Cyngor y rhoddir ystyriaeth ynddo i wneud gorchymyn atal dros dro interim mewn cysylltiad â pherson cofrestredig, mae hawlogaeth gan y person hwnnw—

- (a) i gyflwyno sylwadau cyn y gwrandawriad (pa un a yw'r person yn mynd i'r gwrandawriad ai peidio),
- (b) i ymddangos gerbron y gwrandawriad,
- (c) i gyflwyno sylwadau llafar yn y gwrandawriad,
- (d) i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn y gwrandawriad, ac
- (e) i gael ei gynrychioli ac i gael ei hebrwng, gan unrhyw berson neu bersonau a ddymuna, yn y gwrandawriad.

Cynnwys gorchymyn atal dros dro interim

6. Rhaid i orchymyn atal dros dro interim gofnodi—

- (a) penderfyniad y Cyngor,
- (b) y dyddiad y gwneir y gorchymyn, ac

- (c) y dyddiad y mae'r gorchymyn yn cymryd effaith.

Y dyddiad y mae gorchymyn atal dros dro interim yn cymryd effaith

7. Mae gorchymyn atal dros dro interim yn cymryd effaith ar y dyddiad y cyflwynir hysbysiad ohono i'r person y mae'n cael ei wneud mewn perthynas ag ef ac eithrio pan fo'r Cyngor yn penderfynu fel arall ac yn yr achos hwnnw bydd yn cymryd effaith ar y dyddiad a nodir yn y gorchymyn.

Hysbysiad bod gorchymyn atal dros dro interim wedi ei wneud

8.—(1) Rhaid i'r Cyngor gyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn atal dros dro interim i'r person y mae'n cael ei wneud mewn perthynas ag ef o fewn 3 diwrnod gwaith i'r dyddiad y gwneir y gorchymyn.

(2) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

- (a) testun y gorchymyn,
- (b) disgrifiad o effaith y gorchymyn,
- (c) rhesymau'r Cyngor dros wneud y gorchymyn, a
- (d) esboniad o hawl y person cofrestredig i ofyn bod y Cyngor yn cynnull gwrandawriad i adolygu'r gorchymyn yn unol ag erthygl 12.

(3) Rhaid i'r Cyngor gyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn i gyflogwr neu gyflogwyr presennol neu gyflogwr neu gyflogwyr diwethaf y person cofrestredig a, phan fo'n berthnasol, yr asiant neu'r asiantau.

Hawl i ofyn am wrandawriad cyhoeddus

9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff y panel drafod yn breifat ar unrhyw adeg ac at unrhyw ddiben yn ystod neu ar ôl gwrandawriad.

(2) Caiff person cofrestredig neu gyn-berson cofrestredig y mae'r gorchymyn atal dros dro interim arfaethedig yn ymwneud ag ef ofyn bod unrhyw wrandawriad yn unol ag erthygl 3 neu 12 yn cael ei gynnal yn gyhoeddus.

(3) Pan fo person cofrestredig neu gyn-berson cofrestredig yn gofyn bod y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, caiff y panel eithrio'r cyhoedd o wrandawriad neu unrhyw ran o wrandawriad—

- (a) pan fo'n ymddangos i'r panel ei bod yn angenrheidiol eithrio'r cyhoedd er budd cyfiawnder, neu
- (b) pan fo'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn buddiannau plant.

Apelau

10.—(1) Caiff cyn-berson cofrestredig y mae gorchymyn atal dros dro interim wedi ei wneud mewn cysylltiad ag ef apelio yn erbyn y gorchymyn i'r Uchel Lys.

(2) Rhaid i apêl o dan baragraff (1) gael ei gwneud o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynir hysbysiad o'r gorchymyn i'r cyn-berson cofrestredig.

(3) Mewn cysylltiad ag apêl o'r fath, caiff yr Uchel Lys—

- (a) dirymu'r gorchymyn atal dros dro interim;
- (b) amrywio'r cyfnod y mae'r gorchymyn atal dros dro interim i gael effaith ar ei gyfer;
- (c) peidio â gwneud unrhyw newid i'r gorchymyn atal dros dro interim.

(4) Mae penderfyniad yr Uchel Lys yn derfynol ac ni chaniateir apelio yn ei erbyn.

Dirymu gorchymyn atal dros dro interim

11. Mae gorchymyn atal dros dro interim yn peidio â chael effaith—

- (a) os yw'r Cyngor, cyn cynnal ymchwiliad yn unol ag adran 26(1) o Ddeddf 2014, yn penderfynu nad oes achos i'w ateb mewn perthynas â'r gorchymyn atal dros dro interim arfaethedig,
- (b) os yw'r Cyngor yn peidio â pharhau ag ymchwiliad yn unol ag adran 26(3)(a) neu (c) o Ddeddf 2014(1) i'r ymddygiad sy'n destun y gorchymyn atal dros dro interim,
- (c) os yw'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad o ran pa un ai i osod gorchymyn disgyblu ai peidio, neu
- (d) os yw'r Cyngor, yn dilyn adolygiad yn unol ag erthygl 12, yn penderfynu bod y gorchymyn atal dros dro interim a wnaed o dan erthygl 3 i'w ddirymu.

Cais am adolygiad o orchymyn atal dros dro interim

12.—(1) Caiff cyn-berson cofrestredig ofyn i'r Cyngor adolygu gorchymyn atal dros dro interim sy'n ymwneud â'r person hwnnw—

- (a) cyn i 6 mis ddod i ben o'r dyddiad—

(1) Caiff y Cyngor benderfynu nad oes gan berson cofrestredig achos i'w ateb yn unol ag adran 26(3)(a) o Ddeddf 2014 neu y dylid peidio â pharhau â'r achos ar ryw sail arall yn unol ag adran 26(3)(c) o Ddeddf 2014.

- (i) y gwnaed y gorchymyn atal dros dro interim, neu
- (ii) yr estynnodd yr Uchel Lys, neu yr estynnodd yr Uchel Lys ymhellach, y gorchymyn atal dros dro interim o dan erthygl 17(2)(b);
- (b) wedi hynny cyn i gyfnod dilynol o 6 mis ddod i ben;
- (c) ar unrhyw adeg os daw tystiolaeth newydd ar gael sy'n berthnasol i'r achos neu os oes newid sylweddol mewn amgylchiadau ers i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei wneud.

(2) Pan fo cyn-berson cofrestredig yn gofyn o dan baragraff (1) i'r Cyngor adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim, rhaid i'r Cyngor gynnull gwrandawriad i ystyried yr achos—

- (a) cyn i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben o'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn, pan fo paragraff (1)(a) yn gymwys,
- (b) cyn i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben o ddyddiad yr adolygiad diwethaf, pan fo paragraff (1)(b) yn gymwys, ac
- (c) o fewn 10 niwrnod gwaith i gael y cais, pan fo paragraff (1)(c) yn gymwys.

(3) Pan fo gorchymyn atal dros dro interim a wnaed o dan erthygl 3 wedi bod yn destun apêl o dan erthygl 10, mae unrhyw gyfeiriad ym mharagraff (1) neu (2) at y dyddiad y gwnaed y gorchymyn i'w ddarllen fel cyfeiriad at ddyddiad penderfyniad yr Uchel Lys o dan erthygl 10.

(4) Ni chaiff y Cyngor adolygu gorchymyn atal dros dro interim ond yn unol—

- (a) â'r Gorchymyn hwn, a
- (b) â'r rheolau gweithredu a wneir gan y Cyngor o dan erthygl 18.

Gwybodaeth i'w chynnwys gyda chais am adolygiad

13. Rhaid i gais am adolygiad yn unol ag erthygl 12—

- (a) cael ei wneud yn ysgrifenedig,
- (b) pennu'r sail y mae'r cyn-berson cofrestredig yn ceisio i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei adolygu arni, ac
- (c) cynnwys pob dogfen y dibynnir arni i gefnogi'r cais.

Hawlogaeth i ymddangos a chyflwyno sylwadau

14. Mewn cysylltiad ag unrhyw wrandawriad a gynullir gan y Cyngor yn unol ag erthygl 12(2), mae

hawlogaeth gan gyn-berson cofrestredig y mae'r gorchymyn atal dros dro interim yn ymwneud ag ef—

- (a) i gyflwyno sylwadau cyn y gwrandawriad (pa un a yw'r person yn mynd i'r gwrandawriad ai peidio),
- (b) i ymddangos gerbron y gwrandawriad,
- (c) i gyflwyno sylwadau llafar yn y gwrandawriad,
- (d) i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn y gwrandawriad neu cyn y gwrandawriad, ac
- (e) i gael ei hebrwng ac i gael ei gynrychioli, gan unrhyw berson neu bersonau a ddymuna, yn y gwrandawriad.

Hysbysiad o benderfyniad yn dilyn adolygiad o orchymyn atal dros dro interim

15. Rhaid i'r Cyngor gyflwyno hysbysiad i'r cyn-berson cofrestredig o unrhyw benderfyniad a wneir yn dilyn adolygiad a gynhelir o dan erthygl 12, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, o fewn 3 diwrnod gwaith i wneud y penderfyniad hwnnw.

Adolygiad gan y Cyngor

16.—(1) Er gwaethaf erthygl 12, rhaid i'r Cyngor gadw gorchymyn atal dros dro interim o dan adolygiad fesul pa ysbeidiau bynnag y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(2) Rhaid i adolygiad yn unol â pharagraff (1) gael ei gynnal yn unol â'r rheolau gweithredu a wneir gan y Cyngor o dan erthygl 18.

(3) Yn dilyn adolygiad yn unol â pharagraff (1), caiff y Cyngor—

- (a) dirymu'r gorchymyn atal dros dro interim,
- (b) peidio â gwneud unrhyw newid i'r gorchymyn atal dros dro interim, neu
- (c) gwneud cais i'r Uchel Lys am estyniad yn unol ag erthygl 17 os oes gofyniad i wneud hynny.

Estyn gorchmynion atal dros dro interim gan yr Uchel Lys

17.—(1) Os yw'r Cyngor yn ystyried y dylid estyn gorchymyn atal dros dro interim y tu hwnt i 18 mis, rhaid iddo wneud cais i'r Uchel Lys.

(2) Ar gais, caiff yr Uchel Lys—

- (a) dirymu'r gorchymyn atal dros dro interim,
- (b) estyn, neu estyn ymhellach, y gorchymyn atal dros dro interim am hyd at 12 mis, neu

- (c) peidio â gwneud unrhyw newid i'r gorchymyn nac i'r cyfnod y mae'r gorchymyn i gael effaith ar ei gyfer.

(3) Yn yr erthygl hon, mae cyfeiriad at orchymyn atal dros dro interim yn cynnwys cyfeiriad at orchymyn atal dros dro interim fel y'i hestynnir neu fel y'i hestynnir ymhellach.

Darpariaeth arall ynghylch y weithdrefn i'w gwneud gan y Cyngor

18.—(1) Caiff y Cyngor, fel y gwêl yn addas, wneud unrhyw ddarpariaeth arall o ran y weithdrefn iddo ei dilyn mewn cysylltiad—

- (a) â phenderfyniadau i osod neu i beidio â gosod gorchymyn atal dros dro interim,
- (b) ag ystyried gosod gorchymyn atal dros dro interim, neu
- (c) ag adolygu, estyn a dirymu gorchymyn atal dros dro interim.

(2) Caiff y Cyngor ddiwygio o bryd i'w gilydd unrhyw reolau gweithredu a wneir yn unol â'r erthygl hon.

Cyhoeddi a darparu copïau o ddogfennau

19.—(1) Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi unrhyw reolau gweithredu a wneir o dan erthygl 18—

- (a) ar wefan y mae'n ei chynnal ar y rhyngwrwd, a
- (b) mewn unrhyw fodd arall y gwêl ei fod yn addas.

(2) Rhaid i'r Cyngor, pan fydd unrhyw berson yn gofyn iddo wneud hynny, ddarparu copi o unrhyw reolau gweithredu a wneir o dan erthygl 18 i'r person hwnnw.

Cyflwyno hysbysiadau

20.—(1) Caniateir cyflwyno hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno i berson o dan y Gorchymyn hwn drwy—

- (a) ei ddanfôn at y person hwnnw yn bersonol,
- (b) y post i'r cyfeiriad a roddwyd i'r Cyngor gan y person neu os nad oes unrhyw hysbysiad o'r fath i'w gyfeiriad hysbys diwethaf, neu
- (c) post electronig, pan fo'r person hwnnw yn gofyn am hynny.

(2) Bernir bod hysbysiad a gyflwynir yn unol â'r erthygl hon wedi ei gyflwyno oni ddangosir i'r gwrthwyneb—

- (a) yn achos ei gyflwyno o dan baragraff (1)(a), ar y diwrnod y cafodd ei ddanfôn,

- (b) yn achos ei gyflwyno o dan baragraff (1)(b),
ar y diwrnod gwaith nesaf, ac
- (c) yn achos ei gyflwyno o dan baragraff (1)(c),
ar y diwrnod y cafodd ei anfon.

Enw

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg
(Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru)
2021.

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Uned Strategaeth a'r Gweithlu'r Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021.

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg
23 Chwefror 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Parhawyd â bodolaeth Cyngor y Gweithlu Addysg (“y Cyngor”) gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”)¹. Fe'i gelwid gynt yn Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (“CyngACC”) a ail-gyfluniwyd ac a ailenwyd yn Gyngor y Gweithlu Addysg. Daeth i rym ar 1 Ebrill 2015.

1.2 Y Cyngor yw'r rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer y canlynol:

- athrawon ysgol;
- gweithwyr cymorth dysgu ysgolion;
- athrawon addysg bellach (darlithwyr);
- gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach;
- ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith;
- gweithwyr ieuenctid cymwysedig; a hefyd
- gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig.

1.3 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal cofrestr y (“Gofrestr”) o dan adran 9 o Ddeddf 2014 a chaniatáu i'r cyhoedd weld y Gofrestr honno o dan reoliad 14 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015². Mae'r Gofrestr yn rhestru pawb sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor ar yr adeg honno yn y categorïau a restrwyd uchod (“Personau Cofrestredig”), ac mae ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor³.

1.4 O dan adran 1.4 o Ddeddf 2014, mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal y cyfryw ymchwiliadau ag sy'n briodol, yn ei farn ef, pan honnir bod Person Cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbiniol neu anghymhwysedd proffesiynol neu os honnir bod y Person wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol⁴

1.5 Ar ôl cynnal ymchwiliad o'r fath, bydd y Cyngor yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Caiff y Cyngor osod Gorchymyn disgyblu ar Person Cofrestredig yn dilyn ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu a gynhaliwyd ganddo yn unol â'r darpariaethau disgyblu yn adrannau 26 i 32 o Ddeddf 2014 a Rhan 5 o Reoliadau 2015.

1.6 Diffinnir “gorchymyn disgyblu” yn adran 27(2) o Ddeddf 2014 fel:

- cerydd,
- gorchymyn cofrestru amodol,
- gorchymyn atal dros dro, neu
- gorchymyn gwahardd.

¹ 2014 anaw 5.

² O.S. Rhif 2015/140 (Cy. 8)

³ <https://www.myewc.wales/cy/member-of-public/qualified-teacher/list>

⁴ Ystyr “Trosedd Berthnasol” yw tramgwydd troseddol, ac eithrio pan nad yw'r drosedd honno yn berthnasol i addasrwydd unigolyn i fod yn Person Cofrestredig (Gweler adran 27(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014).

1.7 Nid yw swyddogaethau'r Cyngor o dan Ddeddf 2014 yn caniatáu iddo atal Person Cofrestredig dros dro tra'n aros am ganlyniad ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw natur yr honiadau yn ei erbyn yn gredadwy ac yn ddifrifol, ac yn codi risgiau sylweddol o ran diogelu.

1.8 Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngor er mwyn iddo allu gwneud y canlynol:

- gosod gorchymyn atal dros dro interim ar Berson Cofrestredig pan nad yw'r broses ymchwilio a disgyblu wedi'i chwblhau, ac mae'r Cyngor o'r farn bod gwneud hynny er budd y cyhoedd;
- adolygu gorchymyn atal dros dro interim yn dilyn cais i wneud hynny gan gyn-Berson Cofrestredig;
- adolygu gorchymyn atal dros dro interim yn rheolaidd fel y bo'n briodol, ym marn y Cyngor, p'un fydd cyn-Berson Cofrestredig yn gofyn am adolygiad ai peidio; a hefyd
- dirymu gorchymyn atal dros dro interim yn dilyn adolygiad y gofynnwyd amdano gan gyn-Berson Cofrestredig, neu unrhyw bryd cyn gwneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylid gosod gorchymyn disgyblu ai peidio.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Gorchymyn hwn yn ymateb i argymhelliad 21 gan y Plant, Pobl ifanc ac Addysg yn ei Adroddiad ar yr ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon, sef y dylid " ... *ymestyn cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn rhoi iddo'r pŵer i atal athrawon dros dro mewn amgylchiadau priodol*".⁵ Fodd bynnag, mae'r Gorchymyn hwn yn galluogi'r Cyngor i osod gorchymynion atal dros dro interim ar bob categori o Bersonau Cofrestredig, nid dim ond athrawon.

2.2 O dan erthygl 18 o'r Gorchymyn hwn mae gan y Cyngor y pŵer i bennu ei reolau gweithdrefnol ei hun mewn perthynas â phenderfyniadau i osod, adolygu, estyn a dirymu gorchymynion atal dros dro interim.

⁵ Ar gael ar: <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11338/cr-ld11338-w.pdf>

3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 5 o Ddeddf 2014 yn rhoi pŵer gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru roi'r cyfryw swyddogaethau ychwanegol ag sy'n briodol, yn eu barn nhw, i'r Cyngor neu eu gosod arno.

3.2 Mae adran 13 o Ddeddf 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud, drwy reoliadau, unrhyw ddarpariaeth bellach ynglŷn â'r gofrestr a chofrestru sy'n angenrheidiol neu'n hwylus yn eu barn hwy.

3.3 Mae adran 46 o Ddeddf 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud, drwy orchymyn, unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy'n briodol yn eu barn hwy at ddibenion neu mewn cysylltiad â rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy neu o dan y Ddeddf hon.

3.4 Mae adran 47 o Ddeddf 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed ag sy'n angenrheidiol neu'n fuddiol, yn eu barn nhw, at ddibenion Deddf 2014 neu mewn cysylltiad â'r ddeddf honno.

3.5 Mae adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019") yn darparu, pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, y caniateir iddynt arfer y pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth mewn unrhyw un arall o'r ffurfiau hynny drwy offeryn statudol.

3.6 Mae adran 40 o Ddeddf 2019, sy'n ymwneud â chyfuno is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i wahanol weithdrefnau'r Senedd, wedi ei chymhwyso yn y Gorchymyn hwn.

3.7 Gwneir y Gorchymyn hwn o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

4.1 Diben y Gorchymyn hwn yw ychwanegu at swyddogaethau'r Cyngor er mwyn iddo allu gwneud gorchmynion atal dros dro interim yn erbyn Personau Cofrestredig. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i atal cofrestriad Person Cofrestredig dros dro o'r Gofrestr gyhoeddus fel mesur interim, cyn i ganlyniad ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu gael ei gyhoeddi. Gall gorchymyn atal dros dro interim gael effaith am gyfnod cychwynnol o hyd at 18 mis. Fodd bynnag, yn yr achosion hynny pan fo person, er enghraifft, wedi ei gyhuddo o drosedd, lle y gallai gymryd mwy o amser na 18 mis i'r system gyfiawnder ddod â'r achos i ben, caiff y Cyngor wneud cais i'r Uchel Lys am estyniad i orchymyn atal dros dro interim y tu hwnt i 18 mis. Bydd hyn yn cyfrannu at dryloywder y broses, ac yn darparu rhagor o ddiogelwch gan ei fod yn sicrhau bod craffu annibynnol gan y Llys mewn achosion hir.

4.2 Mae'r Gorchymyn hefyd yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor adolygu, estyn a dirymu gorchymynion atal dros dro interim ac i'r unigolyn y mae'r gorchymyn atal dros dro interim yn ymwneud ag ef ("y cyn-Berson Cofrestredig") wneud cais i adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim.

4.3 Effaith fwriadedig y Gorchymyn hwn yw sicrhau na chaiff unigolion penodol ddefnyddio statws "Person Cofrestredig" i ddangos eu bod yn addas i ymgymryd â gwaith addysgol wrth aros am ganlyniad proses ymchwilio a disgyblu'r Cyngor. Y rheswm dros hyn yw, pryd bynnag y gosodir gorchymyn atal dros dro interim, na fydd y Person Cofrestredig:

- yn gallu gweithio mewn unrhyw rôl lle mae angen cofrestru â'r Cyngor;
- yn gallu cyfeirio ato'i hun fel "Person Cofrestredig"; nac ychwaith
- yn ymddangos ar y Gofrestr fel "Person Cofrestredig".

Proses gorchymyn atal dros dro interim

4.4 Dim ond os bydd y Cyngor o'r farn bod gwneud hynny er budd y cyhoedd y gellir gosod gorchymyn atal dros dro interim. Golyga hyn y bydd y Cyngor yn ystyried gosod gorchymyn atal dros dro interim os yw'r Person Cofrestredig yn destun atgyfeiriad lle y gwneir honiadau difrifol sy'n codi pryderon sylweddol ynghylch diogelu. Byddai honiadau o gamymddygiad rhywiol difrifol, neu niwed corfforol, emosiynol a/neu feddyliol difrifol bob amser yn cael eu cyfrif fel pryderon diogelu difrifol. Yn yr un modd, pe bai'r heddlu'n hysbysu'r Cyngor eu bod yn cynnal ymchwiliad troseddol difrifol a fyddai'n codi pryderon o ran diogelu, byddai hynny hefyd yn cael ei ystyried yn ddifrifol. Yn hytrach na bod yn "orchymyn disgyblu", mae gorchymyn atal dros dro interim yn gam dros dro a gymerir tra'n aros i ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu gael eu cynnal. Gall gorchymyn atal dros dro interim gael effaith, heb gais i'r Uchel Lys am estyniad, am gyfnod o hyd at 18 mis. Ni fyddai'r penderfyniad i osod gorchymyn atal dros dro interim yn seiliedig ar benderfyniad terfynol ynghylch y ffeithiau sy'n ymwneud â honiadau'r achos. Byddai'n cael ei wneud ar wahân i'r penderfyniad i osod gorchymyn disgyblu terfynol. Nid yw'r penderfyniad i osod gorchymyn atal dros dro interim o reidrwydd yn golygu y caiff gorchymyn disgyblu ei osod wedi hynny gan y Cyngor.

4.5 Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried credadwyedd yr atgyfeiriad cyn ystyried a ddylai osod gosod gorchymyn atal dros dro interim. Lle caiff atgyfeiriad ei wneud gan yr heddlu neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, byddai'n debygol y tybid bod yr atgyfeiriad hwnnw - a'r honiadau a wneir oddi mewn iddo - yn ddigon credadwy er mwyn i'r Cyngor allu ystyried gosod gorchymyn atal dros dro interim. Ond, pe bai atgyfeiriad yn dod o ffynhonnell arall, megis cyflogwr neu aelod o'r cyhoedd, byddai'r Cyngor yn gwneud ymholiadau pellach fel rhan o'i broses o ystyried credadwyedd yr atgyfeiriad hwnnw. Er enghraifft, byddai'r Cyngor yn cysylltu â'r heddlu i gael cyngor ynghylch p'un a oes "angen cymdeithasol dybryd brys" (gweler paragraff 4.34) i'r Cyngor weithredu yn eu barn hwy.

4.6 Pryd bynnag mae'r Cyngor yn ystyried gosod gorchymyn atal dros dro interim, mae'n rhaid anfon hysbysiad o fwriad i wneud y gorchymyn atal dros dro interim at y Person Cofrestredig. Mae'n rhaid i'r hysbysiad roi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd i'r Person Cofrestredig o'r gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim gerbron panel annibynnol.

4.7 Caiff y gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim ei gynnal yn breifat, oni fydd Person Cofrestredig yn gofyn am wrandawriad cyhoeddus.

4.8 Bydd gan y Person Cofrestredig yr hawl i ymddangos a chyflwyno sylwadau ar lafar yn y gwrandawriad lle mae ei achos yn cael ei ystyried, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig cyn ac yn ystod y gwrandawriad hwnnw. At hynny, mae ganddo'r hawl i gael rhywun gydag ef a chael ei gynrychioli yn y gwrandawriad gan un neu fwy o bobl (er enghraifft, cynrychiolydd undeb neu gyfreithiwr), a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r panel ymlaen llaw os na fydd yn bresennol yn y gwrandawriad.

4.9 Mae'n rhaid i orchymyn atal dros dro interim gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- penderfyniad y Cyngor;
- y dyddiad y gwneir y gorchymyn atal dros dro interim; a hefyd
- y dyddiad y daw'r gorchymyn atal dros dro interim i rym. Fel arfer, bydd y gorchymyn atal dros dro interim yn cael effaith ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad i'r Person Cofrestredig, oni fydd y Cyngor yn penderfynu fel arall).

4.10 Mae'n rhaid i'r hysbysiad o fwriad i wneud y gorchymyn atal dros dro interim gael ei gyflwyno o fewn 3 diwrnod gwaith i ddyddiad y penderfyniad i'r canlynol:

- yr unigolyn y cafodd ei wneud yn ei erbyn ("y cyn-Berson Cofrestredig"),
- cyflogwyr presennol neu ddiwethaf y cyn-Berson Cofrestredig; a
- unrhyw asiantaethau addysgu y mae'r cyn-Berson Cofrestredig wedi'i gofrestru â hi.

4.11 Rhaid i'r hysbysiad o fwriad i wneud y gorchymyn atal dros dro interim gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- testun y gorchymyn atal dros dro interim;
- disgrifiad o effaith y gorchymyn atal dros dro interim;
- rhesymau'r Cyngor dros wneud y gorchymyn atal dros dro interim; a hefyd
- esboniad o hawl y cyn-Berson Cofrestredig i ofyn i'r Cyngor gynnull gwrandawriad i adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim.

Hawl cyn-Berson Cofrestredig i apelio yn erbyn gorchymyn i'r Uchel Lys

4.12 Caniateir i gyn-Berson Cofrestredig apelio yn erbyn gorchymyn atal dros dro interim i'r Uchel Lys. Rhaid i apêl gael ei gwneud o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau o'r dyddiad y cyflwynir y gorchymyn atal dros dro interim. Mewn cysylltiad ag apêl o'r fath, caiff yr Uchel Lys:

- dirymu'r gorchymyn atal dros dro interim;

- amrywio'r cyfnod y mae'r gorchymyn atal dros dro interim i gael effaith ar ei gyfer;
- peidio â gwneud unrhyw newid i'r gorchymyn atal dros dro interim.

Mae penderfyniad yr Uchel Lys yn derfynol ac ni cheir ei apelio.

Hawl cyn-Berson Cofrestredig i ofyn am adolygiad o'r gorchymyn atal dros dro interim

4.13 Fel yr esboniwyd uchod, mae'n rhaid i'r Cyngor hysbysu'r cyn-Berson Cofrestredig, o fewn 3 diwrnod gwaith i'r penderfyniad i osod y gorchymyn atal dros dro interim, am ei hawl i ofyn i'r Cyngor gynnwll gwrandawriad i adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim.

4.14 Caiff cyn-Berson Cofrestredig wneud cais i'r Cyngor adolygu gorchymyn atal dros dro interim o fewn y chwe mis cyntaf ar ôl i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei osod, neu ar ôl dyddiad penderfyniad yr Uchel Lys os yw'r gorchymyn atal dros dro interim wedi ei apelio, a bob 6 mis ar ôl hynny. Caiff y cyn-Berson Cofrestredig wneud cais i'r Cyngor adolygu gorchymyn atal dros dro interim ar unrhyw adeg os daw tystiolaeth newydd i law sy'n berthnasol i'r achos neu bod newid sylweddol yn yr amgylchiadau ers i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei wneud.

4.15 Mae angen i gais i adolygu gorchymyn atal dros dro interim gael ei wneud yn ysgrifenedig ac esbonio'r rhesymau pam mae'r cyn-Berson Cofrestredig yn gwneud cais i adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim. Mae'n rhaid i'r cais gael ei ategu gan bob dogfen y mae'r cyn-Berson Cofrestredig yn dibynnu arni i gefnogi ei gais.

4.16 Pryd bynnag y derbynnir cais i adolygu gorchymyn atal dros dro interim, mae'n rhaid i'r Cyngor gynnwll gwrandawriad i ystyried yr achos cyn pen 6 mis ar ôl y dyddiad y gwnaed y gorchymyn atal dros dro interim, neu ddyddiad penderfyniad yr Uchel Lys os cafodd y gorchymyn atal dros dro interim ei apelio, neu ddyddiad yr adolygiad diwethaf os yw'r gorchymyn atal dros dro interim eisoes wedi ei adolygu. Os yw'r cyn-Berson Cofrestredig wedi gwneud cais am adolygiad oherwydd bod tystiolaeth newydd wedi dod i law neu oherwydd bod newid sylweddol i'r amgylchiadau, rhaid i'r Cyngor gynnwll gwrandawriad o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y cais hwnnw. Cynhelir y gwrandawriad adolygu yn breifat, oni fydd y cyn-Berson Cofrestredig yn gofyn am wrandawriad cyhoeddus.

4.17 Bydd gan y cyn-Berson Cofrestredig yr hawl i ymddangos a chyflwyno sylwadau ar lafar yn y gwrandawriad lle mae ei achos yn cael ei ystyried, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig cyn ac yn ystod y gwrandawriad hwnnw. At hynny, mae ganddo yr hawl i gael rhywun gydag ef ac i gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad gan un neu fwy o bobl (er enghraifft, cynrychiolydd undeb neu gyfreithiwr), a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r panel os na fydd yn bresennol yn y gwrandawriad.

4.18 Mae'n rhaid i'r Cyngor hysbysu'r cyn-Berson Cofrestredig yn ysgrifenedig am ganlyniad yr adolygiad o fewn 3 diwrnod gwaith i benderfyniad y panel, a rhoi ei resymau dros y penderfyniad hwnnw.

Adolygu gorchymyn atal dros dro interim gan y Cyngor

4.19 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu gorchymyn atal dros dro interim yn rheolaidd pan fo'n briodol, yn ei farn ef, ac yn unol â'i reolau gweithdrefnol. Caiff yr adolygiad hwn ei gynnal p'un a fydd cyn-Berson Cofrestredig yn arfer ei hawl ai peidio i wneud cais am adolygiad.

4.20 Pennir yr amserlen ar gyfer yr adolygiad hwn gan y panel annibynnol pan fydd yn gosod y gorchymyn atal dros dro interim i ddechrau. Fel arfer, fe'i cynhelir bob 6 mis oni chaiff y Cyngor ei hysbysu am newid mewn amgylchiadau, pan all yr adolygiad gael ei gynnal yn gynharach nag a fwriadwyd yn wreiddiol.

4.21 Yn yr adolygiad hwn ni chynhelir gwrandawriad ac ni ofynnir i'r cyn-Berson Cofrestredig gyflwyno sylwadau.

Estyn gorchymynion atal dros dro interim gan yr Uchel Lys

4.22 Os yw'r Cyngor yn credu y dylai gorchymyn atal dros dro interim gael ei estyn y tu hwnt i 18 mis, rhaid iddo wneud cais i'r Uchel Lys. Ar gais, caiff yr Uchel Lys:

- dirymu'r gorchymyn atal dros dro interim;
- estyn, neu estyn ymhellach, y gorchymyn atal dros dro interim am hyd at 12 mis;
- peidio â gwneud unrhyw newid i'r gorchymyn atal dros dro interim nac i'r cyfnod y mae'r gorchymyn atal dros dro interim i gael effaith ar ei gyfer.

Dirymu gorchymyn atal dros dro interim gan y Cyngor

4.23 Caiff y Cyngor ddirymu gorchymyn atal dros dro interim os bydd:

- yn penderfynu nad oes unrhyw achos i'w ateb cyn dechrau ymchwiliadau'r Cyngor ei hun, sy'n rhan o'i swyddogaethau disgyblu o dan adran 26 o Ddeddf 2014; neu
- yn rhoi'r gorau i ymchwiliad i'r ymddygiad honedig a arweiniodd at osod gorchymyn atal dros dro interim, am nad oes unrhyw achos i'w ateb neu ar ryw sail arall;
- yn gwneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylai osod gorchymyn disgyblu ai peidio; neu
- yn cynnal adolygiad er mwyn ystyried cais gan gyn-Berson Cofrestredig ac mae'r adolygiad hwnnw yn penderfynu y dylid dirymu'r gorchymyn atal dros dro interim.

4.24 Bydd gorchymyn atal dros dro interim yn peidio â bod yn awtomatig pan ddaw'r cyfnod y'i gosodir ar ei gyfer i ben. (Gall gorchymyn atal dros dro interim gael effaith, heb gais i'r Uchel Lys am estyniad, am gyfnod o hyd at 18 mis).

Defnyddio rheolau gweithdrefnol y Cyngor

4.25 Mae gan y Cyngor y pŵer i bennu ei reolau ei hun mewn perthynas â phenderfyniadau i osod, adolygu, estyn neu ddirymu gorchymynion atal dros dro interim.

4.26 Er enghraifft, mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud gorchymynion atal dros dro interim os bydd o'r farn bod "angen gwneud hynny er budd y cyhoedd". Fodd bynnag, rheolau gweithdrefnol sy'n esbonio'r hyn a olygir gan brawf "budd y cyhoedd", a sut y caiff ei ddefnyddio yn ymarferol pan fydd y Cyngor yn ystyried a ddylai wneud gorchymyn atal dros dro interim.

4.27 Dim ond â materion na ddarperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn y caiff rheolau gweithdrefnol ymdrin. Er enghraifft, am fod erthygl 4 o'r Gorchymyn arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd i'r Person Cofrestredig o'i fwriad i osod gorchymyn atal dros dro interim arno, ni chaiff rheolau gweithdrefnol newid y gofyniad hwn

4.28 Mae'n rhaid i'r Cyngor ymgynghori ar y rheolau gweithdrefnol hyn cyn iddynt gael eu gwneud neu eu diwygio, a'u cyhoeddi ar ei wefan a darparu copïau ar gais i unrhyw berson sy'n gwneud cais amdanynt.

Rhesymau dros gyflwyno'r Gorchymyn hwn

Pryderon ynghylch diogelu

4.29 O dan adran 26 o Ddeddf 2014, mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal y cyfryw ymchwiliadau ag sy'n briodol, yn ei farn ef, pan honnir bod Person Cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol neu os honnir bod y Person wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol. [Ar ôl cynnal ymchwiliad rhaid i'r Cyngor benderfynu pa gam gweithredu pellach i'w gymryd mewn cysylltiad â'r achos. Pan fo'r Cyngor yn cynnal gwrandawriad neu pan fo'r person yn cydsynio i'r achos gael ei benderfynu heb wrandawriad, caiff y Cyngor benderfynu nad oes achos i'w ateb neu fod y person yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu ei fod wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol. Pan fo'r Cyngor yn penderfynu bod person yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol, neu ei fod wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol, caiff y Cyngor wneud gorchymyn disgyblu mewn perthynas â'r person. Ni fydd pob gorchymyn disgyblu yn arwain at dynnu enw oddi ar y Gofrestr.]

4.30 Rhaid i enw'r Person Cofrestredig aros ar y Gofrestr drwy gydol y cyfnod cyn i'r broses ymchwilio a disgyblu gael ei chwblhau gan y Cyngor. Mae'r Gofrestr yn agored i'r cyhoedd a gellir ei gweld ar-lein. Mae hyn yn golygu, tra bydd yr heddlu yn ymchwilio i honiad difrifol a chredadwy yn erbyn Person Cofrestredig sy'n codi pryderon sylweddol ynghylch diogelu, y bydd y person hwnnw yn aros ar y Gofrestr.

4.31 Mae hyn yn fethiant difrifol am ei fod yn galluogi unigolyn i barhau i fod â statws Person Cofrestredig am fisoedd lawer o bosibl, waeth pa mor ddifrifol a chredadwy yw'r honiadau yn ei erbyn.

4.32 Ond, pe bai gan y Cyngor bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, gallai dynnu enw'r unigolyn hwnnw oddi ar y Gofrestr dros dro tra'n aros am ganlyniad ymchwiliadau gan yr heddlu a'i broses ymchwilio a disgyblu ei hun.

Cynllun Datgelu'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin

4.33 Yn 2013, adolygodd y Swyddfa Gartref natur y wybodaeth roedd heddluoedd yn ei darparu i gyrff rheoleiddio. Yn hanesyddol, byddai heddluoedd yn hysbysu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyngor y Gweithlu Addysg bellach) pan oedd athro ysgol wedi cael ei arestio am gyflawni trosedd neu ei gyhuddo o gyflawni trosedd.

4.34 Newidiodd adolygiad 2013 y gofynion o ran darparu gwybodaeth o'r fath gan heddluoedd, ac yn eu lle cyflwynodd Gynllun Datgelu'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin (CLPD)⁶. O dan CLPD, nid yw'r wybodaeth y caiff yr heddlu ei darparu wedi'i chyfyngu i achosion lle mae rhywun wedi cael ei arestio neu ei gyhuddo o gyflawni trosedd. Fodd bynnag, dim ond pan fo 'angen cymdeithasol dybryd brys' i fynd i'r afael ag ef.

4.35 Heb y gallu i weithredu ar unwaith ar ôl derbyn honiad drwy orchymyn atal dros dro interim, mae'r Cyngor yn pryderu ei bod yn bosibl nad yw'r heddlu yn ei hysbysu am rai o'r honiadau mwyaf difrifol a wneir yn erbyn ei gofrestreion sy'n cynnwys pryderon difrifol ynghylch diogelu.

4.36 Pe bai'r Cyngor yn meddu ar bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim ac yn gallu cymryd camau buan, mae'n bosibl y byddai'r heddlu yn fwy tebygol o atgyfeirio honiadau difrifol sy'n ymwneud â Phersonau Cofrestredig ato o dan CLPD.

4.37 Fodd bynnag, mae rhai heddluoedd yng Nghymru wedi nodi na fyddai rhoi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor yn golygu y câi pob honiad difrifol yn ymwneud â Phersonau Cofrestredig ei atgyfeirio ato yn awtomatig, ond y câi penderfyniad i atgyfeirio ei wneud fesul achos. Felly, ni allwn fod yn sicr y byddai rhoi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim yn arwain at fwy o atgyfeiriadau o dan CLPD; yr heddlu a fyddai'n gwneud y penderfyniad hwnnw a châi ei wneud fesul achos.

⁶ Ar gael ar: <https://www.app.college.police.uk/wp-content/uploads/2016/08/NPCC-2017-Common-Law-Police-Disclosures-CLPD—Provisions-to-supersede-the-Notifiable-Occupations-Scheme-NOS.pdf>

Cyfyngiadau dulliau eraill a ddefnyddir i amddiffyn plant

4.38 Er bod amrywiaeth o ddulliau yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed rhag unigolion a allai beri niwed iddynt, mae'n bosibl nad yw'r dulliau hyn yn mynd i'r afael yn llawn â phryderon ynghylch diogelu.

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

4.39 Sefydlwyd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn 2012 ac mae'n cyflawni'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

4.40 Mae Tîm Datgelu'r DBS yn cynnal gwiriadau cofnodion troseddol sy'n arwain at roi tystysgrifau'r DBS i unigolion. Wedyn, gall cyflogwyr ofyn am gael gweld y tystysgrifau er mwyn sicrhau eu bod yn recriwtio pobl addas i'w sefydliad.

4.41 Unwaith y bydd gan y DBS wybodaeth bod unigolyn yn peri risg o ran diogelu i blant neu oedolion sy'n agored i niwed, bydd yn ystyried rhoi'r unigolyn hwnnw ar y rhestr waharddedig ar gyfer plant, y rhestr waharddedig ar gyfer oedolion, neu'r ddwy restr. Ar ôl iddo gael ei roi ar y rhestr waharddedig briodol, bydd Person Cofrestredig yn awtomatig yn anghymwys i weithio yn unrhyw un o'r saith proffesiwn cofrestredig gyda'r Cyngor.

4.42 Fodd bynnag, ym mhrofiad y Cyngor, ni chaiff unigolyn ei roi ar y rhestr waharddedig fel arfer tan iddo gael ei ddyfarnu'n euog o drosedd, sy'n golygu ei bod yn bosibl, yn ystod ymchwiliad troseddol, nad yw'r amddiffyniad a gynigir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn mynd i'r afael â'r risgiau diogelu yn llawn.

Dyletswydd cyflogwr i roi gwybodaeth i'r Cyngor

4.43 Mae adran 4.44 o Ddeddf 2014 ac Atodlen 5 i Reoliadau 2015 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i gyflogwr ei rhoi i'r Cyngor.

4.44 Pan fydd cyflogwr yn dewis diswyddo Person Cofrestredig oherwydd honiadau difrifol, mae'n ofynnol iddo roi gwybod i'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw cael gwybod am honiadau difrifol yn erbyn Person Cofrestredig ar adeg ei ddiswyddo yn mynd i'r afael â'r risg y bydd Person Cofrestredig yn chwilio am gyflogaeth amgen yn ystod unrhyw gyfnod tra bydd wedi'i atal dros dro.

Amodau mechnïaeth yr heddlu

4.45 Os bydd yr unigolyn a gyhuddir yn cael ei ryddhau ar fechnïaeth, mae'n bosibl y caiff amodau eu hatodi er mwyn helpu i amddiffyn plant a phobl sy'n agored i niwed.

4.46 Hyd yn oed os oes amodau, ni fydd rhain bob amser yn atal unigolyn sy'n chwilio am waith preifat er mwyn cael mynediad at blant, rhag gwneud hynny. Wrth wneud hynny, gallai ddefnyddio ei statws fel Person Cofrestredig i brofi ei fod yn addas.

Dyletswyddau statudol a chanllawiau cysylltiedig

4.47 Mae gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau Addysg Bellach ddyletswydd o dan adran 4.48 o Ddeddf Addysg 2002⁷ i arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddynt ystyried y canllawiau statudol, "Cadw dysgwyr yn ddiogel – rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002".⁸ Golyga hyn fod yn rhaid ystyried y canllawiau a chyfiawnhau unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrthynt.

4.48 Ymhlith materion eraill, mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r trefniadau sefydliadol a'r trefniadau rheoli y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn diogelu plant yn y gwasanaeth addysg. Mae hefyd yn nodi'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau o ran diogelu a rennir gan bob aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliad addysg wrth ymateb i bryderon ynghylch diogelu yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

4.49 Er bod y canllawiau hyn yn gwneud llawer i ddiogelu plant, nid yw'n mynd i'r afael â'r broblem sy'n gysylltiedig ag unigolyn sy'n defnyddio ei statws fel Person Cofrestredig i brofi ei fod yn addas.

5. Ymgynghori

5.50 Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar 07 Medi 2020, a'r dyddiad ymateb oedd 04 Rhagfyr 2020. Fe wnaeth Atodiad i'r ymgynghoriad dynnu sylw wedyn at fersiwn ddiwygiedig o'r Gorchymyn drafft. Er mwyn rhoi amser i ystyried y newidiadau, estynnwyd y cyfnod ymgynghori i 11 Rhagfyr 2020.

5.51 Cafwyd 67 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd dau o'r rhain yn wag ac ni wnaethant ymateb i unrhyw un o'r cwestiynau. Roedd yr ymatebion yn cynnwys wyth gan ysgolion neu golegau, pedwar gan sefydliadau gwaith ieuencid, pedwar gan gyrff llywodraeth leol ac wyth gan sefydliadau undebau llafur.

5.52 Roedd 60 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i roi pwerau gorchymyn atal dros dro interim i'r Cyngor ac roedd pump yn anghytuno. Roedd un ymatebydd dienw yn anghytuno ar y sail y gallai gorchymyn atal dros dro interim niweidio gyrfa person diniwed. Teimlai un arall y dylai'r Cyngor gael llai o bwerau, ac nid mwy. Roedd tri undeb llafur yn anghytuno â'r cynnig.

⁷ 2002 c. 32 .

⁸Ar gael yma: <https://llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel?>

5.53 Ystyriodd Llywodraeth Cymru yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus a nododd fod mwyafrif sylweddol o'r ymatebion a gafwyd o blaid cael pwerau gorchmynion atal dros dro interim gan y Cyngor. Wrth gydnabod barn y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnig, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon rhai undebau llafur yn benodol ynghylch y risgiau o ddefnyddio pwerau gorchmynion atal dros dro interim yn amhriodol a hefyd yr effaith y gallai gorchymyn atal dros dro interim ei chael ar Berson Cofrestredig. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellir lliniaru'r risgiau a'r pryderon hyn a'u lleihau'n sylweddol drwy gysylltiadau gwaith cryf rhwng y Cyngor ac undebau llafur, felly nid ydynt yn ddadleuon argyhoeddiadol yn eu herbyn.

5.54 O ganlyniad i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r Gorchymyn yn y meysydd a ganlyn:

- Parhad aelodaeth paneli adolygu;
- Pryd a chan bwy y dylai Gorchmynion gael eu hadolygu;
- Amseriad a rheoleidd-dra adolygiadau;
- Cynrychiolaeth a'r hawl i gael rhywun gyda chi.

5.55 Mae manylion nifer o awgrymiadau defnyddiol sy'n ymwneud â phrosesau a gweithdrefnau wedi eu gwneud yn ddiennw, pan ofynnwyd am wneud hynny, ac wedi eu rhannu â'r Cyngor fel y gellir eu hystyried mewn perthynas â'i reolau gweithredu.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Cyflwyniad

Datblygwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn er mwyn ystyried goblygiadau rheoleiddiol rhoi'r swyddogaethau ychwanegol o osod, adolygu a dirymu gorchmynion atal dros dro interim i Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor").

6. Opsiynau

Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn adolygu dau opsiwn, sef:

- I. Gwneud dim; h.y. peidio â deddfu i roi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor.
- II. Cyflwyno'r Gorchymyn hwn er mwyn galluogi'r Cyngor i osod, adolygu, estyn a dirymu gorchmynion atal dros dro interim.

7. Dadansoddiad cost a budd

Opsiwn 1 – gwneud dim

7.1 O dan yr opsiwn hwn, nid yw'r Cyngor yn cael pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim. Yn lle hynny, mae'r sefyllfa bresennol yn parhau ac, felly, ni fyddai'r Cyngor yn gallu tynnu enw'r Person Cofrestredig oddi ar y Gofrestr tra'n aros i'r broses ymchwilio a disgyblu gael ei chwblhau.

Nid ymdrinnir â'r "bwlch" o ran diogelu

7.2 Os na chaiff y Cyngor bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, byddai unigolyn yn parhau i fod â statws "Person Cofrestredig" yn ystod y broses ymchwilio a disgyblu. Mae hyn yn wir hyd yn oed os gwnaed honiadau difrifol iawn yn erbyn yr unigolyn hwnnw a'i fod wedi cael ei atal dros dro neu ei ddiswyddo gan ei gyflogwr.

7.3 Nid ymdrinnid â'r risg o ran diogelu lle y gallai unigolyn ddefnyddio ei statws fel "Person Cofrestredig" i brofi ei addasrwydd. Mae hon yn risg sylweddol, ac yn fethiant sylweddol o ran opsiwn 1.

Efallai y bydd y Cyngor yn llai tebygol o gael gwybodaeth gan yr heddlu o dan gynllun Datgelu'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin (CLPD)

7.4 Efallai y bydd yr heddlu yn llai tebygol o atgyfeirio honiadau difrifol sy'n ymwneud â Phersonau Cofrestredig at y Cyngor o dan CLPD, am na fyddai'r Cyngor yn gallu cymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelu drwy dynnu enw'r Person hwnnw oddi ar y Gofrestr o hyd.

7.5 Fodd bynnag, mae adborth gan yr heddlu yng Nghymru yn awgrymu bod y penderfyniad i atgyfeirio honiadau difrifol yn cael ei wneud fesul achos. Felly, ni allwn fod yn sicr y byddai rhoi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor yn arwain at fwy o atgyfeiriadau o dan CLPD; yr heddlu a

fyddai'n gwneud y penderfyniad hwnnw a châi ei wneud fesul achos.

7.6 O ganlyniad, nid yw'r risg hon mor sylweddol â'r risg o ran diogelu a nodwyd uchod.

Cost Opsiwn 1

7.7 Nid oes unrhyw gostau ariannol yn gysylltiedig ag opsiwn 1. Fodd bynnag, efallai y bydd peidio â mynd i'r afael â'r "bwlch" a ddisgrifiwyd uchod yn arwain at ganlyniadau difrifol i blant a'u teuluoedd.

Manteision opsiwn 1

Dim niwed i'r Person Cofrestredig

7.8 Prif fantais opsiwn 1 yw na fyddai'n cael unrhyw effaith andwyol ar Bersonau Cofrestredig; mae hyn yn arbennig o bwysig i'r unigolion hynny sy'n cael eu difeio yn dilyn y broses ymchwilio a disgyblu.

7.9 Gellir cyferbynnu hyn â'r effaith niweidiol y gallai gorchmynion atal dros dro interim ei chael ar gyn-Bersonau Cofrestredig, a drafodir yn opsiwn 2 isod.

Dim costau

7.10 Os dewisir opsiwn 1, ni fydd angen talu costau gweithredu proses y gorchmyn atal dros dro interim na phroses adolygu'r gorchmyn atal dros dro interim.

7.11 Am fod disgwyl i gost y prosesau hyn fod yn gymharol fach, mân fantais yw hon. (Gweler y dadansoddiad o gostau ar gyfer opsiwn 2 am esboniad o'r costau hyn).

Casgliad ar gyfer opsiwn 1

7.12 Am fod "cost" anariannol peidio â rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud gorchmynion atal dros dro interim yn drech o lawer na'r manteision, nid opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffeirir er nad oes cost ariannol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2 Cyflwyno'r Gorchmyn hwn er mwyn galluogi'r Cyngor i osod, adolygu, estyn a dirymu gorchmynion atal dros dro interim

7.13 O dan yr opsiwn hwn, mae'r Cyngor yn cael y pŵer i dynnu enw Personau Cofrestredig oddi ar y Gofrestr dros dro, ar yr amod bod y Cyngor o'r farn bod gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Niwed i'r Person Cofrestredig

7.14 Prif risg opsiwn 2 yw'r effaith bosibl ar Bersonau Cofrestredig y mae honiadau difrifol wedi'u gwneud yn eu herbyn, yn enwedig yr unigolion hynny sy'n cael eu difeio ar ôl i'r broses ymchwilio a disgyblu gael ei chwblhau.

7.15 Nodir yr effeithiau mwyaf difrifol y gallai gorchmynion atal dros dro interim eu

cael ar gyn-Berson Cofrestredig isod.

a. Colli enw da proffesiynol a phersonol.

7.16 Er y gellid ystyried bod atal dros dro yn fesur brys sy'n un amddiffynnol yn hytrach na chosbol, gallai niweidio enw da proffesiynol a phersonol y Person hwnnw hyd yn oed os caiff ei ddifeio yn ddiweddarach o gyflawni unrhyw drosedd. Mae cyfraith achosion ddiweddar yn ategu'r farn hon, gan nodi nad yw atal dros dro yn "weithred niwtral" os mai dechrau proses ddisgyblu "anochel" ydyw.⁹

7.17 Fodd bynnag, os bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu nad oes unrhyw achos i'w ateb neu os dyfernir y Person Cofrestredig yn ddieuog mewn treial, mae yr un mor debygol y bydd unrhyw niwed sydd ar ôl i'w enw da proffesiynol neu bersonol wedi'i achosi gan ymchwiliad yr heddlu, y treial a'r sylw a roddwyd i'r achos yn y cyfryngau â chan y penderfyniad i osod gorchymyn atal dros dro interim.

b. Yr effaith ar gyflogaeth – atal dros dro.

7.18 Effaith tynnu enw Person Cofrestredig oddi ar y Gofrestr dros dro yw y byddai'n rhaid i'w gyflogwr gymryd camau ar unwaith. Yr ymateb mwyaf tebygol fyddai atal y Person hwnnw o'i swydd dros dro; mae'n bosibl y gallai'r Person gael ei ddiswyddo ond ymddengys fod hyn yn llai tebygol ar y cam hwn.

Athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu ysgolion

7.19 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd y corff llywodraethu yn cytuno i'r cyn-Berson Cofrestredig gael dyletswyddau eraill ond parhau i weithio yn yr ysgol mewn swydd nad oedd yn swydd addysgu nac yn swydd cymorth addysgu. Am mai dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y byddai'r Cyngor yn ystyried ei bwerau mewn perthynas â gorchymynion atal dros dro interim, mae'n annhebygol y byddai'r cyflogwr am i'r unigolyn barhau yn ei rôl arferol tra bydd ymchwiliadau yn mynd rhagddynt. (Os rhoddir yr unigolyn ar restr waharddedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – a fyddai'n digwydd fel arfer – ni fydd gan y cyflogwr yr opsiwn i gadw'r unigolyn yn ei rôl arferol.)

7.20 Yn achos cyn-Berson Cofrestredig sy'n athro a gyflogir mewn ysgol yn unol â Chyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, byddai Personau o'r fath yn parhau i gael eu talu tra byddent wedi'u hatal dros dro. Mae hyn oherwydd rheoliadau 16 ac 28 o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006¹⁰ ("Rheoliadau 2006").

7.21 Ym mhob achos arall lle nad yw Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn gymwys (er enghraifft, gweithwyr cymorth dysgu ysgolion) mae p'un a fydd y Person hwnnw yn parhau i gael ei dalu yn ystod y cyfnod pan fydd wedi'i atal dros dro yn cael ei benderfynu gan y telerau ac amodau cyflogaeth a drafodwyd ac y cytunwyd arnynt â'i gyflogwr. Er y byddai penderfyniad i atal

⁹ City of London Corporation v McDonnell (UKEAT/0196/17/JOJ).

¹⁰ OS Rhif 2006/873 (W. 81).

Person Cofrestredig dros dro yn atal y Person hwnnw rhag gallu ymarfer ei broffesiwn ac y gallai bara am sawl mis, ar yr amod bod y Person hwnnw yn cael ei gyflogi o dan gontract cyflogaeth, yn aml bydd yn parhau i gael ei dalu'n llawn tra bydd wedi'i atal o'i swydd.

7.22 Staff cyflenwi a fydd yn teimlo'r effaith fwyaf, am eu bod yn aml yn hunangyflogedig yn hytrach na chael eu cyflogi o dan gontract cyflogaeth ac yn dod o hyd i waith drwy asiantaeth. Felly, os caiff eu henw ei dynnu oddi ar y Gofrestr dros dro, ni fyddant yn cael incwm yn yr un ffordd â'r rhai sy'n cael eu cyflogi o dan gontract cyflogaeth i weithio mewn ysgol. Gallai hyn gael effaith economaidd ar eu teuluoedd yn ogystal â'r Person Cofrestredig ei hun.

7.23 Fodd bynnag, o gofio mai dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y caiff y posibilrwydd o osod gorchymyn atal dros dro interim ei ystyried, mae'n debygol y câi cyn-Berson Cofrestredig sy'n gweithio ar sail "cyflenwi" ei wahardd rhag gwneud ei waith arferol tra'n aros am ganlyniad ymchwiliad a gynhelir gan yr heddlu ar ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Felly, byddai'r Person yn wynebu'r un anawsterau ariannol p'un a gaiff gorchymyn atal dros dro interim ei wneud ai peidio.

Athrawon addysg bellach, gweithwyr ieuencid cymwysedig, ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach a gweithwyr cymorth ieuencid

7.24 Yn ôl a ddeallwn, mae effaith atal un o'r bobl uchod dros dro yn debyg i'r rhai sy'n cael eu cyflogi i weithio mewn ysgolion, ond nad ydynt yn cael eu cyflogi yn unol â Chyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

7.25 Golyga hyn, pan fo'r bobl uchod yn cael eu cyflogi o dan gontract cyflogaeth, mae p'un a fyddant yn parhau i gael eu talu yn ystod y cyfnod tra byddant wedi'u hatal dros dro, yn cael ei benderfynu gan eu telerau ac amodau cyflogaeth. Yn aml, bydd pobl â chontract cyflogaeth yn parhau i gael eu talu'n llawn tra byddant wedi'u hatal dros dro.

7.26 Unwaith eto, staff cyflenwi a'u teuluoedd fydd yn teimlo'r effaith fwyaf, am na fydd ganddynt gontract cyflogaeth fel arfer, ac felly, ni fyddant yn cael incwm tra byddant wedi'u hatal dros dro. Fel gyda staff cyflenwi sy'n gweithio mewn ysgolion, mae'n debygol y byddai pobl o'r fath yn wynebu'r un anawsterau ariannol p'un a gaiff gorchymyn atal dros dro interim ei wneud ai peidio.

c. Yr effaith ar gyflogaeth – diswyddo

Athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu ysgolion

7.27 Yn yr achosion mwyaf difrifol, gellir ystyried diswyddo aelod o staff. Fodd bynnag, mae Rheoliadau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gynnull pwyllgor disgyblu staff er mwyn penderfynu a ddylid diswyddo aelod o staff yr ysgol. Mewn achosion o'r fath, byddai angen i'r corff llywodraethu gael ei fodloni bod y dystiolaeth yn cyfiawnhau cam o'r fath.

7.28 Mae gan yr aelod o staff yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'w ddiswyddo i bwyllgor apelïadau staff, ac, os bydd yn anfodlon o hyd, gall wneud cais am ddiswyddo annheg yn erbyn y corff llywodraethu mewn Tribiwnlys Cyflogaeth. Byddai angen i'r dystiolaeth yn erbyn y cyn-Berson Cofrestredig fod yn gryf iawn er mwyn i'r posibilrwydd o ddiswyddo aelod o staff gael ei ystyried, am na fyddai cyflogwyr am ddiswyddo aelodau o staff ac wedyn gorfod ymladd cais am ddiswyddo annheg lle mae person yn cael ei ddifeio'n ddiweddarach - ac, o bosibl, orfod talu swm mawr o iawndal am golli enillion ac enw da ac ati.

Athrawon addysg bellach, gweithwyr ieuencid cymwysedig, ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach a gweithwyr cymorth ieuencid

7.29 Yn ôl a ddeallwn, bydd y rhan fwyaf o'r bobl uchod yn cael eu cyflogi gan sefydliadau sydd â'u gweithdrefnau disgyblu ac apelio mewnol eu hunain. Yn yr achosion hyn, bydd angen i'r gweithdrefnau hyn gael eu dilyn cyn i gyn-Berson Cofrestredig gael ei ddiswyddo.

7.30 Gall pob un o'r categorïau uchod o Bersonau Cofrestredig, p'un a oes gan eu cyn-gyflogwr broses disgyblu ac apelio ai peidio, wneud cais am ddiswyddo annheg yn erbyn eu cyn-gyflogwr mewn Tribiwnlys Cyflogaeth.

7.31 Fel gyda staff ysgol, byddai angen i'r dystiolaeth o blaid diswyddo aelod o staff fod yn gryf iawn, am na fyddai cyflogwyr am ddiswyddo aelodau o staff ac wedyn gorfod talu swm mawr o iawndal pe bai'r Person Cofrestredig yn cael ei ddifeio'n ddiweddarach.

d. Yr effaith ar iechyd a lles

7.32 Ni ellir gorbwysleisio'r effaith ar iechyd a lles cyn-Berson Cofrestredig y mae honiadau difrifol yn cael eu gwneud yn ei erbyn – ond sy'n cael ei ddifeio'n ddiweddarach. Mae hefyd yn bosibl y gallai iechyd meddwl a lles teuluoedd Personau Cofrestredig ddiodef.

7.33 Fodd bynnag, nid yw gorchymyn atal dros dro interim ond yn un o sawl mesur posibl y gellir eu cymryd – megis cael eich gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu'ch cyhuddo o gyflawni troseddau difrifol – a'r honiadau ar gam yn hytrach na gosod gorchymyn atal dros dro interim yw prif achos y gofid.

Costau opsiwn 2

Cost proses y gorchymyn atal dros dro interim a phroses adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim

7.34 Credir bod cost proses y gorchymyn atal dros dro interim a phroses adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim yn gymharol fach.

7.35 Ar hyn o bryd, y ffi ar gyfer cofrestru â'r Cyngor fel y nodir yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017 yw £46 y flwyddyn i bawb sydd wedi'u cofrestru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymhorthdal ar gyfer y ffi hon fel bod y swm a delir gan gofrestreion yn £45 y flwyddyn i athrawon

ysgol, athrawon AB, gweithwyr ieuencid cymwysedig ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith; a £15 y flwyddyn i weithwyr cymorth dysgu ysgolion, gweithwyr cymorth dysgu AB a gweithwyr cymorth ieuencid. Mae'r Cyngor wedi nodi na fydd angen iddo geisio cynnydd yn y ffi gan ei gofrestreion er mwyn ariannu'r gwaith o osod, adolygu, estyn a dirymu gorchmynion atal dros dro interim.

Dim costau trosiannol

7.36 Nid oes unrhyw gostau trosiannol yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. Y rheswm dros hyn yw bod aelodau'r paneli annibynnol sy'n gosod gorchmynion atal dros dro interim, ac aelodau'r paneli adolygu annibynnol, yn dod o'r "gronfa" bresennol o unigolion sydd eisoes wedi cael eu dewis fel aelodau posibl o bwyllgorau ymchwilio a disgyblu'r Cyngor.

7.37 Câi'r gwaith sy'n gysylltiedig â llunio rheolau gweithdrefnol y Cyngor ar osod, adolygu a dirymu gorchmynion atal dros dro interim ei wneud gan dîm presennol y Cyngor. Yr un yw'r sefyllfa ar gyfer unrhyw ganllawiau y bydd y Cyngor, o bosibl, am eu cyhoeddi ar broses y gorchymyn atal dros dro interim. Ni fyddai angen unrhyw staff ychwanegol.

Cost gosod gorchymyn atal dros dro interim

7.38 Cafodd y Cyngor 15 o atgyfeiriadau yn y 3 blynedd diwethaf a oedd yn gwneud honiadau difrifol iawn yn erbyn Personau Cofrestredig, ac a fyddai wedi peri risgiau sylweddol o ran diogelu a fyddai wedi peri i'r Cyngor ystyried gosod gorchmynion atal dros dro interim. O blith yr atgyfeiriadau hyn, cafwyd 10 gan yr heddlu a 5 gan gyflogwyr. Mae hyn yn cyfateb i 5 atgyfeiriad perthnasol y flwyddyn, ar gyfartaledd. Hyd yn oed os bydd nifer yr atgyfeiriadau at y Cyngor yn dyblu o ganlyniad i gael pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, byddem yn edrych ar 10 atgyfeiriad perthnasol y flwyddyn, ar gyfartaledd.

7.39 Mae cost i'r cyflogwr (ysgol neu goleg) os bydd Person Cofrestredig yn parhau i gael ei dalu'n llawn ac yntau wedi ei atal dros dro a bydd rhaid i'r cyflogwr hefyd recriwtio staff cyflenwi gydol y cyfnod y bydd wedi'i atal dros dro. Fodd bynnag, byddai hyn yn wir pa un a wneir gorchymyn atal dros dro interim neu beidio.

Gorchmynion atal dros dro interim nas ymleddir

7.40 Y prif reswm pam nad yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen cynyddu ffioedd i gefnogi ei bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim yw ei fod yn disgwyl i 80-90% o achosion sy'n ymwneud â gorchmynion atal dros dro interim fynd yn eu blaen heb fawr ddim ymgysylltiad gan y Person Cofrestredig.

7.41 O'r 10-20% sy'n weddill, mae'r Cyngor yn rhagweld, er ei bod yn bosibl y bydd y Personau Cofrestredig hyn yn ymateb i broses y gorchymyn atal dros dro interim neu'n cymryd rhan ynddi, y bydd llai na 5% o'r achosion yn arwain at wrandawriad a ymleddir.

7.42 Felly, byddem yn disgwyl i o leiaf 95% o'r unigolion hynny sy'n cael eu hysbysu bod y Cyngor yn ystyried gosod gorchymyn atal dros dro interim arnynt beidio â'i ymladd mewn gwrandawriad – am eu bod wedi cyfaddef bod yr honiadau yn wir yn ôl pob tebyg. Golyga hyn na fyddai angen cynnal gwrandawriad llawn gerbron panel annibynnol yn y mwyafrif helaeth o achosion, er y byddai angen cynnull y panel o hyd a chynnal gwrandawriad byr er mwyn cadarnhau'r penderfyniad i osod y gorchymyn atal dros dro interim.

7.43 Mae cyfraddau atgyfeirio presennol yn awgrymu y byddai rhwng 4 neu, o bosibl, 5 o orchmynion atal dros dro interim nas ymleddir y flwyddyn; o ystyried y nifer bach o atgyfeiriadau yn y gorffennol, mae'n bosibl na fydd unrhyw orchmynion atal dros dro interim a ymleddir mewn blwyddyn benodol os bydd cyfradd ddisgwyliedig gorchmynion atal dros dro interim nas ymleddir yn cyfateb i o leiaf 95%. Hyd yn oed os bydd nifer yr atgyfeiriadau yn dyblu, ni fydd mwy na 9 neu, o bosibl, 10 atgyfeiriad nas ymleddir y flwyddyn ac, felly, ychydig iawn o waith ychwanegol a achosid gan y broses gwneud gorchmynion atal dros dro interim nas ymleddir.

7.44 Er ei bod yn anodd cyfrif union gost gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim nas ymleddir, mae'r Cyngor yn fodlon y byddai'n cyfateb i ychydig o amser staff yn unig, gyda'r gwaith yn cael ei wneud gan dîm presennol y Cyngor. Ni fyddai angen unrhyw staff ychwanegol.

Gorchmynion atal dros dro interim a ymleddir

7.45 Os bydd Person Cofrestredig yn ymladd y gorchymyn atal dros dro interim a'i fod yn gofyn am wrandawriad, yn wahanol i wrandawriadau disgyblu arferol sy'n costio £20,000 yr un, ar gyfartaledd, mae'r Cyngor wedi nodi ei bod yn debygol y byddai gwrandawriadau gorchymyn atal dros dro interim a ymleddir ond yn costio tua £2,500. Y rheswm dros hyn yw na fydd y gwrandawriadau hyn yn profi tystiolaeth tystion, a bod y gost ariannol fwyaf yn aml yn gysylltiedig â galw ar dystion i ddod i wrandawriadau disgyblu "llawn", sy'n ychwanegu at hyd y gwrandawriad.

7.46 Am fod 15 o atgyfeiriadau wedi'u gwneud i'r Cyngor mewn 3 blynedd, sy'n cyfateb i 5 y flwyddyn ar gyfartaledd, os bydd llai na 5% o achosion yn cael eu hymladd yn llawn, byddai hyn yn golygu, ar y mwyaf, 1 gwrandawriad a ymleddir y flwyddyn os bydd nifer yr atgyfeiriadau yn aros yr un peth; mewn rhai blynyddoedd efallai na fydd unrhyw wrandawriadau nas ymleddir o gwbl.

7.47 Byddai angen i nifer yr atgyfeiriadau gynyddu 8 gwaith i 40 y flwyddyn er mwyn cael 2 achos a ymleddir y flwyddyn. Hyd yn oed os bydd hyn yn digwydd, disgwylir i gost ddisgwyliedig gwrandawriadau gorchymyn atal dros dro interim a ymleddir gyfateb i ddim ond £5,000 y flwyddyn.

7.48 Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod llai na un achos y flwyddyn yn cael ei herio felly bydd nifer yr esiamplau sy'n debygol o arwain at apelio i'r Uchel Lys hyd yn oed yn llai. Mae hyn yn arbennig o wir gan ystyried bod yr Uchel Lys yn annhebygol o ddirymu gorchymyn atal dros dro interim tra bo ymchwiliad yn cael ei gynnal. Yng ngoleuni nifer tebygol yr achosion, mae'r Cyngor wedi cynghori na fydd angen ceisio cynnydd yn y ffi sy'n daladwy gan y rhai sydd

wedi cofrestru er mwyn ariannu'r elfen hon o'r broses.

Adolygu cais gan gyn-Berson Cofrestredig

7.49 Ar ôl i orchymyn atal dros dro interim gael ei wneud, caiff y cyn-Berson Cofrestredig ofyn i'r Cyngor ei adolygu. Gellir gwneud y cais cyntaf o fewn 6 mis i'r dyddiad y gosodwyd y gorchymyn atal dros dro interim, neu i ddyddiad penderfyniad yr Uchel Lys os oes apêl, a bob 6 mis ar ôl hynny. Amcangyfrif gorau'r Cyngor yw y bydd rhwng 1 a 2 wrandawriad adolygu y flwyddyn, a fydd yn costio'r un peth â gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim. Mae'n hyn yn golygu na fyddai cost gwrandawriadau adolygu yn fwy na £5000 y flwyddyn.

Y Cyngor yn adolygu'r gorchymynion atal dros dro interim yn rheolaidd

7.50 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu gorchymyn atal dros dro interim yn rheolaidd, fel y bo'n briodol. Mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol at hawl cyn-Berson Cofrestredig i ofyn am wrandawriad adolygu.

7.51 Ni fydd yr adolygiadau hyn gan y Cyngor ar ffurf gwrandawriad. Ni ofynnir i'r cyn-Berson Cofrestredig gyflwyno sylwadau.

7.52 Bydd y panel annibynnol yn pennu'r amserlen ar gyfer yr adolygiadau hyn ar yr un pryd ag y gosodir y gorchymyn atal dros dro interim. Fel arfer, bydd yr amserlen hon yn gofyn am gynnal adolygiad bob 6 mis, er y gall adolygiad gael ei gynnal ynghynt os bydd hynny'n briodol (er enghraifft, os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg bod yr honiadau a wnaed yn erbyn y cyn-Berson Cofrestredig yn anwir).

7.53 Ni chaiff gorchymynion atal dros dro interim gael effaith am fwy na 18 mis heb gais i'r Uchel Lys am estyniad. Ar hyn o bryd nifer gyfartalog yr atgyfeiriadau perthnasol yw 5 y flwyddyn. Hyd yn oed gan dybio y bydd pob gorchymyn atal dros dro interim yn para am y cyfnod hwyaf posibl, sef 18 mis, os bydd nifer yr atgyfeiriadau yn aros yr un peth ni fyddai gan y Cyngor fwy na 7 neu 8 gorchymyn atal dros dro interim i'w hadolygu'n rheolaidd ar unrhyw adeg benodol. Os bydd nifer yr atgyfeiriadau yn dyblu ni fydd gan y Cyngor fwy na 15 o orchymynion atal dros dro interim i'w hadolygu'n rheolaidd.

7.54 Nid oes angen asesiad ffurfiol o'r effaith ar gyfiawnder ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu Adran yr Arglwydd Brif Ustus o'r darpariaethau drafft a ganlyn:

- Hawl i gyn-berson cofrestredig apelio i'r Uchel Lys yn erbyn gosod gorchymyn atal dros dro interim; a
- Gofyniad i'r Cyngor wneud cais i'r Uchel Lys os yw'n dymuno estyn y gorchymyn atal dros dro interim y tu hwnt i 18 mis.

7.55 Ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif bod tua 1-2 gorchymyn atal dros dro interim yn cael ei herio mewn gwrandawriad gan y Cyngor. Mae'n anos asesu faint o geisiadau am estyniad fyddai eu hangen gan y bydd hyn yn bennaf yn digwydd pan fo oedi yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, gan mai dim ond mewn achosion difrifol iawn y disgwylir i orchymynion atal dros dro

interim gael eu gosod, disgwyliwn y bydd niferoedd cyffredinol y gorchmynion atal dros dro interim yn isel ac rydym felly yn asesu y bydd yr effaith ar y llys yn fach.

7.56 Gan y bydd y Cyngor yn adolygu gorchymyn atal dros dro interim ddwywaith y flwyddyn fel arfer, ni fyddai mwy na 14-16 o gyfarfodydd adolygu y flwyddyn pe bai nifer yr atgyfeiriadau yn aros yr un peth. Os bydd nifer yr atgyfeiriadau yn dyblu, ni fyddai mwy na 30 o gyfarfodydd y flwyddyn.

7.57 Fel gyda chost gorchmynion atal dros dro interim nas ymleddir, mae'n anodd cyfrif cost ychwanegol gwaith adolygu gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn fodlon y byddai'n cyfateb i ychydig o amser staff yn unig. Mae'r Cyngor yn rhagweld y câi'r gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig ag adolygu gorchmynion atal dros dro interim yn rheolaidd ei wneud gan dîm presennol y Cyngor ac, felly, na fyddai unrhyw gostau ychwanegol.

Costau – casgliad

7.58 Gan fod yr holl gostau ariannol sy'n gysylltiedig â gosod ac adolygu gorchmynion atal dros dro interim yn gymharol fach, ac nad yw'r Cyngor yn disgwyl cynyddu'r ffi gofrestru i Berson Cofrestredig o ganlyniad, ystyrir bod cost proses y gorchymyn atal dros dro interim a phroses adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim yn fân ystyriaeth yn y dadansoddiad hwn o gost a budd.

“Y gost” i'r cyn-Berson Cofrestredig

7.59 Fel yr esboniwyd ym mharagraffau “Opsiw 2” uchod, effeithir ar gyn-Bersonau Cofrestredig pryd bynnag y gosodir gorchymyn atal dros dro interim. Gall eu teuluoedd ddioddef hefyd. Gallai gorchymyn atal dros dro interim gael yr effaith fwyaf niweidiol ar gyn-Berson Cofrestredig sy'n cael ei ddifeio'n ddiweddarach ar ôl i'r broses ymchwilio a disgyblu gael ei chwblhau.

7.60 Er y bydd effaith negyddol ar y cyn-Bersonau Cofrestredig hynny – a'u teuluoedd hefyd o bosibl – nid ydym o'r farn y byddai'n ddigonol i fod yn drech na'r fantais o fynd i'r afael â'r “bwllch” o ran diogelu a ddisgrifir yn yr adran “Manteision opsiwn 2” isod.

7.61 Pe byddai'r cyn-Berson Gofrestredig yn penderfynu apelio gorchymyn atal dros dro interim i'r Uchel Lys, byddai rhaid iddo dalu'r costau. Fodd bynnag, byddai modd iddo gyflwyno sylwadau i'r Uchel Lys ar gyfer gorchymyn i'r costau gael eu gwneud yn erbyn y Cyngor os yw'n llwyddiannus.

Manteision opsiwn 2

Mynd i'r afael â'r “bwllch” o ran diogelu

7.62 Os caiff y Cyngor bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, ni fydd unigolyn y mae honiadau difrifol iawn yn cael eu gwneud yn ei erbyn yn parhau i fod â statws “Person Cofrestredig” tra bydd y broses ymchwilio a disgyblu yn cael ei chynnal.

7.63 Fel y nodwyd uchod, disgwylir i 5 atgyfeiriad y flwyddyn gael eu gwneud at y Cyngor, ar gyfartaledd. O dan yr opsiwn hwn, ymdrinnid â'r risg o ran diogelu lle y gallai'r unigolion hynny ddefnyddio eu statws fel "Person Cofrestredig" i brofi eu bod yn addas. Mae hyn yn un o fanteision sylweddol opsiwn 2.

Mae'n bosibl y byddai'r Cyngor yn fwy tebygol o gael gwybodaeth gan yr heddlu o dan gynllun CLPD

7.64 Fel yr esboniwyd ym mharagraffau opsiwn 1 sy'n ymdrin â "Risgiau" uchod, ni ellir bod yn sicr y ceid mwy o atgyfeiriadau gan yr heddlu pe bai'r Cyngor yn cael pwerau mewn perthynas â gorchymyn atal dros dro interim.

7.65 Felly, nid yw'r fantais hon yr un mor sylweddol â'r fantais o ran diogelu a nodwyd uchod.

Casgliad ar gyfer opsiwn 2

7.66 Mae cost ariannol proses y gorchymyn atal dros dro interim a phroses adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim yn gymharol fach, ac ni ddisgwylir i ffioedd cofrestru'r Cyngor gynyddu.

7.67 Er y cydnabyddir "cost" effaith andwyol gorchymyn atal dros dro interim ar Berson Cofrestredig, yn ein barn ni nid yw'n drech na'r fantais sylweddol o fynd i'r afael â'r "bwlch" o ran diogelu a ddisgrifir yn y paragraffau "Manteision opsiwn 2" uchod.

7.68 Am mai dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y bydd y Cyngor yn defnyddio ei bwerau mewn perthynas â gorchymynion atal dros dro interim – a phan fydd o'r farn bod hynny er budd y cyhoedd – opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir.

8. Ymgynghori

8.1 O ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi ei newid er mwyn cynnwys effaith y mesurau diogelu ychwanegol a ganlyn i broses gorchymyn atal dros dro interim:

- a. Hawl i apelio ar gyfer cyn-Berson Cofrestredig i'r Uchel Lys; a
- b. Gofyniad i'r Cyngor wneud cais i'r Uchel Lus am unrhyw estyniad i orchymyn atal dros dro interim y tu hwnt i 18 mis.

9. Asesu'r Gystadleuaeth

| <i>Prawf hidlo'r gystadleuaeth</i> | |
|---|-------------------------|
| Cwestiwn | Ateb ✓ neu x |
| C1: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%? | Nac oes |
| C2: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy nag 20%? | Nac oes |
| C3: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 50%? | Nac oes |
| C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio'n sylweddol ar rai cwmnïau yn fwy nag eraill? | Na fyddai |
| C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Nac ydi |
| C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr newydd eu talu? | Na fyddai |
| C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr newydd eu talu? | Na fyddai |
| C8: A yw'r sector wedi'i nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Nac ydy |
| C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchwyr? | Na fyddai |

9.1 Dengys y prawf hidlo nad yw'n debygol y bydd y Gorchymyn hwn yn cael unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth. Felly, yn ein barn ni, nid oes angen cynnal asesiad manwl o'r gystadleuaeth ar gyfer y Gorchymyn hwn am na fydd yn effeithio'n sylweddol ar y sector busnes.

10. Adolygiad ar ôl gweithredu

10.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Cyngor i fonitro'r defnydd o bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim ar ôl dyddiad dod i rym y Gorchymyn hwn.

Eitem 3.4

SL(5)769 – Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith ddomestig sy'n llywodraethu'r rhaglen datblygu gwledig er mwyn rhoi fframwaith domestig ar waith i gyllido cynlluniau datblygu gwledig newydd yng Nghymru ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE a sicrhau bod y fframwaith yn effeithlon ac yn effeithiol.

At hynny, mae'r Offeryn yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol er mwyn ymdrin â gwallau a sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ymgorffori cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'r nod ar gyfer cymorth ar gyfer datblygu gwledig.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 9 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r testun drafft ar frig y Rheoliadau hyn yn esbonio y'u gosodir gerbron y Senedd "o dan adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018".

Mae paragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn darparu bod offerynnau sy'n dod o dan baragraff 1(2) o Atodlen 8 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae paragraff 1(9) o Atodlen 7 yn gymwys i'r holl offerynnau eraill nad ydynt o fewn cwrpas paragraff 1(8) ac yn darparu iddynt fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.



Felly, dylai'r cyfeiriad at baragraff 1(9) o Atodlen 7 gyfeirio at baragraff 1(8) o Atodlen 7.

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys hepgor diffiniadau a darpariaethau eraill sydd wedi eu cynnwys yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i'r graddau eu bod yn ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig. Er bod rhai darpariaethau wedi eu hepgor, mae rhai cyfeiriadau at y darpariaethau a hepgorwyd yn parhau i fod yng nghyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir.

Mae'r darpariaethau perthnasol fel a ganlyn:

Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013, wedi ei ddiwygio gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn:

- Mae rheoliad 2(17) o'r Rheoliadau hyn yn hepgor Erthygl 108. Mae cyfeiriad at Erthygl 108 a hepgorwyd yn parhau i fod yn Erthygl 105.

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014, wedi ei ddiwygio gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn:

- Mae rheoliad 4(15) o'r Rheoliadau hyn yn hepgor Erthygl 40a. Mae cyfeiriad at Erthygl 40a a hepgorwyd yn parhau i fod yn Erthyglau 15(1b), 15(2b), 15(3) a 34(2).
- Mae rheoliad 4(29) o'r Rheoliadau hyn yn hepgor Erthygl 70a. Mae cyfeiriad at Erthygl 40a a hepgorwyd yn parhau i fod yn Erthyglau 34(2) a 70b.

Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013, wedi ei ddiwygio gan reoliad 6 o'r Rheoliadau hyn:

- Mae'r diffiniad o "Fund-specific rules", a hepgorwyd gan reoliad 6(3)(a), yn parhau i fod yn Erthygl 70(1).
- Mae'r diffiniad o "public expenditure", a hepgorwyd gan reoliad 6(3)(e), yn parhau i fod yn Erthyglau 35(2) a 132(1). Mae croesyfeiriad at y diffiniad hefyd yn parhau i fod yn Erthygl 2(1) o Reoliad (EU) Rhif 1305/2013.
- Mae'r diffiniad o "public law body", a hepgorwyd gan reoliad 6(3)(e), yn parhau i fod yn Erthyglau 63(1)(a), 63(2), 63(3) a 64(1).
- Defnyddir y diffiniad o "SME", a hepgorwyd gan reoliad 6(3)(h), yn nhestun newydd Erthygl 71(2) y darperir ar ei gyfer gan reoliad 6(28)(b).
- Mae'r diffiniad o "accounting year", a hepgorwyd gan reoliad 6(3)(h), yn parhau i fod yn Erthygl 127(1).
- Mae'r diffiniad o "Financial Regulation", a hepgorwyd gan reoliad 6(3)(i), yn parhau i fod yn Erthyglau 2(11), 37(3), 38(4), 126(b), 127(1) a 127(5).
- Mae'r diffiniad o "direct payment support", a hepgorwyd gan reoliad 6(3)(i), yn parhau i fod yn Erthyglau 4(2) a 65(11).



- Mae rheoliad 6(19) o'r Rheoliadau hyn yn hepgor Erthyglau 47 a 50 (ymhlith Erthyglau eraill). Mae cyfeiriadau at Erthyglau 47 a 50 a hepgorwyd yn parhau i fod yn Erthygl 125(2)(a) a 125(2)(b) yn y drefn honno.

Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013, wedi ei ddiwygio gan reoliad 7 o'r Rheoliadau hyn:

- Mae'r diffiniad o "SME" wedi ei hepgor o Erthygl 2 ac wedi ei ddisodli mewn nifer o leoedd drwy gydol Rheoliad (EU) Rhif 1305/2013, ond mae cyfeiriadau yn parhau i fod yn Erthyglau 26(1) a 27(2).
- Mae rheoliad 7(8) o'r Rheoliadau hyn yn hepgor Erthygl 8. Mae cyfeiriad at Erthygl 8 a hepgorwyd yn parhau i fod yn Erthygl 82.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir i roi cyfeiriadau at bunnoedd yn lle ewros.

Mae un diwygiad o'r fath, a gynhwysir yn rheoliad 5(8)(c), yn ceisio rhoi "£ 40 000" yn lle "EUR 40 000", ym mhob lle y mae'n digwydd, yn Atodiad XI i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014. Ar Daflen B o Atodiad XI, cyfeirir at "40000 EUR", na fyddai'n cael ei ddiwygio yn rhinwedd rheoliad 5(8)(c).

4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r Rheoliadau hyn yn hepgor testun o enw llawn dau offeryn – mae "Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant," ar goll o'r cyfeiriad at Reoliad (UE) Rhif 1303/2013 yn rheoliad 6(1) ac mae "(Wales)" ar goll o'r cyfeiriad at "the Well-being of Future Generations Act 2015" yn y testun newydd yn rheoliad 7(4).

5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliadau 6(11)(e)(i)(bb) a 6(20)(e) yn diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013, ond nid yw'r diwygiadau hynny'n effeithiol gan fod darpariaethau perthnasol Rheoliad (UE) Rhif. 1303/2013 wedi eu diwygio gan Reoliadau Cymorth Gwladol (Dirymiadau a Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2020.

6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 6(21) yn ceisio diwygio pennawd Pennod II o Deitl VI Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013. Nid oes Pennod II o Deitl VI. Tybir y dylai'r cyfeiriad fod at "Chapter II (Special rules on support from the ESI Funds to PPPs) of Title VII (Financial Support from the ESI Funds)".



7. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r testun newydd yn rheoliad 7(4) yn cyfeirio at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel y nodir yn Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf honno'n ymwneud â Newid Hinsawdd. Nodir rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Rhan 1 o'r Ddeddf honno.

8. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli geiriad drwy gyfeirio at "y ddau le y mae'n digwydd" mewn nifer o leoedd. Gyda dau o'r cyfeiriadau hynny, mae mwy na dau gyfeiriad perthnasol yn ymddangos yn y darpariaethau perthnasol. Felly, nid yw'n eglur lle y dylid gwneud y newidiadau.

Mae Rheoliad 7(24)(b) yn ceisio rhoi geiriau eraill yn lle "their rural development programmes" yn "y ddau le y mae'n digwydd" ym mharagraff 3 o Erthygl 29. Mae'r geiriau hynny'n ymddangos ddwywaith yn yr is-baragraff cyntaf, unwaith yn yr ail is-baragraff ac unwaith yn y pedwerydd is-baragraff.

At hynny, mae rheoliad 8(7) yn ceisio newid "ex ante" yn "y ddau le y mae'n digwydd" yn Erthygl 8 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 480/2014. Mae'r geiriau hynny'n ymddangos ddwywaith ym mharagraff (b) ac unwaith ym mharagraff (c).

9. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 7(29)(b) yn diwygio paragraff 1 o Erthygl 34. Er bod y diwygiadau a nodir ym mharagraffau (i) a (ii) yn ymwneud â pharagraff 1 o Erthygl 34, mae paragraff (iii) yn ymwneud â pharagraff 3 o Erthygl 34. Dylai'r rhifiad ar gyfer rheoliad 7(29)(b)(iii) fod yn rheoliad 7(29)(c).

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

10. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r testun newydd yn rheoliad 7(7) yn defnyddio "shall" pan ddefnyddir "must" ar achlysur cynharach a diweddarach yn yr Erthygl 6 newydd.

11. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn dweud bod swyddogion o'r farn bod y Rheoliadau hyn yn:



"ddiwygiadau technegol arferol i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer datblygu gwledig sydd, er enghraifft, yn dileu gofynion ar gyfer cymeradwyo a diwygio rhaglenni datblygu gwledig gan y Comisiwn Ewropeaidd am na fydd hyn yn weithredol ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE. Mae hyn yn cysoni proses gweinyddu a llywodraethu cymorth ar gyfer datblygu gwledig â gweithdrefnau safonol Llywodraeth Cymru a phrosesau craffu'r Senedd. Ni chaiff yr Offeryn unrhyw effaith sylweddol ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector elusennol na'r sector gwirfoddol."

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn esbonio bod y Rheoliadau hyn yn "rhoi fframwaith domestig ar waith i gyllido cynlluniau datblygu gwledig newydd yng Nghymru ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE", yn symleiddio'r "trefniadau ar gyfer llywodraethu a gweinyddu cymorth ar gyfer datblygu gwledig" ac yn ymgorffori "cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'r genhadaeth, yr amcanion a'r blaenoriaethau presennol ar gyfer cymorth ar gyfer datblygu gwledig fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth".

Mae'r Cod Ymarfer ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys yr eithriad a ganlyn i'r drefn o gynnal asesiad effaith rheoleiddiol:

"Lle bo angen gwneud diwygiadau technegol neu ddiwygiadau ffeithiol er mwyn diweddarau rheoliadau ac ati nad ydynt yn effeithio'n fawr ar bolisi".

Er ei bod yn ymddangos bod yr eithriad hwn yn gymwys i rai o'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, ymddengys fod darpariaethau eraill, yn enwedig o gofio'r esboniad y cyfeirir ato uchod, yn golygu mwy na diwygiadau arferol neu ffeithiol. Nid yw'n glir bod unrhyw un o'r eithriadau eraill o dan y Cod yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa eithriad o dan y Cod sy'n gymwys i'r penderfyniad i beidio â llunio asesiad effaith rheoleiddiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Mawrth 2021



Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i'w cymeradwyo gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau Cymorth Amaethyddol
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 46 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21) a pharagraffau 2(1), 4(1) a 6(1) o Atodlen 5 iddi, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gweithredu a diffygion sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ac er mwyn gwneud darpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu rhaglenni datblygu gwledig ar gyfer sicrhau cymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru.

Mae rheoliadau 2, 3, 4 a 5 yn addasu Rheoliadau (EU) Rhif 1306/2013, 640/2014, 809/2014, a 908/2014 i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer fframwaith i ganiatáu creu cynllun cymorth datblygu gwledig domestig newydd.

Mae rheoliadau 6 i 12 yn addasu Rheoliadau (EU) Rhif 1303/2013, 1305/2013, 480/2014, 807/2014, 808/2014, 821/2014, a 964/2014 i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn i gymorth datblygu gwledig weithredu'n effeithiol a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gweithredu. Mae'r Rheoliadau UE hynny'n cynnwys rhai o'r rheolau sy'n llywodraethu

cymorth datblygu gwledig. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r corff cyfreithiol hwnnw i'r graddau y mae'n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer rhaglenni datblygu gwledig yn unig.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig. Mae'r newidiadau'n sicrhau bod y ddeddfwriaeth ddomestig yn cyd-fynd â'r newidiadau a wneir gan Rannau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn yng nghyfraith yr UE a ddargedwir ac sy'n llywodraethu cymorth ar gyfer datblygu gwledig.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau (UE) Rhif 1306/2013, 640/2014 ac 809/2014, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r cynlluniau taliadau uniongyrchol yn unig. Mae'r diwygiadau'n fân ac yn dechnegol eu natur ac yn mynd i'r afael â gwallau er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gywir ac yn gweithredu'n effeithiol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i'w cymeradwyo gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cymorth Amaethyddol
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2021

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 46 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020(1), a pharagraffau 2(1), 4(1) a 6(1) o Atodlen 5 iddi, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(2).

Yn unol ag adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

(1) 2020 p. 21.

(2) 2018 p. 16. Gweler adran 20(1) am y diffiniad o "devolved authority".

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cychwyn a chymhwys

- 1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.
- (2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud.
- (3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

RHAN 2

Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Lorweddol

Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013

2.—(1) Mae Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin⁽¹⁾, wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

- (2) Yn lle pennawd Erthygl 8 rhodder "Powers".
- (3) Yn Erthygl 12—
 - (a) ym mharagraff 1—
 - (i) yn lle "must" rhodder "may";
 - (ii) yn lle "shall", yn yr ail frawddeg, rhodder "may";
 - (b) ym mharagraff 2—
 - (i) ar ôl pwynt (a) mewnosoder—

14.—(1) Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(2) wedi eu diwygio, i'r graddau y maent yn ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

- (2) Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 15 mewnosoder—

“Trosi, aredig neu ailhadu tir a ddynodwyd yn laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif

16.—(1) Ni chaiff buddiolwr drosi, aredig neu ailhadu darnau penodol o laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif oni bai—

- (a) bod hysbysiad y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn ei gwneud yn ofynnol i'r buddiolwr aredig neu drosi darnau penodol o'r safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig neu eu trosi neu'n

(1) O.S. 2014/3222 (Cy. 327), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/688 (Cy. 132).

(2) O.S. 2014/3223 (Cy. 328), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/217 (Cy. 86), O.S. 2016/1154, O.S. 2017/565 (Cy. 134), O.S. 2019/688 (Cy. 132), O.S. 2020/104 (Cy. 17) ac O.S. 2020/1556 (Cy. 328).

caniatáu i'r buddiolwr wneud hynny;
neu

- (b) bod cydsyniad i wneud hynny wedi ei roi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr “glaswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif” (“*environmentally sensitive permanent grassland*”) yw—

- (a) glaswelltir a leolir mewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; a
- (b) glaswelltir y mae angen cydsyniad ysgrifenedig i aredig mewn perthynas ag ef yn unol ag adran 28E(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(1) ond nad yw'r cydsyniad hwnnw wedi ei sicrhau;

mae i “safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig” yr ystyr a roddir i “*site of special scientific interest*” yn adran 52(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.”

RHAN 5

Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Lorweddol

Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013

15.—(1) Mae Rheoliad (EU) Rif 1306/2013, wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 63(5)(b), ar ôl “as well as” mewnosoder “in respect of unduly allocated payment entitlements and”.

(3) Ar ôl Erthygl 76(2)(a) mewnosoder—

“(aa) the basic features, technical rules and quality requirements of the system for the identification and registration of payment entitlements provided for in Article 71;”.

(4) Yn Erthygl 78(b), ar ôl “Article 72,” mewnosoder “and applications for payment entitlements,”.

Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014

16.—(1) Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 wedi ei ddiwygio, i'r graddau y

(1) 1981 p. 69.

mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Hefgorer is-baragraff olaf Erthygl 9(1).

(3) Yn Erthygl 12(b), yn lle “third of” rhodder “second subparagraph of”.

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU)
Rhif 809/2014**

17.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 wedi ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, fel a ganlyn.

(2) Yn ail is-baragraff Erthygl 36(2), hepgorer y geiriau o “in accordance” hyd at y diwedd.

Enw

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

**Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2021**

Memorandwm Esboniadol

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth o fewn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

Lesley Griffiths AS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

23 Chwefror 2021

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ("yr Offeryn") yn gwneud diwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith ddomestig sy'n llywodraethu'r rhaglen datblygu gwledig er mwyn rhoi fframwaith domestig ar waith i gyllido cynlluniau datblygu gwledig newydd yng Nghymru ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE a sicrhau bod y fframwaith yn effeithlon ac yn effeithiol.

At hynny, mae'r Offeryn yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â chynlluniau taliadau uniongyrchol er mwyn ymdrin â gwallau a sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae pum Rhan i'r Offeryn. Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaethau rhagarweiniol ar gyfer yr Offeryn. Mae Rhannau 2 i 5 yn cynnwys y diwygiadau o sylwedd, a nodir isod.

Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Llorweddol

Mae Rhan 2 o'r Offeryn yn diwygio'r canlynol, i'r graddau y maent yn ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig:

- Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ("y Rheoliadau Llorweddol");
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli a'r amodau ar gyfer gwrthod taliadau neu eu tynnu yn ôl a'r cosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrrff eraill, rheolaeth ariannol, cymeradwyo cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarannau a thryloywder.

Cymorth Gwledig: Deddfwriaeth Uniongyrchol a Ddargedwir

Mae Rhan 3 o'r Offeryn yn diwygio'r canlynol:

- Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n gosod darpariaethau cyffredin ar Gronfa Datblygu

Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac sy'n gosod darpariaethau cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1083/2006;

- Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 480/2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod darpariaethau cyffredin ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac sy'n gosod darpariaethau cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac yn cyflwyno darpariaethau trosiannol;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 808/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD);
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 821/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran trefniadau manwl ar gyfer trosglwyddo a rheoli cyfraniadau rhaglenni, adrodd ar offerynnau ariannol, nodweddion technegol gwybodaeth a mesurau cyfathrebu ar gyfer gweithrediadau a'r system i gofnodi a storio data;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 964/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran amodau a thelerau safonol ar gyfer offerynnau ariannol.

Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth ddomestig

Mae Rhan 4 o'r Offeryn yn diwygio'r canlynol, i'r graddau y maent yn ymwneud â datblygu gwledig:

- Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014;

- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014.

Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Llorweddol

Mae Rhan 5 o'r Offeryn yn diwygio'r canlynol, i'r graddau y maent yn ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol yn unig:

- y Rheoliadau Llorweddol;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Daw'r Offeryn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y gwneir yr Offeryn.

Gwneir yr Offeryn wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 46 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (c.21), a pharagraffau 2(1), 4(1) a 6(1) o Atodlen 5 i'r ddeddf honno, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (c.16).

Yn unol ag adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, gosodwyd drafft o'r Offeryn gerbron Senedd Cymru ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth drwy benderfyniad y Senedd.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Adran 46 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 ac Atodlen 5 iddi yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig a thaliadau uniongyrchol ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno, i'r graddau y mae'n cael effaith mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn unol ag adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf 2020, a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Yn unol â gofynion Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Offeryn hwn yn darparu fframwaith deddfwriaethol i alluogi darparu cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau datblygu gwledig domestig newydd o 2021 ymlaen.

Roedd cymorth ar gyfer datblygu gwledig yn cael ei ddarparu'n flaenorol drwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a'i ddosbarthu drwy ail golofn y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu, caiff cymorth ar gyfer cynlluniau datblygu gwledig newydd ei ariannu'n ddomestig ac ni fydd yn ddarostyngedig i gyfraith yr UE. Bydd gweithgareddau presennol a pharhaus a gyflawnir drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 yn parhau i weithredu o dan gyfraith yr UE.

Mae diben y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio gan yr Offeryn fel a ganlyn:

Rhan 2 – Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Llorweddol

- Mae Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ("y Rheoliadau Llorweddol") yn gosod y rheolau ar: gyllido gwariant o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), gan gynnwys gwariant ar ddatblygu gwledig; y system cynghori ffermwyr; y systemau rheoli a roddir ar waith gan yr Aelod-wladwriaethau; y system drawsgydymffurfio; cymeradwyo cyfrifon.
- Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod darpariaethau sy'n ategu elfennau anhanfodol penodol o Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 mewn perthynas â: gwrthod rhoi cymorth neu dynnu cymorth yn ôl; cosbau gweinyddol; rheolau ar gyfer cyflwyno ceisiadau neu ddiwygiadau ar wyl gyhoeddus, dydd Sadwrn neu ddydd Sul; diffiniadau penodol er mwyn sicrhau y caiff y system integredig ei rhoi ar waith yn gyson; nodweddion sylfaenol a rheolau technegol a gofynion ansawdd; y sail ar gyfer cyfrifo cymorth; rheolau ychwanegol i gyfryngwyr sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer rhoi'r cymorth; trawsgydymffurfio.
- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwys Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod rheolau ar gyfer cymhwys Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 mewn perthynas â: hysbysiadau i'r Comisiwn i ddiogelu buddiannau ariannol yr Undeb; archwiliadau gweinyddol ac archwiliadau yn y fan a'r lle; mesurau a dulliau rheoli ar gyfer nodi lefelau tetrahydrocannabinol mewn cywarch; sefydliadau cydadranol at ddibenion gwneud taliadau cnwd-benodol ar gyfer cotwm; ceisiadau am gymorth a hawliadau am daliadau; cosbau gweinyddol; diffyg cydymffurfio; trosglwyddo daliadau; gwneud taliadau ymlaen llaw.
- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014 yn gosod rheolau ar gyfer cymhwys Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrrff eraill, rheolaeth ariannol, cymeradwyo cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarannau a thryloywder.

Rhan 3 – Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Uniongyrchol a Ddargedwir

- Mae Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 yn gosod y rheolau cyffredin sy'n gymwys i Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), y Gronfa Gydlyniant, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), sy'n gweithredu o dan fframwaith cyffredin ('Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd'). Mae hefyd yn gosod y darpariaethau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn effeithiol a'u cydgysylltu â'i gilydd ac ag offerynnau eraill yr Undeb;
- Mae Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 yn gosod rheolau cyffredinol ynglŷn â chymorth yr Undeb ar gyfer datblygu gwledig, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ("EAFRD") ac a sefydlir gan Reoliad (UE) Rhif 1306/2013. Mae'n nodi'r amcanion y bydd polisi datblygu gwledig yn cyfrannu atynt a blaenoriaethau perthnasol yr Undeb ar gyfer datblygu gwledig; yn amlinellu'r cyd-destun strategol ar gyfer polisi datblygu gwledig; yn diffinio'r mesurau sydd i'w mabwysiadu er mwyn rhoi polisi datblygu gwledig ar waith; yn gosod rheolau ar raglennu, rhwydweithio, rheoli, monitro a gwerthuso ar sail cyfrifoldebau a rennir rhwng yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn a rheolau i sicrhau y caiff EAFRD ei chydgyssylltu ag offerynnau eraill yr Undeb.
- O ran cymorth ar gyfer datblygu gwledig, mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 480/2014 dyddiedig 3 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn nodi: darpariaethau o ran y meini prawf ar gyfer pennu lefel y cywiriad ariannol sydd i'w gymhwyso o dan y fframwaith perfformio; rheolau mewn perthynas ag offerynnau ariannol; y dull o gyfrifo refeniw net wedi'i ddisgowntio gweithrediadau sy'n cynhyrchu refeniw net ar ôl iddynt gael eu cwblhau; a'r gyfradd safonol ar gyfer costau anuniongyrchol a'r dulliau cysylltiedig sy'n gymwys i bolisiau eraill yr Undeb.
- Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 yn gosod darpariaethau sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 o ran: ffermwyr ifanc; cynlluniau cyfnewid rhwng ffermydd a choedwigoedd ac ymweliadau â ffermydd a choedwigoedd; cynlluniau ansawdd — hyrwyddo; datblygu ffermydd a busnesau; coedwigo a chreu coetir; amaeth-amgylchedd-hinsawdd; gwarchod adnoddau genetig mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth; atal cyllido dwbl; lles anifeiliaid; cydweithredu; benthyciadau masnachol i gronfeydd cydfuddiannol; buddsoddiadau; trosi neu addasu ymrwymadau; ymrwymadau estynedig neu newydd.
- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 808/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 yn gosod rheolau ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 o ran cyflwyno rhaglenni, gweithdrefnau ac amserlenni datblygu gwledig i'w cymeradwyo a diwygio rhaglenni a fframweithiau cenedlaethol datblygu gwledig, cynnwys fframweithiau cenedlaethol, gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer rhaglenni datblygu gwledig, rhoi mesurau datblygu gwledig penodol ar waith, monitro a gwerthuso ac adrodd.

- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 821/2014 dyddiedig 28 Gorffennaf 2014 yn gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran trefniadau manwl ar gyfer trosglwyddo a rheoli cyfraniadau rhaglenni, adrodd ar offerynnau ariannol, nodweddion technegol gwybodaeth a mesurau cyfathrebu a mesurau gwelededd ar gyfer gweithrediadau a'r system i gofnodi a storio data.
- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 964/2014 dyddiedig 11 Medi 2014 yn gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran amodau a thelerau safonol ar gyfer offerynnau ariannol.

Rhan 4 – Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Ddomestig

- Mae Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 yn rheoleiddio rhaglenni newydd a weinyddir gan Weinidogion Cymru ac yn darparu fframwaith cyfreithiol domestig ar gyfer gweithredu deddfwriaeth yr UE yng Nghymru.
- Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru, ar gyfer gweithredu Rheoliadau Ewropeaidd (gan gynnwys y Rheoliadau Llorweddol a'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol a'r Rheoliadau Dirprwyedig a Gweithredu cysylltiedig) sy'n ymwneud â gweinyddu PAC yr UE. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â rheoli a gorfodi mewn perthynas â thaliadau a roddir yn uniongyrchol i ffermwyr o dan Daliadau Uniongyrchol, dyddiadau cymwys ar gyfer ceisiadau, maint lleiaf daliadau, gweithdrefnau ar gyfer dyledion, pwerau mynediad, troseddau a chosbau a rheolau ynglŷn â thrawsgydymffurfio.

Rhan 5 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Llorweddol

- Mae Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ("y Rheoliadau Llorweddol") yn cael ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.
- Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn cael ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.
- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn cael ei ddiwygio, i'r graddau y mae'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol.

Pam y mae'n cael ei newid?

Mae'r Offeryn hwn yn ei gwneud yn bosibl i gymorth ar gyfer cynlluniau datblygu gwledig newydd yng Nghymru barhau y tu hwnt i Ddiwedd Cyfnod Gweithredu'r UE.

Mae'r Offeryn hwn yn symleiddio'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a gweinyddu cymorth ar gyfer datblygu gwledig yn ogystal â dileu darpariaethau nad ydynt yn gymwys yng Nghymru ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE o gyfraith yr UE a ddargedwir. Er enghraifft, mae'r Offeryn yn dileu rheolau sy'n ymwneud â chynnwys rhaglenni datblygu gwledig a diwygio rhaglenni datblygu gwledig a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ac a oedd yn cael eu monitro ganddo yn flaenorol. Mae hyn yn cysoni'r gofynion ar gyfer cymeradwyo a monitro cynnwys a diwygiadau i raglenni datblygu gwledig â gweithdrefnau safonol Llywodraeth Cymru a phrosesau craffu'r Senedd.

Mae'r Offeryn hwn hefyd yn ymgorffori cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'r genhadaeth, yr amcanion a'r blaenoriaethau presennol ar gyfer cymorth ar gyfer datblygu gwledig fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth.

At hynny, mae'r Offeryn yn diwygio deddfwriaeth ynglŷn â'r cynllun taliadau uniongyrchol yng Nghymru er mwyn ymdrin â gwallau a sicrhau ei bod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.

5. Ymgynghori

Mae'r diwygiadau yn Rhannau 2 – 4 o'r Offeryn wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Cynhaliwyd 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Cynigion i gynnal a symleiddio Cymorth Amaethyddol i Ffermwyr a'r Economi Wledig' rhwng 31 Gorffennaf a 23 Hydref 2020.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae swyddogion o'r farn bod y diwygiadau hyn yn ddiwygiadau technegol arferol i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer datblygu gwledig sydd, er enghraifft, yn dileu gofynion ar gyfer cymeradwyo a diwygio rhaglenni datblygu gwledig gan y Comisiwn Ewropeaidd am na fydd hyn yn weithredol ar ôl diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE. Mae hyn yn cysoni proses gweinyddu a llywodraethu cymorth ar gyfer datblygu gwledig â gweithdrefnau safonol Llywodraeth Cymru a phrosesau craffu'r Senedd. Ni chaiff yr Offeryn unrhyw effaith sylweddol ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector elusennol na'r sector gwirfoddol.

O ganlyniad, nid ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Atodiad
Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018
Rhan 1

Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

| Datganiad | Lle y ceir y gofyniad | I bwy y mae'n gymwys? | Yr hyn sy'n ofynnol |
|------------------|--|--|--|
| Sifftio | Paragraffau 3(3), 3(7) a 17(3) a 17(7) o Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) er mwyn gwneud OS Negyddol | Rhaid cwblhau asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig a allai effeithio ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector elusennol a'r sector gwirfoddol. |
| Priodoldeb | Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. | Datganiad nad yw'r OS yn gwneud mwy nag sy'n briodol. |
| Rhesymau Da | Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. | Esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn gam gweithredu rhesymol. |
| Cydraddoldebau | Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. | Esbonio pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a deddfwriaeth a wnaed oddi tanynt. Datgan bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waharddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2020. |

| | | | |
|--------------|--|---|--|
| Esboniadau | Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. Yn ogystal â'r rhwymedigaeth statudol, mae'r Llywodraeth hefyd wedi gwneud ymrwymiad gwleidyddol i gynnwys y datganiadau hyn ochr yn ochr â holl Offerynnau Statudol Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. | Esbonio'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, e.e. ai dim ond mân newidiadau neu newidiadau technegol y bwriedir eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Troseddau | Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd i greu trosedd. | Nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd a'r gosb sydd ynghlwm wrthi. |
| Is-ddirprwyo | Paragraff 30, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 10(1), 12 a rhan 1 o Atodlen 4 er mwyn creu pŵer deddfwriaethol nad yw'n arferadwy gan un o Weinidogion y Goron nac Awdurdod Datganoledig drwy Offeryn Statudol. | Datgan pam mae'n briodol creu'r fath bŵer a is-ddirprwywyd. |

| | | | |
|--|-------------------------|---|---|
| Brys | Paragraff 34, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraffau 4 neu 14, Atodlen 7. | Datgan y rhesymau pam mae'r Gweinidog o'r farn bod yr OS yn fater o frys. |
| Esboniad lle mae rheoliadau yn cael eu diwygio o dan a.2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 | Paragraff 13, Atodlen 8 | Unrhyw un sy'n gwneud OS ar ôl y diwrnod ymadael o dan bwerau y tu allan i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 sy'n addasu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan a. 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 | Datganiad sy'n esbonio'r rhesymau da dros addasu'r offeryn a wnaed o dan a. 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, sy'n nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, ac yn esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Datganiad craffu lle mae rheoliadau yn cael eu diwygio o dan a.2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 | Paragraff 16, Atodlen 8 | Unrhyw un sy'n gwneud OS ar ôl y diwrnod ymadael o dan bwerau y tu allan i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 sy'n addasu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan a. 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. | <p>Datganiad:</p> <p>a) sy'n nodi'r camau y mae'r awdurdod perthnasol wedi'u cymryd er mwyn gwneud yr offeryn drafft a gyhoeddir yn unol â pharagraff 16(2), Atodlen 8 sydd ar gael i ddau Dŷ'r Senedd,</p> <p>b) sy'n cynnwys gwybodaeth am ymateb yr awdurdod perthnasol i — (i) unrhyw argymhellion a wnaed gan un o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi ynghylch yr offeryn drafft a gyhoeddwyd, a (ii) unrhyw sylwadau eraill a gyflwynwyd i'r awdurdod perthnasol ar yr offeryn drafft a gyhoeddwyd,</p> <p>c) sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r awdurdod perthnasol o'r farn ei</p> |

| | | | |
|--|--|--|---|
| | | | bod yn briodol mewn perthynas â chraffu ar yr offeryn neu'r offeryn drafft sydd i'w osod. |
|--|--|--|---|

Rhan 2

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad(au) sifftio

Ddim yn gymwys.

2. Datganiad priodoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch y defnydd o bwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 yn gwneud mwy nag sy'n briodol.”

Mae hyn yn wir am fod yr Offeryn yn cywiro diffygion, sy'n codi yn sgil ymadael â'r UE, ac yn sicrhau bod fframwaith deddfwriaethol ar waith i ariannu cynlluniau datblygu gwledig newydd yn effeithiol yng Nghymru ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae'r Offeryn yn gwneud newidiadau sy'n fach ond sy'n cael effaith sy'n galluogi dull wedi'i deilwra o ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau datblygu gwledig newydd yng Nghymru ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae'n sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau'n gyfredol a'i bod yn parhau i weithredu'n effeithiol yng Nghymru ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae hyn yn unol â pholisi'r Llywodraeth.

3. Rhesymau da

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch y defnydd o bwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr Offeryn hwn ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn gam gweithredu rhesymol.”

Y rheswm dros hyn yw bod y darpariaethau yn sicrhau y bydd y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio gan yr Offeryn hwn yn darparu ar gyfer pontio'n ddidrafferth o'r Cyfnod Gweithredu a nes i gymorth amaethyddol a chymorth ar gyfer datblygu gwledig gael ei ddiwygio yn y dyfodol.

4. Cydraddoldebau

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol:

“Nid yw'r Offeryn yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth na darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny.”

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch y defnydd o bwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â'r Offeryn, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waharddir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu oddi tani.”

5. Esboniadau

Mae'r datganiad o esboniadau wedi'i wneud ym mharagraff 4 (Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael) o brif gorff y Memorandwm Esboniadol hwn.

6. Troseddau

Ddim yn gymwys/gofynnol.

7. Is-ddirprwyo deddfwriaeth

Ddim yn gymwys/gofynnol.

8. Brys

Ddim yn gymwys/gofynnol.

SL(5)783 - Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Diben y Rheoliadau hyn yw pennu estyniad i'r amrywiad dros dro cyfredol i'r cyfraddau a'r bandiau Treth Trafodiadau Tir y darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau 2020, a fydd yn gymwys wrth brynu rhai trafodiadau eiddo preswyl. Mae'r estyniad hwn yn cychwyn ar 1 Ebrill 2021 ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2021, gan ddarparu cyfnod newid dros dro parhaus rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 30 Mehefin 2021, gyda'r cyfraddau a'r bandiau yn dychwelyd i'r rheini a oedd mewn grym cyn 27 Gorffennaf 2020, ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraddau a'r bandiau fel yr oeddent yn gymwys cyn 27 Gorffennaf 2020 (pan ddaeth y cyfraddau dros dro i rym o dan Reoliadau 2020) a'r cyfraddau dros dro a fydd bellach yn cael eu hymestyn gan y rheoliadau hyn tan 30 Mehefin 2021.

| <i>Ystyriaeth berthnasol</i> | <i>Cyfradd ganrannol y dreth (gosodwyd gan Reoliadau 2018)</i> | <i>Cyfraddau dros dro Gosodwyd gan Reoliadau 2020 a'u hymestyn gan Reoliadau 2021</i> |
|---|---|--|
| Nid mwy na £180,000 | 0 y cant | 0 y cant |
| Mwy na £180,000 ond dim mwy na £250,000 | 3.5 y cant | |
| Mwy na £250,000 ond dim mwy na £400,000 | 5 y cant | Dim newid |
| Mwy na £400,000 ond dim mwy na £750,000 | 7.5 y cant | Dim newid |
| Mwy na £750,000 ond dim mwy na £1,500,000 | 10 y cant | Dim newid |
| Mwy na £1,500,000 | 12 y cant | Dim newid |

Yn ei llythyr dyddiedig 3 Mawrth 2021 at y Llywydd, nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ei bwriad i gynnal dadl ynglŷn a'r rheoliadau hyn yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mawrth 2021.



Gweithdrefn

Gweithdrefn Gadarnhaol Dros Dro

Mae'r offeryn hwn yn cynnwys rheoliadau a wnaed o dan y weithdrefn gadarnhaol dros dro a nodir yn adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"). Gwneir y Rheoliadau hyn felly heb i ddrafft gael ei osod gerbron – a'i gymeradwyo gan – y Senedd.

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith. Rhaid i'r Senedd bleidleisio i gymeradwyo'r Rheoliadau erbyn 8 Mai 2021 (oherwydd y toriad ac etholiadau'r Senedd).

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "Mae'r gostyngiad hwn yn y dreth wedi'i dargedu er mwyn cefnogi trethdalwyr sy'n talu prif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir (yn fras, y rhai sy'n prynu eu cartref) ac sydd efallai angen cymorth ychwanegol wrth iddynt benderfynu prynu eu cartref o ganlyniad i'r ansicrwydd tra'r ydym yn symud o frig y pandemig a thugag at ein hadferiad economaidd." Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd y bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol sy'n gymwys i drafodion eiddo preswyl yn dychwelyd i'r rheini a oedd mewn grym cyn 27 Gorffennaf 2020 ar 1 Gorffennaf 2021.

2. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio bandiau treth a chyfraddau treth canrannol ar gyfer trafodiadau penodol sy'n ddarostyngedig i dreth trafodiadau tir a gesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

10 Mawrth 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 135

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau diddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 238 (Cy. 61)

**TRETH TRAFODIADAU TIR,
CYMRU**

**Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir
(Amrywio Dros Dro Gyfraddau a
Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo
Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/794 (Cy. 174)) ("Rheoliadau 2020"). Mae Rheoliadau 2020 yn darparu ar gyfer amrywiad dros dro i'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol ar gyfer treth trafodiadau tir sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl sydd â dyddiad cael effaith ar 27 Gorffennaf 2020 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Ebrill 2021. Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn cymhwysiad yr amrywiad dros dro i drafodiadau eiddo preswyl sydd â dyddiad cael effaith ar 27 Gorffennaf 2020 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Gorffennaf 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cym.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau diddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 238 (Cy. 61)

**TRETH TRAFODIADAU TIR,
CYMRU**

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir
(Amrywio Dros Dro Gyfraddau a
Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo
Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021

Gwnaed 3 Mawrth 2021

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 4 Mawrth 2021

Yn dod i rym 1 Ebrill 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 24(1) a 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(1).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

(1) 2017 dccc 1.

**Diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir
(Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer
Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020**

2.Yn Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020⁽¹⁾, yn rheoliad 2 (cymhwyso), yn lle “1 Ebrill 2021”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “1 Gorffennaf 2021”.

Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, un o Weinidogion

Cymru

3 Mawrth 2021

⁽¹⁾ O.S. 2020/794 (Cy.174).

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

4 Mawrth 2021

1. Disgrifiad

- 1.1 Diben yr offeryn hwn yw pennu estyniad i'r amrywiad dros dro presennol i gyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir a fydd yn gymwys i bryniannau trafodiadau eiddo preswyl penodol. Mae'r estyniad hwn yn dechrau ar 1 Ebrill 2021 ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2021; gan ddarparu cyfnod parhaus o newid dros dro o 27 Gorffennaf 2020 i 30 Mehefin 2021, gyda'r cyfraddau a'r bandiau yn mynd yn ôl i'r rheini a oedd mewn grym cyn 27 Gorffennaf 2020, ar ôl y dyddiad hwnnw.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae'r offeryn hwn yn cynnwys rheoliadau a wneir o dan y weithdrefn gadarnhaol dros dro a nodir yn adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"). Gwneir y Rheoliadau hyn felly heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi. Mae rhagor o fanylion ynghylch y weithdrefn hon ar gael ym mharagraff 3.2 isod.
- 2.2 Bydd yr offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Mae'r offeryn hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a wneir o dan adran 78(1) o Ddeddf 2017 i gynnal darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thrafodiadau penodol pan fo perfformiad sylweddol yn cael ei gyflawni cyn 1 Gorffennaf 2021, ond bod y cwblhau yn digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny. Mae adran 79(3) o Ddeddf 2017 yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan adran 78(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y rheoliadau yn cael yr effaith o orfodi neu gynyddu'r atebolrwydd i dalu treth. Nid yw'r rheol drosiannol a wneir o dan adran 78(1) yn cael yr effaith a ddisgrifir yn adran 79(3) ar y sail ei bod yn lleihau faint o dreth a fyddai fel arall yn cael ei chodi ar y trafodiadau penodedig hynny. Serch hynny, o ganlyniad i adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae adran 24 o Ddeddf 2017 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru amrywio'r cyfraddau treth a'r bandiau treth ar gyfer y dreth trafodiadau tir drwy reoliadau.
- 3.2 Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro, sy'n golygu bod y rheoliadau yn cael eu gwneud (eu llofnodi) gan y Gweinidogion ac y gallant ddod i rym ar unwaith. Pan fydd y rheoliadau wedi cael eu gwneud, rhaid iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a bydd ganddynt effaith dros dro hyd nes y bydd y Senedd yn pleidleisio arnynt. Rhaid i'r bleidlais honno ddigwydd o fewn 28 o ddiwrnodau calendr i'r dyddiad y caiff y rheoliadau eu gwneud, heb gyfrif diwrnodau yn ystod toriad y Senedd. Os na fydd y bleidlais yn digwydd, neu os bydd yn cael ei cholli, bydd y cyfraddau treth a'r bandiau treth blaenorol yn gymwys eto a bydd unrhyw drethdalwr a dalodd swm uwch o dreth o dan y rheoliadau a fethodd â sicrhau cymeradwyaeth y Senedd yn gallu adhawlio'r gwahaniaeth rhwng y swm a oedd yn daladwy o dan y rheoliadau hynny a'r cyfraddau a oedd mewn grym yn flaenorol. Mae hyn yn golygu mai Llywodraeth Cymru, nid trethdalwyr Cymru, fydd yn ysgwyddo'r baich os bydd y rheoliadau yn methu â sicrhau cymeradwyaeth y Senedd. Tudalen y pecyn 140

- 3.3 Mae'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau yn dechrau ddydd Mercher 3 Mawrth 2021 a rhaid i'r bleidlais i gymeradwyo'r Rheoliadau ddigwydd erbyn dydd Sadwrn 8 Mai 2021 (oherwydd toriad ac etholiad y Senedd).
- 3.4 Os cânt eu cymeradwyo, bydd y rheoliadau'n cael effaith tan 30 Mehefin 2021.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Diben y rheoliadau hyn yw diwygio Rheoliadau 2020 er mwyn ymestyn yr amrywiad dros dro presennol i fandiau treth a chyfraddau treth canrannol y dreth trafodiadau tir sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl penodol gyda dyddiad cael effaith¹ ar 27 Gorffennaf 2020 neu ar ôl hynny, a chyn 1 Ebrill 2021, hyd at 27 Gorffennaf 2020 neu ar ôl hynny, a chyn 1 Gorffennaf 2021. Cyhoeddwyd y cyfnod gwreiddiol ar gyfer yr amrywiad dros dro gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 14 Gorffennaf 2020. Defnyddir hyn i gyfrifo faint o dreth trafodiadau tir sy'n daladwy ar drafodiadau tir preswyl ac mae wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n talu'r prif gyfraddau yn unig. Bydd y bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl yn mynd yn ôl i'r rhai a oedd mewn grym cyn 27 Gorffennaf 2020 ar 1 Gorffennaf 2021.
- 4.2 Effaith y Rheoliadau hyn yw cynyddu'r trothwy rhwng y band treth cyfradd sero a'r band treth cyntaf sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl. Cynyddodd y cyfraddau dros dro a gyflwynwyd yn rheoliadau 2020 y band treth cyfradd sero o £180,000 i £250,000 o 27 Gorffennaf 2020, ac mae'r rheoliadau diweddaraf hyn yn darparu er mwyn i'r cyfraddau hynny barhau tan 30 Mehefin 2021. Mae'r trothwy dros dro yn £70,000 yn uwch na'r trothwy cychwynnol parhaol ar gyfer eiddo preswyl sy'n ddarostyngedig i'r prif gyfraddau ac, i bob pwrpas, bydd yn dileu'r band cyntaf parhaol, sy'n codi 3.5% ar gydnabyddiaeth sy'n fwy na £180,000 ond nad yw'n fwy na £250,000. Bydd hefyd yn golygu, o ran pris, mai dim ond tua'r 25% uchaf o'r rhai sy'n agored i dalu prif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir fydd yn talu unrhyw dreth o gwbl. Bydd y rhai sy'n prynu eiddo sy'n costio mwy na £250,000 yn arbed £2,450 dros yr hyn a fyddai'n daladwy o dan y cyfraddau parhaol.
- 4.3 Nid yw'r Rheoliadau hyn yn newid y bandiau treth na'r cyfraddau treth canrannol sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch, trafodiadau eiddo amhreswyl, neu drafodiadau lle mae'r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent.² Felly, bydd y cyfraddau a'r trothwyon uwch ar gyfer y rhai sy'n prynu eiddo megis eiddo prynu i osod neu fel ail gartref yn aros fel y maent. Mae'r gostyngiad hwn yn y dreth wedi'i dargedu er mwyn cefnogi trethdalwyr sy'n talu prif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir (yn fras, y rhai sy'n prynu eu cartref) ac sydd efallai angen cymorth ychwanegol wrth iddynt benderfynu prynu eu cartref o ganlyniad i'r ansicrwydd wrth inni symud o frig y pandemig a thuag at ein hadferiad economaidd.

¹ Y 'dyddiad cael effaith', yn fras, yw dyddiad cwblhau'r contract i brynu'r eiddo.

² Mae Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128 (Cy. 32)) yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch, trafodiadau eiddo amhreswyl, a thrafodiadau lle mae'r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent. Diwygiwyd y cyfraddau hyn yn fwyaf diweddar gydag effaith o 22 Rhagfyr 2020 gan Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020.

- 4.4 O ganlyniad i'r diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn, prif gyfraddau eiddo preswyl y dreth trafodiadau tir ar gyfer trafodiadau a gwblhawyd ar 27 Gorffennaf 2020 neu ar ôl hynny, tan 30 Mehefin 2021, ar sail dros dro, fydd:

Tabl 1: Trafodiadau Eiddo Preswyl - Cyfraddau a Bandiau rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 30 Mehefin 2021

| Prif gyfraddau trafodiadau eiddo preswyl | <u>Y gydnabyddiaeth berthnasol</u> | <u>Y gyfradd dreth ganrannol</u> |
|---|---|----------------------------------|
| <u>Band treth</u> | | |
| Band cyfradd sero | Nid mwy na £250,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £400,000 | 5% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £400,000 ond nid mwy na £750,000 | 7.5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £750,000 ond nid mwy na £1,500,000 | 10% |
| Y pedwerydd band treth | Mwy na £1,500,000 | 12% |

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar yr offeryn hwn. Cyhoeddwyd estyniad i'r cyfnod amrywio dros dro gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 3 Mawrth 2021. Mae'r amseriad yn ystyried galwadau gan rai rhanddeiliaid a threthdalwyr i'r cyfraddau a bandiau dros dro fod yn gymwys am dri mis arall. Serch hynny, nid yw gosod cyfraddau a throthwyon trethi yn faes polisi yr ymgynghorir yn ei gylch, gan fod unrhyw ymgynghoriad o'r fath ar dreth 'fyw' yn debygol iawn o gael effaith gamarweiniol ar ymddygiad ac, mewn perthynas â threthi trafodiadau, ar amseriad y trafodiadau hynny. Y bwriad yw parhau i ddarparu ysgogiad economaidd dros dro i gefnogi marchnad dai ac economi ehangach Cymru. Mae hefyd yn cydnabod bod rhai prynwyr tai yng Nghymru sydd wedi bod yn ceisio elwa ar gyfnod y gostyngiad treth dros dro gwreiddiol wedi cael anawsterau wrth gwblhau trafodiadau yn ystod y cyfnod hwn a bydd yr estyniad hwn yn rhoi cymorth i lawer o'r trethdalwyr hynny yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Bydd effaith refeniw'r newidiadau hyn yn cael ei darparu gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a'i chynnwys fel rhan o'i rhagolwg nesaf o refeniw'r dreth trafodiadau tir ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- 6.2 Ystyriodd Llywodraeth Cymru nifer o opsiynau mewn perthynas ag ymestyn cyfraddau dros dro y dreth trafodiadau tir. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys opsiwn dim newid a'r polisi o fewn y rheoliadau hyn.
- 6.3 Mae data diweddar yn awgrymu bod y rhagolygon ar gyfer y farchnad eiddo bellach yn fwy ffafriol na'r disgwyl ar yr adeg y cyhoeddwyd y mesur gwreiddiol. Mae trafodiadau preswyl yng Nghymru wedi dychwelyd i lefelau blynyddoedd blaenorol. Mae prisiau tai hefyd wedi bod yn codi'n ddiweddar, yn flynyddol, i fyny 10.7% yng Nghymru ym mis Rhagfyr – sy'n uwch nag yn Lloegr (8.5%), a disgwylir iddynt barhau i godi dros y misoedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r economi yn parhau i fod mewn cyflwr bregus a chyda'r cyfyngiadau symud dros fisoedd y gaeaf, mae hyn yn debygol o fod wedi effeithio'n negyddol ar gwblhau trafodiadau yn ddirwystr ac wedi achosi oedi yn achos rhai.
- 6.4 Mae hyn yn awgrymu mai'r camau priodol ar hyn o bryd yw naill ai rhoi terfyn ar y gostyngiad dros dro ar 31 Mawrth neu ddarparu estyniad tymor byr i'r polisi presennol.

Dim newid

- 6.5 Byddai'r opsiwn dim newid yn golygu bod y prif gyfraddau preswyl o 1 Ebrill yn mynd yn ôl i'r rhai a oedd yn gymwys cyn 27 Gorffennaf 2020. Mae'r cyfraddau a'r trothwyon hyn yn golygu, mewn perthynas â'r prif gyfraddau preswyl, nad yw ychydig dros hanner y rheini sy'n prynu tŷ yn talu unrhyw dreth wrth brynu eu cartref, gan gynnwys y mwyafrif helaeth o brynwyr tro cyntaf.
- 6.6 Yn dilyn ymestyn y cynnydd dros dro i £500,000 i'r trothwy cyfradd sero ar gyfer treth tir y dreth stamp a gyflwynwyd o 8 Gorffennaf 2020, byddai peidio â chyflwyno estyniad tebyg i'r un hyd at 30 Mehefin 2021 ar gyfer y dreth trafodiadau tir yn arwain at rai gwahaniaethau cymharol fawr mewn treth rhwng Cymru a Lloegr. Mae hyn yn arbennig o wir am eiddo uchel iawn eu pris yng Nghymru. Gallai hyn effeithio ar rai marchnadoedd eiddo lleol o boptu i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan ystumio rywfaint ar y farchnad yn yr ardaloedd hynny. Yn y cyfnod rhwng mis Awst a mis Ionawr, cafodd tua chwarter yr eiddo a oedd yn agored i'r prif gyfraddau ar gyfer eiddo preswyl yng Nghymru eu gwerthu am £250,000 neu ragor. Am y pris hwnnw heb yr estyniad, y gwahaniaeth mewn treth rhwng treth dir y dreth stamp a'r dreth trafodiadau tir fydd £2,450. Yn ystod yr un cyfnod, cafodd tua 5% o eiddo a oedd yn agored i brif gyfraddau'r cyfraddau preswyl yng Nghymru eu gwerthu am £400,000 neu ragor. Am y pris hwnnw, y gwahaniaeth mewn treth fyddai tua £9,950 heb yr estyniad i'r dreth trafodiadau tir.
- 6.7 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw gost i Lywodraeth Cymru o ran newidiadau i refeniw y dreth trafodiadau tir o gymharu â'r rhai a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei Rhagolygon Trethi Cymru, a oedd yn cynnwys y gostyngiad dros dro i'r dreth trafodiadau tir tan 1 Ebrill 2021.

Estyniad tri mis i'r trothwy dros dro o £250,000 a gymhwysir i'r prif gyfraddau yn unig

- 6.8 Mae'r opsiwn hwn yn estyniad i'r cyfnod y mae'r cynnydd i drothwy'r brif gyfradd breswyl o £180,000 i £250,000 yn gymwys yng Nghymru. Byddai'n gymwys i drafodiadau cyn 1 Gorffennaf 2021 yn hytrach na chyn 1 Ebrill 2021.

- 6.9 Bydd yr opsiwn i ymestyn y rhyddhad dros dro presennol yn golygu bod mwy o drafodiadau yn ddarostyngedig i'r gostyngiad yn y dreth. Efallai y bydd rhai o'r trafodiadau hyn wedi'u cynllunio i'w cwblhau cyn 1 Ebrill, ond maent wedi bod yn destun oedi yn y broses drawsgludo, neu yn y broses o adeiladu adeiladau newydd, sydd wedi digwydd o ganlyniad i COVID. Mae'r opsiwn hwn yn creu gostyngiad dros dro tecach, gan ei fod yn ceisio ymdrin â'r trafodiadau hynny sydd wedi'u gohirio ac na fyddai'n elwa ar y gostyngiad yn y dreth fel arall.
- 6.10 O ganlyniad i'r newid hwn, bydd tua 75% o'r rheini sy'n prynu tŷ yng Nghymru yn parhau i dalu dim treth trafodiadau tir tan 1 Gorffennaf 2021. Ar gyfer eiddo sy'n costio £250,000 neu ragor, bydd gostyngiad treth o £2,450 o hyd tan 1 Gorffennaf.
- 6.11 Fel gyda'r polisi presennol, nid yw'r opsiwn hwn yn darparu gostyngiad treth dros dro ar gyfer yr eiddo hynny sy'n ddarostyngedig i gyfraddau preswyl uwch y dreth trafodiadau tir. Mae'r cyfraddau preswyl uwch yn gymwys i gwmnïau sy'n prynu unrhyw anheddau ac i unigolion, yn fras, sy'n prynu eiddo preswyl pan fyddant hwy, neu unigolyn y maent yn prynu gydag ef, eisoes yn berchen ar fuddiant mewn annedd arall. Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod yn berthnasol pan brynir ail gartrefi ac eiddo prynu i osod.
- 6.12 Disgwylir i tua 4,000 o drafodiadau yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i brif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir gael budd o'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae nifer y trafodiadau eleni a fydd yn elwa ar y cyfnod gostyngiad treth estynedig yn arbennig o ansicr oherwydd effeithiau'r pandemig ar y farchnad eiddo a'r economi ehangach. Disgwylir i'r trafodiadau hyn dderbyn gostyngiad treth cyfartalog o £2,000. Yna gellir defnyddio'r gostyngiad mewn treth i gynyddu gwariant aelwydydd, a allai yn ei dro gael effeithiau economaidd cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ar hyn a sut y gallai fod yn berthnasol i'r sefyllfa economaidd a pholisi bresennol yn gymharol ansicr. Gall ymestyn y gostyngiad yn y dreth gynyddu prisiau tai ychydig hefyd.
- 6.13 Disgwylir i ymestyn y gostyngiad yn y dreth gael ychydig iawn o effaith ar drafodiadau yn gyffredinol o'r hyn a fyddai wedi digwydd fel arall. Mae hefyd yn debygol y bydd rhai trafodiadau yn cael eu cyflwyno o'r cyfnod ar ôl 30 Mehefin 2021 er mwyn manteisio ar y gostyngiad dros dro yn y dreth estynedig.
- 6.14 Hyd yn oed gyda'r estyniad i'r newidiadau dros dro a gyflwynwyd i'r dreth trafodiadau tir, bydd rhai gwahaniaethau treth cymharol fawr o hyd mewn treth rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer rhai eiddo uchel iawn eu pris yng Nghymru. Gall hyn effeithio ar rai marchnadoedd eiddo lleol sydd o boptu i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan ystumio rywfaint ar y farchnad eiddo yn yr ardaloedd hynny.
- 6.15 Gyda'r opsiwn hwn, ni fydd tua 75% o eiddo yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r prif gyfraddau preswyl yn talu unrhyw dreth. Dim ond ar gyfer tai a gaiff eu prynu am fwy na £250,000 y bydd gwahaniaethau mewn treth sy'n daladwy rhwng treth dir y treth stamp a'r dreth trafodiadau tir. Yn y cyfnod rhwng mis Awst a mis Ionawr, cafodd tua 5% o eiddo eu gwerthu am £400,000 neu ragor. Am y pris hwnnw gyda'r estyniad i'r dreth trafodiadau tir, y gwahaniaeth mewn treth rhwng treth dir y dreth stamp a'r dreth trafodiadau tir fydd £7,500, sy'n £2,450 yn llai nag y byddai heb yr estyniad i'r dreth trafodiadau tir. Gan fod yr opsiwn hwn yn lleihau'r gwahaniaeth mewn treth rhwng treth dir y dreth stamp a'r dreth trafodiadau tir o'i gymharu â'r opsiwn dim newid, dylai arwain at lai o ystumio'r farchnad leol rhwng Cymru a Lloegr na'r opsiwn hwnnw.
- 6.16 Er bod gostyngiadau i drethi trafodiadau eiddo preswyl yn gyffredinol yn cynyddu nifer y trafodiadau yn gyfan, gan mai estyniad tri mis yw hwn, disgwylir i'r effaith fod yn fach.
- 6.17 Ni fydd fawr o gost gweinyddol ychwanegol i Awdurdod Cyllid Cymru o ganlyniad i ddiweddarau ei gyfriniantellau trethdarlen neu ymholiadau trethdalwyr am y newid.

Telir y costau hyn o fewn ei gyllideb bresennol. Mae busnesau sy'n ymwneud â'r gwahanol gamau o brynu tŷ, yn enwedig asiantiaid eiddo a thrawsgludwyr a chyfreithwyr wedi ymdrin â llawer o newidiadau i gyfraddau (a dulliau cyfrifo) cyn hyn trwy dreth dir y dreth stamp a chyflwyno'r dreth trafodiadau tir yng Nghymru. Gan mai estyniad i bolisi presennol yw hwn, ni ddylai fod llawer o faterion o ran addasu neu integreiddio'r newid i systemau a phrosesau sy'n bodoli eisoes. Cafwyd cyfathrebu clir am y newidiadau ac mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi darparu cyfrifiannell y dreth trafodiadau tir ddiwygiedig i ganfod atebolrwydd. Dylai'r costau ychwanegol i'r busnesau hyn fod yn fach iawn felly.

- 6.18 Mae ymestyn y cyfraddau dros dro am dri mis arall yn cyfateb i'r estyniad ar gyfer treth dir y dreth stamp yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dylai hyn hefyd fod o gymorth o ran y negeseuon ac i feithrin ymwybyddiaeth o ba mor hir y bydd y cyfraddau dros dro yn awr yn berthnasol yng Nghymru.

7. Adolygu ar ôl gweithredu

- 7.1 Mae adran 77 o Ddeddf 2017 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o'r dreth trafodiadau tir i'w gwblhau cyn pen chwe blynedd i'r diwrnod y cafodd Deddf 2017 y Cydsyniad Brenhinol. Bydd adolygiad o'r dreth trafodiadau tir yn cwmpasu'r holl is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf 2017.



Ein cyf/Our ref: MA-RE-0943-21

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

3 Mawrth 2020

Annwyl Llywydd,

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adran 24(1) and 78(1) o'r Gorchymyn Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ('Deddf 2017') 2017 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd yn adran 25(2) o Ddeddf 2017 mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn o fewn 28 diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud, heb gynnwys diwrnodau pan fydd y Senedd ar doriad o bedwar diwrnod neu fwy neu wedi'i diddymu, er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Gallai fod o gymorth i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 23 Mawrth 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 146
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

SL(5)764 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021

Cefndir a diben

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae Atodlen 6 yn rhestru'r unigolion a'r sefydliadau y mae Mesur 2011 yn berthnasol iddynt ac yn nodi'r safonau a allai fod yn berthnasol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 6 i Fesur 2011 trwy ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yr effaith yw y bydd y safonau canlynol, o bosibl, yn berthnasol i gyd-bwyllgorau corfforedig:

- safonau cyflenwi gwasanaethau,
- safonau llunio polisi,
- safonau gweithredu,
- safonau hybu, a
- safonau cadw cofnodion.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â rheoliadau eraill a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol.

Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Dylai pennawd y Rheoliadau gynnwys "LLYWODRAETH LEOL, CYMRU" yn ogystal ag "Y GYMRAEG", i nodi maes y gyfraith y mae'r offeryn yn ymwneud ag ef.



2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Yn ôl y rhaglith, “gosodwyd drafft o’r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe’i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddi yn unol ag adran 174(4) a (5)(l) o [Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021].”

Mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad fod at adran 174(4) a 5(k) [ychwanegwyd y pwyslais], gan fod paragraff (k) o is-adran (5) yn darparu bod is-adran (4) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan adran 83 (cyd-bwyllgorau corfforaethol: atodol ac ati).

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae adran 'Cefndir Deddfwriaethol' y Memorandwm Esboniadol yn darparu fel a ganlyn:

“Bydd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd yn rhinwedd paragraff 35 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.”

Fodd bynnag, mae'r rhaglith i'r Rheoliadau yn dyfynnu adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gywir fel y ddarpariaeth sy'n nodi'r weithdrefn seneddol sy'n berthnasol i'r offeryn hwn. Nid yw'n eglur pam y cyfeirir yn y Memorandwm Esboniadol at baragraff 35 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan nad yw'n ymddangos bod y ddarpariaeth yn berthnasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021

Pwynt craffu technegol 1: *Hepgor pennawd pwnc ychwanegol*

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am y mater hwn. Cytunwn y byddai'n dda o beth categoreiddio'r offeryn hwn o dan bennawd pwnc "LLYWODRAETH LEOL, CYMRU" yn ogystal â phennawd pwnc "Y GYMRAEG". Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau caiff y pennawd pwnc ychwanegol ei gynnwys yn y fersiwn i'w llofnodi gan y Gweinidog.

Pwynt craffu technegol 2: *Cyfeiriad anghywir at bŵer galluogi yn y rhaglith*

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y pwerau a enwir yn gywir. Mae ail baragraff y rhaglith yn cyfeirio at is-adrannau (4) a (5)(l) (yn hytrach na "5(1)") o adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae paragraff (l) o is-adran (5) o adran 174 yn darparu bod rheoliadau o dan adran 84(2) o'r Ddeddf (rheoliadau sy'n diwygio deddfiadau eraill at ddibenion Rhan 5, Cyd-bwyllgorau Corfforedig) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn unol ag is-adran (4) o'r adran honno. Adran 84(2) yw'r prif bŵer galluogi a enwir ym mharagraff cyntaf y rhaglith.

Pwynt craffu ar rinweddau 1: *Cyfeiriad anghywir at yr awdurdod ar gyfer defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn y Memorandwm Esboniadol*

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am yr amryfusedd hwn. Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi ei ddiweddarau er mwyn newid y cyfeiriad gwallus.

Government Response: The Corporate Joint Committees (Amendment of Schedule 6 to the Welsh Language (Wales) Measure 2011) Regulations 2021

Technical Scrutiny point 1 : *Omission of additional subject heading*

The Government is grateful for notice of this issue. We agree that there would be merit in this instrument being categorised under the subject heading of “LOCAL GOVERNMENT, WALES” in addition to the subject heading “WELSH LANGUAGE”. If the Regulations are approved by the Senedd the additional subject heading will be included in the version to be signed by the Minister.

Technical Scrutiny point 2 : *Incorrect citation of enabling power in the preamble*

The Government considers the cited powers to be correct. The second paragraph of the preamble refers to subsections (4) and (5)(l) (as opposed “5(1)”) of section 174 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021. Paragraph (l) of subsection (5) of section 174 provides that regulations under section 84(2) of the Act (regulations amending other enactments for the purposes of Part 5, Corporate Joint Committees) are subject to the affirmative procedure in accordance with subsection (4) of that section. Section 84(2) is the main enabling power cited in the first paragraph of the preamble.

Merit Scrutiny point 1 : *Incorrect reference to the authority for use of affirmative procedure in the Explanatory Memorandum*

The Government is grateful for notice of this oversight. The Explanatory Memorandum has been updated to replace the erroneous reference.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|----------------|---|
| TEITL | Rheoliadau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cofrestrfa Protocol Kyoto) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 |
| DYDDIAD | 26 Chwefror 2021 |
| GAN | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd |

SO30C – Hysbysiad ynghylch Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 nad ydynt wedi'u gosod ger bron Senedd Cymru.

Rheoliadau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cofrestrfa Protocol Kyoto) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio'r canlynol:
Deddfwriaeth yr UE

Rheoliad y Comisiwn (UE) rhif 389/2013

Deddfwriaeth Ddomestig

Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) a'r Rhestr Allyriadau Genedlaethol 2005

Deddf yr Amgylchedd 1995

Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012

Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sydd gan fwyaf o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, fel a bennwyd mewn deddfwriaeth

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chofrestrfa Protocol Kyoto ("PK") y DU a phrosiectau PK, i sicrhau y gall weithredu yn y DU. Mae PK

yn brotocol i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (“yr UNFCCC”), sy’n gytuniad rhyngwladol ar y newid yn yr hinsawdd. Mae PK yn nodi ymrwymïadau gwahanol wledydd, gan gynnwys Aelod-wledydd yr UE a’r DU, i leihau’u hallyriadau carbon.

Mae’r OS a’u Memorandwm Esboniadol, sy’n nodi effeithiau pob diwygiad, ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2021/9780348220551>

Pam y cafodd cydsyniad ei roi

Mae cydsyniad wedi’i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Chymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau’n ymarferol ar ôl i’r DU ymadael â’r UE trwy ddiwygio neu ddirymu darpariaethau a fyddai’n ei wneud yn amhosibl ei weithredu fel arall.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**217 - Rheoliadau Allyriadau Nwyon Ty Gwydr (Cofrestrfa Protocol Kyoto)
2021**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 25 Chwefror 2021

Sifftio

| | |
|---|-------------------|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |

Gweithdrefn graffu

| | |
|--|----------------|
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 9 Mawrth 2021 |

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Crynodeb

Mae'r Deyrnas Unedig yn rhan o Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC). Mae aelodaeth o'r Confensiwn bron yn fyd-eang ac mae'n cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn fater pwysig y gellir brwydro yn ei erbyn drwy sefydlogi allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae'r Protocol Kyoto yn brotocol i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, ac fel rhan o hwn mae rhai gwledydd wedi cytuno i ymrwymo i leihau allyriadau. Mae'r gwledydd hynny yn cynnwys y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

Cyn 31 Rhagfyr 2020, roedd cofrestrfa Protocol Kyoto y DU yn gweithredu o fewn platfform yr UE (sef System Gyfunol Cofrestrfeydd yr Undeb Ewropeaidd, neu CSEUR).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith a ddargedwir yr UE sy'n ymwneud â chofrestrfa Protocol Kyoto y DU, er mwyn sicrhau bod Cofrestrfa Protocol Kyoto y DU yn gweithio o fewn y platfform domestig newydd (hynny yw, yn annibynnol ar System Gyfunol Cofrestrfeydd yr UE (CSEUR). Bydd hyn yn caniatáu i'r DU ddal a masnachu unedau Kyoto, gan helpu'r DU i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau rhyngwladol o dan Protocol Kyoto.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn dileu gofyniad i Asiantaeth yr Amgylchedd gydymffurfio â chyfraith yr UE wrth ystyried ceisiadau ynghylch prosiectau Protocol Kyoto. Yn lle hynny, bydd yn rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfraith hinsawdd rhyngwladol perthnasol y DU.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 26 Chwefror 2021 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Nodwn, fodd bynnag, fod y platfform meddalwedd ar gyfer cofrestrfa Protocol Kyoto newydd y DU yn dal i gael ei ddatblygu ac mae disgwyl iddo fod yn weithredol yn y gwanwyn 2021. Crynhoir canlyniad hyn yn adran 7.3 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU ar y Rheoliadau:

"The UK's access to the EU's KP Registry system ended at the end of the Transition Period (TP). The IT platform for the new UK KP registry is currently in development and is due to be operational in Spring 2021. For the period between the end of the TP and Spring 2021, businesses with accounts in the UK KP registry will temporarily lose access to them and have been advised to open KP accounts in other countries' registries if they wish to trade KP units during this time."

Ymddengys hefyd fod datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn dyfynnu enw'r Rheoliadau yn anghywir. Yr enw cywir arnynt yw Rheoliadau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cofrestrfa Protocol Kyoto) 2021.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Deddf yr Amgylchedd 1995 fel y mae'n gymwys i "awdurdodau codi tâl". Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru yn awdurdod codi tâl.

Efallai y bydd y Pwyllgor am ofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam na osodwyd Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 30A, i'r graddau y mae'r Rheoliadau'n diwygio Deddf yr Amgylchedd 1995 mewn meysydd datganoledig.

Eitem 6.1



Dr Edward Hayes
Head of Public Affairs
The Kennel Club
Clarges Street
London
W1J 8AB

Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SN

9 March 2021

Dear Chair,

We are writing with regard to The Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (Wales) Regulations 2021. We are aware that the Regulations will be going back to the Committee on 22nd March and are very concerned by their potential unintended consequences.

The Kennel Club firmly believes that, due to the drafting of the regulations, their scope of impact will be much wider than the Government's stated aim to prohibit commercial third party sales of puppies and kittens in Wales and will introduce a new licensing threshold for one to two litter breeders. Legitimate low volume breeders who are explicitly out of scope of The Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations 2014 – i.e. breeders with one or two bitches, producing one or two litters in a 12 month period – could reasonably fall within the scope of the new regulations. If they are deemed to be selling their puppies as pets in the course of a business, as outlined in Schedule 1, (1) and (2), the regulations as drafted would surely necessitate the acquisition of a 'pet vending' licence. Since the introduction of an identically worded 'business test' licensing threshold in England in 2018, we have seen a number of one and two litter dog breeders being deemed to be operating a business by overzealous local authorities.

The Welsh Government did not consult on the introduction of a de facto new licensing threshold for dog breeders in either the 2019 or 2020 consultations, nor has this been taken into account in the legislation's accompanying explanatory memorandum or accompanying regulatory impact assessment. As such, we are highly concerned that the Regulations' implications – in terms of the general puppy buying public, breeders and licensing authorities – will not have been duly considered.

We believe that the implementation of a licensing regime whereby some dog breeders would need to adhere to the conditions set out within the 2014 breeding regulations, others by these new 'pet vending' conditions, and a third group of unlicensed breeders would introduce excessive and unnecessary complications for all relevant stakeholders.

Furthermore, we do not believe the implementation of this licensing threshold for dog breeders would be in line with the recommendations of the recent independent review of Welsh dog breeding regulations. The expert panel, commissioned by the Welsh Government, highlighted that the extension of 'full licensing' (i.e. inspections) to one and two litter dog breeders, as being introduced in practice by this legislation, would require a significant increase in local



authority resources to enable effective implementation, which was a major factor as to why they did not support such a measure.

The panel also highlighted the significant unintended and unwanted consequences that such a step could result in: “Many of the best welfare conditions for the breeding of dogs occur in low volume, home breeding situations with an owner who may wish to have one or two litters from a well looked after, well socialised, pet dog. There is therefore a legitimate argument that full licensing of all breeders, regardless of size, could deter the best small-scale breeders from continuing. This reduction of supply in the face of ongoing demand for puppies could inadvertently lead to an increase in the sourcing of dogs from lower welfare situations including large-scale licensed breeding establishments, illegally unlicensed establishments, or those imported from overseas.”

In the Welsh Government’s formal response to the Group’s recommendations, there was no indication that the Government felt that one and two litter dog breeders should come under the scope of a licensing regime. Whilst we clearly note that these new regulations do not amend the 2014 breeding regulations, we believe that they will have an equivalent effect in practice.

The Kennel Club fully supports the principle aim of the legislation to prohibit the commercial third party sale of puppies and kittens in Wales. However, we firmly believe that the draft regulations exceed what the Welsh Government has consulted upon and assessed within the accompanying explanatory memorandum and impact assessment. As such, we believe that the scope of the Regulations, in their current form, far exceeds what the Welsh Government stated they hoped to achieve by introducing a new licensing threshold for one and two litter breeders in Wales.

We urge you to consider these points when the Regulations come before your Committee and to seek further clarification from the Welsh Government on this matter.

Yours sincerely,

Dr Edward Hayes
Head of Public Affairs
The Kennel Club



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LG/0854/12

Mick Antoni AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Mawrth 2021

Annwyl Mick,

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Diolch am eich adroddiad dyddiedig 19 Chwefror 2021 gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y gwaith craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Rwy'n ddiolchgar am ystyriaeth ac argymhellion y Pwyllgor. Mae'n bleser gennyf dderbyn argymhellion y Pwyllgor ac rwy'n rhoi fy ymateb yn Atodiad A.

Cofion,

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 158
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A:

| | |
|--|--|
| <p>Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog roi gwybod i'r Pwyllgor a yw wedi ceisio unrhyw welliannau i Fil y DU yn sgil canlyniad ymarferion ymgynghori Llywodraeth Cymru Os felly, dylai'r Gweinidog egluro'r rhesymau dros ei gwelliannau arfaethedig.</p> | <p>Derbyn Ni fu'n ofynnol ceisio gwelliannau i'r Bil o ganlyniad i unrhyw ymarferion ymgynghori gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |
| <p>Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog roi'r ddogfen wedi'i choladu i'r Pwyllgor, sef y ddogfen y cyfeirir ati yn ei hymateb i argymhelliad 12 o'n hadroddiad cyntaf.</p> | <p>Derbyn Darperir y ddogfen atodol yn Atodiad B.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |
| <p>Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth lawn a manwl am yr holl ddarpariaethau yn adran 37B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n cael eu dileu gan Fil Amgylchedd y DU a'r hyn sy'n digwydd iddynt.</p> | <p>Derbyn Mae cymal 77(3) yn hepgor adran 37B (a 37C) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n cynnwys y gofynion cyfredol o ran cyhoeddi cynllun drafft a therfynol ar gyfer rheoli adnoddau dŵr ac ymdrin ag ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft.</p> <p>Mae adrannau newydd 39F a 39G yn cael eu mewnosod gan gymal 77(7) o'r Bil.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn Atodiad B.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |
| <p>Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog egluro pa bwerau cyfarwyddo sy'n cael eu dyblygu yn rhinwedd adrannau arfaethedig 39F a 39G o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (i'w fewnosod gan gymal 75 o Fil Amgylchedd y DU).</p> | <p>Derbyn Mae'r holl bwerau cyfarwyddo yn adran 37B i bob pwrpas yn cael eu dileu ac mae bwerau cyfarwyddo yn cael eu rhoi yn eu lle os darperir ar eu cyfer o dan reoliadau a wneir o dan adrannau newydd 39F a 39G.</p> |

| | |
|--|---|
| | <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |
| <p>Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog ddarparu copïau o ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â chymal 107 ac Atodlen 16 o Fil y DU, fel y gofynnwyd amdanynt yn ein llythyr dyddiedig 23 Rhagfyr 2020, erbyn 4 Mawrth 2021.</p> | <p>Derbyn Rwy'n falch o gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'u hystyriaethau drwy ddarparu gohebiaeth sy'n ymwneud â'r dull polisi y cytunwyd arno bellach sy'n sail i adran 107 ac Atodlen 16. Fodd bynnag, ni allaf ddarparu gohebiaeth bellach ar y pwnc gan fod eu cynnwys yn ymwneud â meysydd eraill yn y Bil sy'n parhau i gael eu datblygu ac sy'n ymdrin â'r broses barhaus o lunio Polisi Llywodraeth y DU.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |
| <p>Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ymateb i'r holl gasgliadau ac argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn erbyn 4 Mawrth 2021.</p> | <p>Derbyn</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.</p> |

Atodiad B:

| | |
|---|--|
| <p>Argymhelliad 3</p> <p>Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth lawn a manwl am yr holl ddarpariaethau yn adran 37B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n cael eu dileu gan Fil Amgylchedd y DU a'r hyn sy'n digwydd iddynt.</p> | <p>Mae cymal 77(3) yn hepgor adran 37B (a 37C) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n cynnwys y gofynion cyfredol o ran cyhoeddi cynllun drafft a therfynol ar gyfer rheoli adnoddau dŵr ac ymdrin ag ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft.</p> <p>Mae adrannau newydd 39F a 39G yn cael eu mewnosod gan gymal 77(7) o'r Bil.</p> <p>Adran 39F- Cynlluniau a chynigion ar y cyd: rheoliadau ynghylch y weithdrefn</p> <p>Mae adran 39F(1) sydd newydd ei mewnosod yn darparu pwerau y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru wneud rheoliadau oddi tanynt sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynigion ar y cyd, cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder. Mae'n debygol y bydd y rheoliadau i raddau helaeth yn cwmpasu gofynion tebyg i'r rheoliadau presennol ar gyfer cynllunio adnoddau dŵr (Rheoliadau Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 2007) a chynllunio ar gyfer sychder (Rheoliadau Cynllun Sychder 2005). Mae'r Rheoliadau presennol yn nodi gofynion cyhoeddi a sut y dylid ystyried ymatebion i'r ymgynghoriadau, yn ogystal â gofynion gweithdrefnol ar gyfer ymholiadau neu wrandawiadau. Mae hefyd yn debygol y gall y rheoliadau newydd gynnwys darpariaethau sy'n caniatáu defnyddio platfformau ymgynghori modern ac yn gwella'r gofynion presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth a thrin gwybodaeth gyfrinachol.</p> <p>Mae adran 39F(2) yn darparu y caiff y rheoliadau gynnwys gofynion ar gyfer rhannu gwybodaeth, gan gynnwys gofynion bod yn rhaid i drwyddedeion cyflenwi dŵr rannu ag ymgwymerwyr dŵr unrhyw wybodaeth y mae'r ymgwymerwr dŵr yn gofyn yn rhesymol amdani.</p> <p>Mae adran 39F(3) yn darparu y caiff y rheoliadau gynnwys gofynion o ran sut y dylai ymgwymerwyr dŵr ymgynghori â chyrrff eraill, pwy y dylent ymgynghori â hwy, amseriad unrhyw ymgynghoriad a chyhoeddi datganiadau sy'n ymwneud ag unrhyw ymgynghoriad.</p> <p>Mae adran 39F(4) yn darparu y caiff y rheoliadau gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer paratoi a dosbarthu drafftiau, gan gynnwys darpariaeth i'r Gweinidog ei gwneud yn ofynnol i newidiadau gael eu gwneud i gynllun neu gynnig drafft.</p> <p>Mae adran 39F(5) yn darparu y caiff y rheoliadau gynnwys gofynion i sicrhau bod pobl y mae'r cynllun neu'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt yn cael cyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau i'r Gweinidog.</p> <p>Mae adran 39F(6) yn darparu y caiff y rheoliadau gynnwys gofynion ynghylch sut y dylai ymgwymerwyr dŵr ymdrin â'r ymatebion a gânt ac y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru beri i ymchwiliad lleol cyhoeddus neu wrandawriad arall gael ei gynnal mewn cysylltiad â chynllun rheoli adnoddau dŵr neu gynllun sychder.</p> <p>Mae adran 39F(7) yn darparu y caiff y rheoliadau gynnwys gofynion ynghylch sut y dylai ymgwymerwyr dŵr ymdrin â gwybodaeth fasnachol gyfrinachol.</p> <p>Mae adran 39F(8) yn darparu bod cyfeiriadau at y Gweinidog yn yr adran honno, gan gynnwys y pŵer i wneud rheoliadau, yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ymgwymerwyr dŵr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr a Gweinidogion Cymru mewn</p> |
|---|--|

perthynas ag ymgymerydd dŵr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Adran 39G – Rheoliadau o dan adran 39F: cyfarwyddydau

Mae adran 39G(1) yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran newydd 39F hefyd roi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru i wneud cyfarwyddydau. Mae'r pŵer hwn yn ofynnol oherwydd bod rhai gofynion gweinyddol – er enghraifft, o amgylch yr amserlenni ar gyfer paratoi, adolygu a chyhoeddi – yn debygol o newid o gylch cynllunio i gylch cynllunio. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru hefyd allu cyfarwyddo ymgymerydd dŵr penodol ynghylch pryd a sut y dylid paratoi a diwygio cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau sychder a chynigion ar y cyd. O dan y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â chynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder, gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddydau o'r fath i ymgymerydd dŵr ac nid yw'r cyfarwyddydau hynny'n ddarostyngedig i weithdrefn seneddol.

Mae adran 39G(2) yn darparu bod yn rhaid i'r cyfarwyddydau gael eu nodi'n ysgrifenedig.

Mae adran 39G(3) yn darparu y gallai cyfarwyddyd fod yn gymwys yn gyffredinol i bob ymgymerydd dŵr neu i un neu ragor o ymgymerydd.

Mae adran 39G(4) yn darparu bod yn rhaid i bob ymgymerydd dŵr gydymffurfio â chyfarwyddyd.

Mae adran 39G(5) yn darparu y byddai modd gorfodi'r cyfarwyddydau gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru o dan adran 18 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Mae adran 39G(6) yn darparu bod i "Gweinidog" ("*Minister*") yr un ystyr ag yn adran newydd 39F, gyda'r effaith bod y pŵer i wneud cyfarwyddydau o dan adran newydd 39G yn cael ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ymgymerydd dŵr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, a Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag ymgymerydd dŵr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ym Mil Amgylchedd y Deyrnas Unedig

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|--|---|------------|---|---|---|
| Cymal 49 Atodlen 4 Ymrwymadau o ran cyfrifoldeb y cynhyrchydd | Gweinidogion Cymru (pwerau cydredol plws) | Rheoliadau | Yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau i roi ymrwymiad cyfrifoldeb y cynhyrchydd ar bobl benodol ac ynghylch cynnyrch neu ddeunydd penodol. | Y weithdrefn gadarnhaol ac eithrio'r rheoliadau o dan 47(4) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer amrywio targedau ac sy'n dod o dan y weithdrefn negyddol | Yn rhoi'r hyblygrwydd i ddatgan mewn rheoliadau pa gynhyrchydd neu fusnes y rhoddir ymrwymiad cyfrifoldeb y cynhyrchydd arnynt, mewn perthynas â pha gynnyrch neu ddeunydd a beth sydd angen ei wneud i gyflawni'r ymrwymadau. |
| Cymal 50 Atodlen 5 Cyfrifoldeb y cynhyrchydd am gostau gwaredu | Gweinidogion Cymru (pwerau cydredol plws) | Rheoliadau | Yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau i fynnu bod y rheini sy'n gweithgynhyrchu, prosesu, dosbarthu neu gyflenwi cynnyrch neu ddeunydd yn ysgwyddo neu'n cyfrannu at gostau gwaredu'r cynnyrch hynny. | y weithdrefn gadarnhaol | Yn hwyluso gwneud darpariaeth ar wahân yng Nghymru ynghylch gorfodi. Bydd yn rhoi'r hyblygrwydd hefyd i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer mathau gwahanol o gynnyrch, er enghraifft trwy enwi cyrff gwahanol yn awdurdodau gorfodi mewn achosion gwahanol. |
| Cymal 51 Atodlen 6 Gwybodaeth am ddefnyddio | Gweinidogion Cymru (pwerau | Rheoliadau | Yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau sy'n pennu gofynion ar weithgynhyrchwyr a | Y weithdrefn gadarnhaol | Yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynigion polisi ar gyfer pob math o gynnyrch a reoleiddir, |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|---|--------------------|------------|---|--|---|
| adnoddau'n effeithiol | cydredol plws) | | chynhyrchwyr i ddarparu gwybodaeth ynghylch pa mor rhad ar adnoddau y mae eu cynnyrch. | | a gwneud rheoliadau ar wahân ar gyfer pob un. Bydd yn rhoi'r hyblygrwydd hefyd i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol fathau o gynnyrch, er enghraifft trwy enwi cyrff gwahanol yn awdurdodau gorfodi mewn achosion gwahanol. |
| Cymal 52 Atodlen 7 Y gofyn i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau sy'n pennu'r gofynion y mae gofyn i gynnyrch eu bodloni o ran defnyddio adnoddau'n effeithiol. | Y weithdrefn gadarnhaol | Gall fod gofyn darparu gwybodaeth fanwl a thechnegol am gynnyrch penodol ac felly byddai'n fwy addas ei gynnwys mewn rheoliadau nag mewn deddfwriaeth sylfaenol. |
| Cymal 53 Atodlen 8 Cynlluniau talu ernes | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau i sefydlu cynlluniau talu ernes. | Y weithdrefn gadarnhaol os mai dyma'r rheoliadau cyntaf i: a) sefydlu cynlluniau talu | Yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynigion polisi ar gyfer pob grŵp o gynnyrch a reoleiddir, a gwneud rheoliadau ar wahân ar gyfer pob un. |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffur | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|---------------------------|------------------|------|------------|--|---------------------------------|
| | | | | <p>ernes o dan baragraff 1, neu eu gorfodi o dan baragraff 5;</p> <p>(b) darparu bod ymddygiad yn drosedd er nad yw'n drosedd o dan reoliadau presennol;</p> <p>(c) yn darparu bod ymddygiad yn destun cosb sifil;</p> <p>(d) cynyddu swm neu uchafswm dirwy neu gosb ariannol, neu newid y sail ar gyfer pennu swm neu uchafswm o'r fath.</p> | |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffur | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|--|--------------------|------------|--|--|--|
| | | | | Fel arall, mae'r rheoliadau o dan Atodlen 8 yn dod o dan y weithdrefn negyddol. | |
| Cymal 54 Atodlen 9 Codi tâl am eitemau plastig untro | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i wneud rheoliad i ddarparu bod gwerthwyr nwyddau'n codi tâl am gyflenwi eitemau plastig untro. | Y weithdrefn gadarnhaol os (a) mai dyma'r rheoliadau cyntaf i'r awdurdod eu gwneud o dan yr Atodlen honno; (b) yn cynnwys darpariaeth ynghylch codi tâl am eitem newydd; (c) yn darparu bod ymddygiad yn destun cosb sifil nad yw'n destun cosb sifil | O gael y pŵer datganoledig hwn, caniateir i Weinidogion Cymru ddiffinio pa eitemau y codir tâl amdanynt, faint o dâl a godir a phenodi gweinyddwr a phennu'i ofynion, i oruchwyllo'r tâl yn unol â blaenoriaethau Cymru. |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffur | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|--|--------------------|------------|--|---|--|
| | | | | <p>o dan reoliadau presennol a wnaed gan yr awdurdod o dan yr Atodlen honno;</p> <p>(d) cynyddu swm neu uchafswm cosb ariannol, neu newid y sail ar gyfer pennu swm neu uchafswm o'r fath.</p> <p>Fel arall, mae'r rheoliadau o dan Atodlen 9 yn dod o dan y weithdrefn negyddol.</p> | |
| Cymal 57 Tracio gwastraff yn electronig: Prydain Fawr | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno tracio gwastraff yn electronig | Mae cymal 55(3) yn gwneud | Bydd y rheoliadau ar dracio gwastraff yn darparu data fydd yn hanfodol i ddatblygu economi |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffur | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|---------------------------|------------------|------|---|---|--|
| | | | (digidol) ac i sefydlu system electronig at y diben hwnnw trwy reoliadau. | newidiadau i adran 160A(2) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i mewnosodir gan gymal 60) i ddarparu gweithdrefn ar gyfer y pwerau gwneud rheoliadau newydd a gynhwysir yn adran 160A. Bydd y rheoliadau o dan adrannau 34CA a 34CB newydd yn dod o dan y weithdrefn negyddol, ac eithrio yn y sefyllfaoedd a bennir yn yr adran 160A(2) newydd, a | gylchol a pholisi gwastraff yn y dyfodol. Bydd casglu data am wastraff a'r rheini sy'n ei reoli yn ei gwneud yn haws gwybod pwy sydd (neu oedd) yn gyfrifol amdano ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn helpu i reoleiddio gwastraff ac i wybod pwy sy'n gyfrifol am wastraff anghyfreithlon. Bydd hyn yn cysoni deddfwriaeth tracio gwastraff â deddfwriaeth rheoli gwastraff, sydd ar hyn o bryd o dan is-ddeddfwriaeth. |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|--|--------------------|------------|--|---|--|
| | | | | ddaw o dan y weithdrefn gadarnhaol. | |
| Cymal 59 Gwastraff peryglus: Cymru a Lloegr | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer neu ynghylch rheoleiddio gwastraff peryglus | Bydd y rheoliadau o dan yr adran 62ZA newydd o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn dod o dan y weithdrefn negyddol, ac eithrio yn y sefyllfaoedd a bennir yn yr adran 160A(2) newydd o'r Ddeddf honno (fel y'i mewnosodir gan gymal 60 a'i diwygio gan gymal 57), a ddaw o dan y weithdrefn gadarnhaol. | Bydd hyn yn ei gysoni â'r system reoleiddio bresennol ar gyfer gwastraff peryglus sydd ar hyn o bryd o dan is-ddeddfwriaeth. |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|--|--------------------|------------------------------|--|---|--|
| Cymal 65 Gorfodi rheoliadau taflu sbwriel | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau Canllawiau | <p>Yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 o ran gorfodi rhag sbwriel a throseddau eraill fel taflu sbwriel o gerbyd a dosbarthu deunydd print di-dâl heb awdurdod.</p> <p>Yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn adran 88 o Ddeddf 1990 i osod amodau y mae'n rhaid i swyddog ag awdurdod sy'n gweithredu ar ran awdurdod sbwriel eu bodloni, a gwneud darpariaeth i awdurdod sbwriel ddiddymu awdurdod swyddog os na fydd yn bodloni'r amodau.</p> <p>Yn rhoi pwerau hefyd i Weinidogion Cymru wneud canllawiau.</p> | <p>Y weithdrefn negyddol.</p> <p>Ni fydd gweithdrefn i ganllawiau a gyhoeddir o dan y pwerau hyn.</p> | <p>Bydd angen hyblygrwydd ar Weinidogion Cymru i newid neu ddiweddarau'r amodau y bydd gofyn i swyddog a awdurdodir gan awdurdod sbwriel eu bodloni er mwyn adlewyrchu anghenion a datblygiadau cyfnewidiol y sector. O'r herwydd, ni fyddai deddfwriaeth sylfaenol yn gyfrwng priodol ar gyfer y pŵer hwn.</p> <p>Er bod y rheoliadau ar gyfer delio â sbwriel yn gweithredu ar lefel Cymru a Lloegr a bod y canllawiau'r un peth yn fras, ceir rhai gwahaniaethau yn y ffordd y gweithredwn ein polisiau ni sy'n cyfiawnhau dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos iawn ag Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector i ddatblygu a chynnal yr agweddau ar daclo taflu sbwriel sy'n ymwneud ag addysg a newid ymddygiad. Efallai felly y byddwn am gael yr hyblygrwydd i gynnwys y gwaith hwnnw mewn</p> |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|--|---|------------|--|-----------------------|---|
| | | | | | <p>canllawiau gorfodi y gallem eu datblygu.</p> <p>Mae angen y pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau sbwriel amrywiol yn ysgwyddo'u swyddogaethau gorfodi sbwriel mewn ffordd gyson a chymesur.</p> |
| Cymal 68 Hybysiadau Cosb Benodedig | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn diwygio adrannau 33ZA, 33ZB, 34ZA a 34ZB o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i roi'r pwerau i newid lefelau Hysbysiadau Cosb Benodedig a sut i'w talu. | Y weithdrefn negyddol | Mae cael pŵer i newid y cosbau mewn is-ddeddfwriaeth yn golygu bod modd eu hadolygu, gweld a ydynt yn gweithio'n effeithiol a'u newid os oes angen. |
| Cymal 69 Rheoleiddio gweithgareddau sy'n llygru | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Rheoleiddio gweithgareddau sy'n llygru | Y weithdrefn negyddol | Yn caniatáu i'r rheoleidddydd bennu a newid amodau manwl ar gyfer eithrio (rhag y gwaharddiad i gynnal gweithgaredd heb drwydded). |
| Cymal 77 Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau sychder | Gweinidogion Cymru (mewn perthynas ag ymgwymerwyr | Gorchymyn | Mae adran 39E, sydd newydd ei mewnosod, yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi gorchymyn i ddau neu | Y weithdrefn negyddol | Yn rhoi hyblygrwydd i ystyried pa ymgwymerwyr y dylid eu gorchymyn i baratoi cynigion ar y cyd a phryd. |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|---------------------------|---|-------|--|--------------|---------------------------------|
| a chynigion ar y cyd. | dŵr yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru | | <p>fwy o ymgymeryddyr dŵr gyhoeddi cynnig ar y cyd.</p> <p>Mae adran 39F, sydd newydd ei mewnosod, yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau am y weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynllun sychder a chynnig ar y cyd.</p> <p>Mae adran 39G, sydd newydd ei mewnosod, yn dweud y gallai'r pŵer i wneud Rheoliad o dan adran 39F roi pwerau i Weinidog wneud darpariaethau trwy orchymyn.</p> <p>Mae adran 39H, sydd newydd ei mewnosod, yn gwneud darpariaethau amrywiol am y pwerau gwneud</p> | | |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|--|--|-----------|--|-----------------------|---|
| | | | rheoliadau a enwir uchod. | | |
| Cymal 78 Cynlluniau rheoli draeniau a charthffosydd | Gweinidogion Cymru (mewn perthynas ag ymgymerwyr dŵr yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru | Gorchymyn | <p>Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth o ran cynlluniau rheoli draeniau a charthffosydd a pharatoi ac adolygu'r cynlluniau hynny.</p> <p>Mae adran 94A(7), sydd newydd ei mewnosod, yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru roi gorchmynion sy'n nodi'r ffurf y bydd yn rhaid i gynllun rheoli draeniau a charthffosydd ei dilyn neu'r cyfnod cynllunio y mae'n rhaid i gynllun ymwneud ag ef.</p> <p>At hynny, mae a.94B sydd newydd ei mewnosod yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru, drwy Orchymyn, ddiwygio'r cyfnod o amser erbyn pryd y</p> | Y weithdrefn negyddol | Yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd i sicrhau bod cynlluniau rheoli draeniau a charthffosydd yn delio â'r heriau all godi a thrwy hynny, barhau'n effeithiol. |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffur | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|---------------------------|------------------|------|---|--------------|---------------------------------|
| | | | <p>mae'n rhaid i ymgymwr carthffosiaeth gyhoeddi cynllun (yn a.94A(6)(c) y mae'r ddarpariaeth honno)</p> <p>Mae'r adran 94C sydd newydd ei mewnosod yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli draenau a charthffosiaeth. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud ar gyfer rhannu gwybodaeth, ymgynghori ar gynlluniau drafft ac ymateb iddynt, dosbarthu cynlluniau drafft, a darpariaeth sy'n</p> | | |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|---|-----------------------|------------|---|-----------------------|---|
| | | | <p>rhoi pŵer i Weinidogion wneud unrhyw ddarpariaeth (arall) drwy orchmynion - gweler a.94C(8).</p> <p>Mae'r adran 94D sydd newydd ei mewnosod yn gwneud darpariaeth atodol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan a.94C.</p> <p>Mae adran 94E sydd newydd ei mewnosod yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf unrhyw orchmynion a wneir o dan a.94C(8)</p> | | |
| Cymal 84 Ansawdd dŵr: pwerau Gweinidogion Cymru | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Y pŵer i ddiwygio deddfwriaeth i wneud diweddariadau technegol ym maes ansawdd dŵr ar ôl gadael yr UE. | Y weithdrefn negyddol | Bydd ei angen i sicrhau na fydd sylweddau na'r safonau ar gyfer y sylweddau hynny nac ar gyfer statws cemegol dŵr wyneb na dŵr daear yn aros yn ddigyfnewid ar ôl i'r DU adael yr UE. Byddai'r pŵer yn caniatáu |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|--|--------------------|----------|--|-------------------------|--|
| | | | | | camau deddfwriaethol i daclo'r sylweddau blaenoriaeth newydd hynny sy'n cynrychioli orau'r niwed i amgylchedd y dŵr. |
| Cymal 89 Prisio tir arall mewn ardaloedd draenio: Cymru | Gweinidogion Cymru | Rheoliad | Diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n diwygio Deddf Draenio Tir 1991. Yn ailddatgan y pwerau a geir eisoes i wneud rheoliadau yng ngoleuni'r diwygiadau i Ddeddf 1991, gan gynnwys y pŵer cysylltiedig i wneud rheoliad a gyflwynir yng nghymal 88. | Y weithdrefn gadarnhaol | Mae angen adolygu a diweddarau'r fethodoleg ar gyfer cyfrif rhaniad yr incwm rhwng ardollau arbennig ac ardrethi draenio. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn caniatáu cyfrif gwerth tir arall trwy ddull arall (gan y bydd IDBs yn cael defnyddio data eraill i wneud y cyfrifiadau hyn). Fe'u nodir mewn is-ddeddfwriaeth o dan y weithdrefn gadarnhaol. Byddai'n briodol a chymesur nodi'r dull prisio yn y rheoliadau, gan fod y darpariaethau hyn yn ymdrin â manylion mater technegol ac eilaidd. |
| Cymal 90 Prisio tir amaethyddol mewn ardal ddraenio: Cymru a Lloegr | Gweinidogion Cymru | Rheoliad | Yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau sy'n darparu dull arall ar gyfer cyfrif ardrethi draenio. | Y weithdrefn gadarnhaol | Mae'r Bil yn caniatáu is-ddeddfwriaeth i ddarparu dull arall o gyfrif gwerth tir ardrethadwy (tir ac adeiladau amaethyddol) i osgoi unrhyw |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|---|--------------------|----------|--|--------------------------|--|
| | | | | | <p>wyro posibl all ddod yn sgil cyfrif y dyraniad.</p> <p>Byddai'n briodol a chymesur nodi'r dull prisio yn y rheoliadau, gan fod y darpariaethau hyn yn ymdrin â manylion mater technegol ac eilaidd.</p> |
| Cymal 91 Datgelu gwybodaeth Cyllid a Thollau. | Gweinidogion Cymru | Rheoliad | Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i HMRC rannu gwybodaeth â phobl gymwys at ddibenion cymwys. Rhoddir pŵer i wneud rheoliad ar gyfer ychwanegu at y rhestr o 'bobl gymwys'. | Y weithdrefn gadarnhaol | Mae angen y pŵer i ychwanegu at y rhestr o bobl gymwys a nodir o dan adran newydd 37A(3)(h) er mwyn medru ychwanegu pobl eraill y bydd angen iddynt weld gwybodaeth yr HMRC at ddiben cymwys, ac a enwir yn ddiweddarach, at y rhestr mewn is-ddeddfwriaeth, pan fydd y fframwaith o gyrff rheoleiddio sy'n gweithredu yn y maes hwn yn newid. |
| Para 1(1) Atodlen 20 Diwygio rheoliadau REACH | Gweinidogion Cymru | Rheoliad | Yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH o dan y ddarpariaeth hon, cyn belled â bod arfer y pŵer hwnnw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. | Y weithdrefn gadarnhaol. | Mae adran 1 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn diddymu Deddf Cymunedau Ewrop 1972. Mae hyn yn golygu mai'r unig ffordd o ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH 2008 a Rheoliadau Ymadael â'r |

| Adran neu atodlen o'r Bil | Rhoddir y pŵer i | Ffur | Priodoldeb | Y Weithdrefn | Rheswm dros ddewis y Weithdrefn |
|---|------------------------------------|-------------|---|-------------------------|--|
| | | | | | <p>UE REACH yw trwy ddeddfwriaeth sylfaenol.</p> <p>Mae angen y pŵer hwn er mwyn gallu cadw Rheoliadau Ymadael â'r UE REACH yn gyfoes.</p> |
| Atodlen 20 2(1) Diwygio Rheoliadau Gorfodi REACH 2008 (O.S. 2008/2852). | Gweinidogion Cymru (Cydredol plws) | Rheoleiddio | Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH 2008 (O.S. 2008/2852) o dan y ddarpariaeth hon, cyn belled â bod arfer y pŵer hwnnw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. | Y weithdrefn gadarnhaol | Mae angen y pŵer hwn i sicrhau y gellir diweddarau Rheoliadau Gorfodi REACH 2008. |



Ein cyf/Our ref IM/LG/02066/20

Rebecca Pow MP

defra.helpline@defra.gov.uk

8th September 2020

Dear Rebecca Pow

Thank you for your letter of 17 August to inform me you were seeking clearance from the Domestic and Economy Implementation Committee to launch a consultation on the introduction of a due diligence requirements on companies trading in the UK, to reduce the risk of illegal deforestation and land conversion within their supply chains.

I understand the consultation was launched on 25 August and appreciate the need for this consultation to be undertaken as a priority to allow the UK Government to consider whether and how to respond through legislation before COP26. I agree with the importance of the UK providing a powerful signal of our commitment to preventing deforestation as dry season fires in the Amazon are likely to reach their worst levels of more than a decade.

I fully recognise failure to accelerate the shift to more sustainable production of key commodities, including cocoa, palm oil, rubber and soy, will threaten the security of global supply chains, the health and economic security of those who rely on them, as well as the ability to achieve our ambitions on either climate or nature.

I agree the UK should respond through an ambitious campaign on sustainable land use and commodities. I support the aim which is to broker a dialogue between major producers and consumers of these commodities and agree a shared roadmap for action.

I note a due diligence obligation on companies using forest risk commodities in their supply chains is one of the key recommendations from the Global Resource Initiative (GRI) report into this issue.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 180
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I note whilst the proposal being consulted on predominantly relates to the creation, operation, regulation and dissolution of types of business association, which is reserved under the Government of Wales Act 2006, the environment generally and the importation of food into Wales are both within the Senedd's competence. Therefore I would request my officials are involved in reviewing any future legislative requirements to ensure the issue of devolved competence is fully considered.

Regards



Lesley Griffiths AS/MS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. **Tudalen y pecyn 181**



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Rebecca Pow MP
From the Parliamentary Under Secretary of State for
the Environment

Seacole Building
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

T 03459 335577
defra.helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

Lesley Griffiths MS
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs
Welsh Government
5th Floor
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

17 August 2020

Dear Lesley,

CONSULTATION ON DUE DILIGENCE ON FOREST RISK COMMODITIES

I am writing to inform you that I am seeking clearance from the Domestic and Economy Implementation Committee to launch a consultation on the introduction of a due diligence requirement on companies trading in the UK to reduce the risk of illegal deforestation and land conversion in their supply chains.

Our aim is to launch the consultation as soon as possible, to allow the Government to consider whether and how to respond through legislation before COP26. It would also provide a powerful signal of the UK's commitment to preventing deforestation as dry season fires in the Amazon are likely to reach their worst levels of more than a decade.


As you will know, failure to accelerate the shift to more sustainable production of key commodities, including cocoa, palm oil, rubber and soy, will threaten the security of global supply chains, the health and economic security of those who rely on them, as well as the ability to achieve our ambitions on either climate or nature.

As COP26 President, we are responding through our ambitious campaign on sustainable land use and commodities. The aim is to broker a dialogue between major producers and consumers of these commodities and agree a shared roadmap for action. The UK's credibility on this issue internationally will also be shaped in part by the actions we take at home. In 2019, the UK Government set up an independent task force to review the issue and recommend practical measures that could be taken to tackle the problem. That taskforce – the Global Resource Initiative (GRI) – issued its final recommendations report in March 2020 and the Government will be publishing its response to the report later this year. A due diligence obligation on companies using forest risk commodities in their supply chains is one of the key recommendations from the GRI report.

Further detail is set out in the attached draft consultation document. I would be grateful if this is held in confidence. The results of the consultation will inform our decision as to whether to introduce a due diligence requirement. It, together with more detailed feedback from direct engagement with developing country governments in major producer countries, will provide an opportunity to refine our thinking on whether and how to legislate on this issue.

We consider the proposal being consulted on relates to policy that in Wales is reserved to the UK Government. This is because it relates to the creation, operation, regulation and dissolution of types of business association, which is reserved under the Government of Wales Act 2006 (Schedule 7A Part 2, Section C1). As normal we will keep this under review when drafting any legislation. I have asked my officials to liaise with yours to keep them up to date with progress.

I am copying this letter to the Secretary of State for Wales. I am also writing to Roseanna Cunningham MSP, Cabinet Secretary for Environment, Climate Change and Edwin Poots MLA, Minister of the Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs in Northern Ireland.

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Rebecca Pow', is centered on the page. The signature is fluid and cursive, with a large initial 'R' and a distinct 'P'.

Rebecca Pow MP



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

12 Mawrth 2021

Annwyl Mick

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesur Dros Dro) (Covid-19) (Diwygio) 2021 Rheoliadau Organig (Diwygio) 2021

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Chwefror ynghylch y rheoliadau uchod a'r caniatâd a roddwyd i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ran Cymru.

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesur Dros Dro) (Covid-19) (Diwygio) 2021

Mae'r rheoliad hwn yn caniatáu i bob awdurdod cymwys ym Mhrydain Fawr gynnal gwiriadau dogfen electronig ar rai nwyddau a fewnforiwyd, am gyfnod dros dro, gan gynnwys mewn lleoliadau ar wahân i Safleoedd Rheoli Ffiniau, yn hytrach na gwirio copïau caled. Yn ogystal, mae'n caniatáu i unigolyn sydd â'r awdurdod, yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol gynnal gwiriadau rheoli ffin o dan oruchwyliaeth yr awdurdodau. Mae'r hawddfreintiau hyn yn gyson â hawddfreintiau eraill mewn perthynas â COVID-19 i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, a'r nod yw atal y tarfu ar y system o reolaethau swyddogol oherwydd y pandemig, gan ganiatáu cadw pellter cymdeithasol ac ymdrin â phrinder staff, heb amharu ar safonau rheolaethau swyddogol ar gyfer diogelu iechyd a llesiant pobl ac anifeiliaid. Roedd y rheoliad yn diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/466, a ddaeth i ben ar 1 Chwefror 2021, er mwyn caniatáu parhad ac ailgyflwyno hawddfreintiau penodol i'r system o reolaethau swyddogol ym Mhrydain Fawr tan 1 Gorffennaf 2021.

Hysbyswyd swyddogion am y rheoliad hwn gyntaf ar 21 Rhagfyr 2020. Rhoddais fy nghysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y rheoliad hwn mewn perthynas â Chymru oherwydd dyma'r opsiwn gorau i sicrhau parhad yr hawddfreintiau dros dro o dan yr amgylchiadau presennol. Byddai peidio â bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth frys hon neu ei gohirio yn golygu na fyddai awdurdodau cymwys yng Nghymru, sydd eisoes yn cael trafferth gyda phwysau amrywiol eraill, gan gynnwys COVID-19, Ffliw Adar a goblygiadau Gadael yr UE, yn elwa ar yr hawddfreintiau, gan beryglu eu gallu i gyflawni rheolaethau swyddogol o bosibl tra'n lleihau risgiau i staff o COVID-19 a glynu wrth ganllawiau pellter cymdeithasol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rheoliadau Organig (Diwygio) 2021

Gwnaed y rheoliad hwn o fewn amserlen lai, gan fod y rhanddirymiad ar gyfer caniatáu gwiriadau dogfennau i ddigwydd yn lle archwiliadau organig ar y safle i fod i ddod i ben ddechrau mis Chwefror 2021. Yn wreiddiol, roedd y rhanddirymiad hwn i fod i gael ei ymestyn gan ddeddfwriaeth yr UE a oedd yn dod i rym cyn diwedd y Cyfnod Pontio. Gohiriwyd y ddeddfwriaeth hon, gan arwain at yr angen i ddeddfwriaeth debyg gael ei gwneud naill ai ar lefel Prydain Fawr, neu yng Nghymru. Roedd perygl na fyddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud mewn pryd yn y Senedd, oherwydd na chafodd swyddogion eu hysbysu amdani tan 6 Ionawr, ac na chafodd OS drafft ei dderbyn tan 21 Ionawr

Gallai hyn fod wedi rhoi Cyrff Rheoli (CRh) Organig mewn perygl o beidio â bodloni eu rhwymedigaethau statudol pe na baent yn cynnal arolygiadau ar y safle cyn y gellid gweithredu deddfwriaeth Cymru. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai Cymru hefyd wedi bod yn wahanol i weddill Prydain Fawr wrth roi rhanddirymiad. Mae CRhau yn gweithredu ar draws ffiniau mewnol y DU, felly byddai rheolau gwahanol ar rannirymdiadau COVID-19 wedi achosi dryswch diangen. Roedd pob CRh yn cefnogi gwneud y rheoliadau hyn, gan eu bod yn lleihau'r risg y byddai eu staff a'u cynhyrchwyr yn trosglwyddo neu'n dal COVID-19 ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad iddynt gan unrhyw randdeiliad arall. Roedd y diffyg dadlau ynghylch y rheoliadau yn lleihau'r ysgogiad i'r rheoliadau gael eu gwneud ar lefel Cymru, gan ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw wrthwynebiad wedi'i wneud iddynt.

Mae'r egwyddorion sy'n sail i gytuno i arfer swyddogaethau cydredol ar gyfer yr offerynnau statudol hyn yn Atodiad A

O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fydd yn ofynnol i swyddogion ystyried a chywiros digynsail o ddeddfwriaeth o fewn amserlen dynn a chydag adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan mewn nifer fawr o offerynnau statudol.

Roedd nifer o ddiffygion yng Nghyfraith yr UE na chafodd eu datrys drwy ddiwygiadau gweithredu yn 2020. Paratowyd Rheoliadau 2021 o ganlyniad i drafodaethau parhaus rhwng swyddogion y DU a Llywodraeth Cymru. Bu hanes hir o gydweithio yn y maes hwn ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn ystod y pandemig presennol.

Gan fod y rheoliadau hyn wedi'u gwneud gan ddefnyddio pwerau cydamserol a mwy, teimlwn fod angen hysbysu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad yr oeddwn wedi rhoi caniatâd iddynt. Hysbysais y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig hefyd o'm penderfyniad, oherwydd bod pwnc y rheoliadau hyn o fewn eu maes pwnc.

Cofion



Lesley Griffiths AS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesur Dros Dro) (Covid-19) (Diwygio) 2021

| Egwyddorion mae Swyddogion wedi cytuno arnynt ar gyfer arfer swyddogaethau cydredol | Sylwadau |
|--|--|
| <p><i>Egwyddor 1: Rhaid bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith – h.y. prosesau wedi'u diffinio'n glir sy'n cynnwys trafodaethau polisi manwl ar lefel swyddogol hyd at oruchwyliaeth gan fforymau Gweinidogol – er mwyn galluogi cytundeb rhynglywodraethol ynghylch arfer swyddogaethau.</i></p> | <p>Mae prosesau llywodraethu wedi'u diffinio'n glir ar gyfer y mater hwn. Cytunwyd ar y polisi hwn yn y Grŵp Polisi Clefydau Anifeiliaid (a fynychwyd gan yr ASB ac APHA hefyd), sef corff llywodraethu Fframwaith Cyffredin y DU ar lechyd a Lles Anifeiliaid.</p> |
| <p><i>Egwyddor 2: Os ydym yn argymhell caniatáu hwylustod yn absenoldeb trefniadau llywodraethu sydd wedi'u datblygu'n llawn, neu os nad ydym yn sicr ynghylch sut y caiff y swyddogaethau eu harfer ar yr adeg pan geisir caniatâd, dylem sicrhau bod ein caniatâd wedi'i ddiffinio mor gul â phosibl o ran:</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <i>1. yr union swyddogaethau rydym yn cydsynio iddynt gael eu harfer;</i> <i>2. y cyfnod rydym yn rhoi cydsyniad ar ei gyfer – yn ddelfrydol cyfnod byr gyda mecanwaith adolygu wedi'i ddiffinio, a heb amharu ar y trefniadau hirdymor;</i> <i>3. y gofynion sylfaenol ar gyfer trafodaethau rhynglywodraethol parhaus.</i> | <p>Nid yw hyn yn berthnasol gan fod trefniadau llywodraethu diffiniedig wedi cael eu datblygu'n llawn. Yn ogystal, mae swyddogaethau a'r graddau y maent yn cael eu defnyddio wedi'u diffinio'n dda (gan fod yr hawddfreintiau hyn wedi bod ar waith am sawl mis ers i bandemig COVID-19 ddechrau a Rheoliad yr UE ddod i rym yn 2020). Mae trafodaethau rheolaidd yn parhau i gael eu cynnal rhwng arweinwyr polisi lechyd a Lles Anifeiliaid, Prif Swyddogion Milfeddygol a'r asiantaethau gweithredol i drafod y materion hyn a chytuno ar gyfeiriad polisi.</p> |
| <p><i>Egwyddor 3: Rhaid i swyddogion allu rhoi sicrwydd i Weinidogion eu bod wedi:</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <i>1. ystyried yn ofalus y sail resymegol ar gyfer polisiâu tymor hwy a'r egwyddor gyfansoddiadol ehangach bod Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, gan ddisgwyl mai dim ond yn y tymor byr y mae materion capasiti yn berthnasol;</i> <i>2. gwerthuso'r opsiwn 'Cymru yn unig' phenderfynu nad yw'n ddymunol yn yr achos hwn;</i> <i>3. ystyried a yw'r trefniadau llywodraethu'n ddigon cadarn i ddiogelu buddiannau Cymru neu beidio;</i> | <ol style="list-style-type: none"> <i>1. Nid oes unrhyw ymrwymiadau hirdymor, gyda Rheoliad 2020/466 a ddargedwir yn dod i ben ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, gallai'r profiadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r dull hwn lywio ffyrdd yn y dyfodol o wella'r ffordd mae rheolaethau swyddogol yn cael eu gweithredu, yn unol â thueddiadau ehangach mewn perthynas â defnyddio technoleg a gweithio o bell, a all greu arbedion effeithlonrwydd.</i> <i>2. Byddai'n bosibl, ond yn annymunol deddfu ar wahân yng Nghymru oherwydd pwysau amrywiol o ran adnoddau. Yn ogystal, dylai fod dull cyson o ymdrin â rheolaethau swyddogol ledled Prydain gyfan ac ni</i> |

| | |
|---|---|
| <p>4. cynllunio'r telerau a'r broses orau bosibl ar gyfer rhoi caniatâd sy'n diogelu ein sefyllfa yn y tymor hwy (gyda chwmpas a pharhad wedi'u diffinio'n glir yn ogystal â chyfranogiad llawn ar bob cam o ddatblygu a gweithredu polisi);</p> <p>5. defnyddio dull cyson wrth wneud penderfyniadau, fel bod Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn gweithredu mewn modd cydlynol – ar lefel portffolio ac yn ehangach.</p> | <p>fyddai ymwahanu trawsffiniol yn fuddiol. Gallai amrywiadau yn y ffordd y gweithredir rheolaethau swyddogol arwain at ystumio'r farchnad pe bai busnesau a masnachwyr yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol ar draws ffiniau.</p> <p>3. Mae'r trefniadau llywodraethu yn foddhaol ac yn cynnwys Fframwaith Cyffredin ymarferol.</p> <p>4. Cafodd yr OS hwn ei gymeradwyo yn dilyn dadansoddiad manwl gan swyddogion, ac ar yr amod bod yr hawddfreintiau ar waith am gyfnod penodol yn unig. Os oes angen deddfu ymhellach, unwaith eto byddai dadansoddiad trylwyr yn cael ei gynnal gan swyddogion; a chynhwysid yr opsiwn ar gyfer deddfwriaeth ar wahân i Cymru, neu gydsyniad unwaith eto, fel y bo'n briodol.</p> <p>5. Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn yr egwyddorion a amlinellir yn y tabl hwn.</p> |
| <p><i>Egwyddor 4: Dylid cyflwyno penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer swyddogaeth gydredol mewn perthynas â Chymru yn y lle cyntaf i'r Cwnsler Cyffredinol, ac i Weinidog y portffolio cyn gynted ag y bo modd yn y broses.</i></p> | <p>Gweithredwyd drwy'r Cyngor Gweinidogol a anfonwyd gan swyddogion ar 21 Ionawr.</p> |
| <p><i>Egwyddor 5: Dylai Gweinidogion ysgrifennu at y pwyllgorau polisi perthnasol i'w hysbysu am fwiad i gydsynio i Lywodraeth y DU arfer swyddogaeth gydredol a deddfwriaethol mewn perthynas â Chymru, a lle mae amser yn caniatáu rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn i Weinidogion roi cydsyniad.</i></p> | <p>Rydym yn bwriadu ysgrifennu at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w hysbysu am ein bwriadu i roi cysyniad i Lywodraeth y DU.</p> |
| <p><i>Egwyddor 6: Mae'r un egwyddorion sy'n ymwneud â gweithio rhynglywodraethol, cytundeb Gweinidogol a hysbysu'r Senedd yn berthnasol i ddarparu a thynnu'n ôl cydsyniad i arfer swyddogaeth gydredol.</i></p> | <p>Dilynwyd fel y nodwyd uchod.</p> |

| <p>Egwyddorion mae Swyddogion wedi cytuno arnynt ar gyfer arfer swyddogaethau cydredol</p> | <p>Sylwadau</p> |
|---|--|
| <p><i>Egwyddor 1: Rhaid bod trefniadau llywodraethu cadarn – h.y. prosesau wedi'u diffinio'n glir sy'n cynnwys trafodaethau polisi manwl ar lefel swyddogol hyd at oruchwyliaeth gan fforymau Gweinidogol – er mwyn galluogi cytundeb rhynglywodraethol ynghylch arfer swyddogaethau.</i></p> | <p>Mae prosesau llywodraethu wedi'u diffinio'n glir ar gyfer y mater hwn. Cytunwyd ar y polisi hwn yng Ngweithgor y Pedair Gwlad ar Gynhyrchion Organig, sy'n cael ei lywodraethu gan Gytundeb Fframwaith Amlinellol Dros Dro y DU ar gyfer Cynhyrchion Organig.</p> |
| <p><i>Egwyddor 2: Os ydym yn argymhell caniatáu hwylustod yn absenoldeb trefniadau llywodraethu sydd wedi'u datblygu'n llawn, neu os nad ydym yn sicr ynghylch sut y caiff y swyddogaethau eu harfer ar yr adeg pan geisir caniatâd, dylem sicrhau bod ein caniatâd wedi'i ddiffinio mor gul â phosibl o ran:</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <i>1. yr union swyddogaethau rydym yn cydsynio iddynt gael eu harfer;</i> <i>2. y cyfnod rydym yn rhoi cydsyniad ar ei gyfer – yn ddelfrydol cyfnod byr gyda mecanwaith adolygu wedi'i ddiffinio, a heb amharu ar y trefniadau hirdymor;</i> <i>3. y gofynion sylfaenol ar gyfer trafodaethau rhynglywodraethol parhaus</i> | <p>Nid yw hyn yn berthnasol gan fod trefniadau llywodraethu diffiniedig wedi'u datblygu'n llawn. Yn ogystal, mae swyddogaethau a'r graddau y maent yn cael eu defnyddio wedi'u diffinio'n dda (gan fod yr hawddfreintiau hyn wedi bod ar waith am sawl mis ers i bandemig COVID-19 ddechrau a Rheoliad yr UE ddod i rym yn 2020). Mae trafodaethau rheolaidd yn parhau i gael eu cynnal rhwng swyddogion sy'n gweithio ar bolisi cynhyrchion organig ar draws y Pedair Gwlad i drafod y materion hyn y chytuno ar cyfeiriad polisi.</p> |
| <p><i>Egwyddor 3: Rhaid i swyddogion allu rhoi sicrwydd i Weinidogion eu bod wedi:</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <i>1. ystyried yn ofalus y sail resymegol ar gyfer polisiâu tymor hwy a'r egwyddor gyfansoddiadol ehangach bod Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, gan ddisgwyl mai dim ond yn y tymor byr y mae materion capasiti yn berthnasol;</i> <i>2. gwerthuso'r opsiwn 'Cymru yn unig' a phenderfynu nad yw'n ddymunol yn yr achos hwn;</i> <i>3. ystyried a yw'r trefniadau llywodraethu'n ddigon cadarn i ddiogelu buddiannau Cymru neu beidio;</i> <i>4. cynllunio'r telerau a'r broses orau bosibl ar gyfer rhoi caniatâd sy'n</i> | <ol style="list-style-type: none"> 1. Nid oes unrhyw ymrwymiadau hirdymor, gan mai dim ond tra bo'r risg o COVID-19 yn uchel y bydd yr hawddfrait hwn yn parhau i fod ar waith. 2. Byddai'n bosibl, ond yn annymunol deddfu ar wahân yng Nghymru oherwydd yr amserlen fer. Yn ogystal, mae potensial ar gyfer problemau pe bai deddfwriaeth Cymru yn dod i rym yn ddiweddarach neu pe bai'n wahanol o ran ei chynnwys. Mae Cyrrff Rheoli yn gweithio ar draws ffiniau mewnol y DU, a gallai rheolau gwahanol ar reolaethau swyddogol sy'n dod i rym ar fyr rybudd amharu'n sylweddol ar eu gweithrediadau. |

| | |
|---|--|
| <p><i>diogelu ein sefyllfa yn y tymor hwy (gyda chwmpas a pharhad wedi'u diffinio'n glir yn ogystal â chyfranogiad llawn ar bob cam o ddatblygu a gweithredu polisi);</i></p> <p><i>5. defnyddio dull cyson wrth wneud penderfyniadau, fel bod Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn gweithredu mewn modd cydlynol – ar lefel portffolio ac yn ehangach.</i></p> | <p>3. Mae'r trefniadau llywodraethu yn foddhaol ac yn cynnwys Fframwaith Cyffredin ymarferol.</p> <p>4. Cafodd yr OS hwn ei gymeradwy yn dilyn dadansoddiad manwl gan swyddogion, ac ar yr amod bod yr hawddfreintiau ar waith am gyfnod penodol. Os oes angen deddfu ymhellach, unwaith eto byddai dadansoddiad trylwyr yn cael ei gynnal gan swyddogion; a chynhwysid yr opsiwn ar gyfer deddfwriaeth ar wahân i Cymru, neu gydsyniad unwaith eto, fel y bo'n briodol.</p> <p>5. Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn yr egwyddorion a amlinellir yn y tabl hwn.</p> |
| <p><i>Egwyddor 4: Dylid cyflwyno penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer swyddogaeth gydredol mewn perthynas â Chymru yn y lle cyntaf i'r Cwnsler Cyffredinol, ac i Weinidog y portffolio cyn gynted ag y bo modd yn y broses.</i></p> | <p>Gweithredwyd drwy'r Cyngor Gweinidogol a anfonwyd gan swyddogion ar 26 Ionawr.</p> |
| <p><i>Egwyddor 5: Dylai Gweinidogion ysgrifennu at y pwyllgorau polisi perthnasol i'w hysbysu am fwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU arfer swyddogaeth gydredol a deddfwriaethol mewn perthynas â Chymru, a lle mae amser yn caniatáu rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn i Weinidogion roi cydsyniad.</i></p> | <p>Rydym yn bwriadu ysgrifennu at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w hysbysu am ein bwriadu i roi cysyniad i Lywodraeth y DU.</p> |
| <p><i>Egwyddor 6: Mae'r un egwyddorion sy'n ymwneud â gweithio rhynglywodraethol, cytundeb Gweinidogol a hysbysu'r Senedd yn berthnasol i ddarparu a thynnu'n ôl cydsyniad i arfer swyddogaeth gydredol.</i></p> | <p>Dilynwyd fel y nodwyd uchod.</p> |

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon